**ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O DREFNIADAU HAF 2020 AR GYFER DYFARNU GRADDAU, AC YSTYRIAETHAU AR GYFER HAF 2021: ADRODDIAD TERFYNOL RHAGFYR 2020**

**Rhagair**

Ym mis Awst 2020, bu nifer sylweddol o bobl ifanc ledled Cymru mewn penbleth a gofid wrth iddynt dderbyn canlyniadau Safon Uwch nad oeddent yn cyd-fynd o gwbl â'u disgwyliadau a'u galluoedd. Cafodd eu rhieni, eu gofalwyr a'u hathrawon eu rhoi yn y sefyllfa anodd o gefnogi'r dysgwyr hyn pan nad oeddent yn gallu deall y canlyniadau eu hunain. Cafodd y broses derbyn i brifysgolion ei drysu'n llwyr. Cynyddodd gorbryder ymhlith dysgwyr a oedd yn disgwyl eu canlyniadau ar gyfer TGAU, UG a chymwysterau galwedigaethol dros yr wythnosau canlynol wrth iddynt bryderu am brofi sefyllfa debyg. Collodd rhai dysgwyr eu lle yn y brifysgol ac nid oedd rhai wedi gallu gwneud y dilyniant yn 2020 fel y cynlluniwyd. Roedd digwyddiadau tebyg yn datblygu yng ngweddill y DU. Cynyddodd gwrthwynebiad y cyhoedd a diddordeb y cyfryngau, a chafwyd pwysau cynyddol i ddiddymu'r canlyniadau, a oedd wedi'u cyfrifo gan fodelau safoni ystadegol, a'u hailddosbarthu ar sail y graddau asesu canolfannau yr oedd ysgol neu goleg pob dysgwr wedi'u cyflwyno ar eu cyfer. Chwalwyd ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau. Yn eu tro, cyhoeddodd llywodraethau'r DU, a oedd yn ymwybodol o anghyfiawnder llawer o'r canlyniadau, eu penderfyniadau i ailddosbarthu'r canlyniadau ar sail yr uchaf o'r graddau asesu canolfannau neu'r radd a gyfrifwyd.

Roedd y pandemig COVID-19 wedi creu amgylchiadau unigryw ac eithriadol o heriol ar gyfer dyfarnu'r cymwysterau a graddau a fyddai'n galluogi dysgwyr i ddatblygu yn eu bywydau. Roedd pawb a fu ynghlwm wrth ddarparu cymwysterau yn 2020 wedi gweithio'n ddiwyd ac yn broffesiynol i weithredu system yr oeddent o'r farn y byddai'n deg i ddysgwyr ac yn cynnal safonau. Fodd bynnag, dangosodd digwyddiadau mis Awst 2020, er gwaethaf proffesiynoldeb o'r fath, bod y canlyniadau a ddarparwyd gan y system honno wedi bod yn annerbyniol i lawer.

Gan gydnabod hyn, sefydlwyd yr Adolygiad Annibynnol o'r Trefniadau ar gyfer Dyfarnu Graddau yng Nghymru i ddysgu'r gwersi o brofiadau 2020 a datblygu argymhellion ar gyfer 2021 a'r tu hwnt.

Cefais fy nghefnogi yng ngwaith yr adolygiad hwn gan banel a swyddogion y mae eu profiad a'u harbenigedd ar y cyd wedi bod yn wirioneddol fwy na chyfanswm ei rhannau. Mae'r panel wedi gweithio drwy gydol mis Medi, Hydref a Thachwedd 2020 i wrando ar y bobl hynny y cafodd cyfres dyfarniadau haf 2020 effaith arnynt, ac y bu ynghlwm wrthi. Rydym yn ddiolchgar i'r cannoedd o bobl a roddodd o'u hamser i gwrdd â ni, a'r miloedd o bobl a ymatebodd i'n harolwg ar-lein. Yn ddieithriad, cafodd ein hymgysylltiadau eu cynnal mewn modd cadarnhaol, proffesiynol ac ystyriol. Rydym wedi bod yn ffodus o fod wedi cael mynediad i fewnbynnau safon uchel o'r fath. Mae'n bwysig bod yr un ewyllys ystyriol a chydweithredol hwnnw'n nodweddu gwaith ar gymwysterau yn y dyfodol er budd pob dysgwr.

Gwnaethom lunio adroddiad interim ym mis Hydref 2020 a ddefnyddiodd y gwersi roeddem wedi'u dysgu ac a ganolbwyntiodd ar argymhellion ar gyfer trefniadau 2021. Yn ein holl waith wrth edrych ymlaen, ac asesu digwyddiadau 2020, buddion dysgwyr bu wrth wraidd ein hystyriaethau. Mae'r un potensial a'r gallu i wneud cynnydd gan ddysgwyr carfanau 2020 a 2021 ag yr oedd gan eu cymheiriaid o flynyddoedd eraill. Roeddent yn haeddu, ac maent yn haeddu, derbyn cymwysterau a graddau sy'n galluogi i'r cynnydd hwnnw ddigwydd. Bydd ein canfyddiadau ac argymhellion yn yr adroddiad terfynol hwn yn ystyried sut y gellid fod wedi gwneud penderfyniadau'n wahanol yn 2020, yn asesu p'un a oedd hynny'n bosibl yn yr amgylchiadau, ac yn gwneud argymhellion ar arferion y dyfodol a fyddai'n cryfhau'r system gymwysterau yng Nghymru ac yn rhoi mwy o sicrwydd i ddysgwyr Cymru y caiff eu galluoedd eu cydnabod yn briodol ac y cânt gymorth wrth wneud cynnydd.

Mae trefniadau ar gyfer 2021 bellach ar waith o ganlyniad i sefydlu'r Grŵp Cynllunio a Chyflawni, ac rydym yn croesawu cyfranogiad gan amrediad o arbenigedd a lleisiau wrth gynllunio trefniadau ar gyfer 2021. Mae

ein hadroddiad terfynol yn amlygu pwysigrwydd datblygu aeddfedrwydd y trefniadau haenog ar gyfer goruchwylio a datblygu'r sector addysg yng Nghymru ac yn pwysleisio gwerth deialog well rhwng y partïon. Mae'n rhaid i’r cydweithrediad sydd bellach yn mynd rhagddo ar yr agweddau cynllunio ar gyfer 2021 ymestyn i'r cam cyflenwi hefyd er mwyn sicrhau y ceir arweinyddiaeth a rheolaeth gydlynol ar draws yr haenau, ac y ceir cyfathrebu clir, cryno ac amserol â phob rhanddeiliad. Dyma'r gwersi sy'n rhaid gweithredu arnynt o 2020 er mwyn gallu ailgodi'n gryfach ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod adegau o argyfwng mae cyfleoedd yn dod i'r amlwg i wneud pethau'n wahanol, mae arloesi’n dod yn hanfodol, ac mae camau gweithredu'n cael eu mabwysiadu ar gyflymder efallai na ellid mo'i ddychmygu yn ystod adegau mwy sefydlog. Ceir bellach cyfle go iawn i sector addysg Cymru ddod ynghyd i ddatblygu a chyflwyno system gymwysterau sy'n rhoi dysgwyr wrth ei chraidd, nid ar gyfer y garfan sy'n wynebu cymwysterau yn 2021 yn unig, ond ar gyfer y tymor hwy.

Louise Casella

Cadeirydd y Panel Adolygu Annibynnol

**MYNEGAI**


| | | |
|---|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | | 1 |
| 1. | Cyflwyniad a chefndir | 4 |
| 2. | Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020 | 9 |
| 3. | Mawrth 2020 | 13 |
| 4. | Ebrill 2020 | 16 |
| 5. | Mai/Mehefin 2020 | 21 |
| 6. | Mehefin/Gorffennaf 2020 | 27 |
| 7. | Awst 2020 | 31 |
| 8. | Y modelau safoni | 34 |
| 9. | Themâu trawsbynciol | 38 |
| | 9.1 Arweinyddiaeth a llywodraethu | 38 |
| | 9.2 Tegwch i bob dysgwr | 41 |
| | 9.3 Ymgynghori, cyfathrebu ac ymgysylltu | 42 |
| | 9.4 Llais y dysgwr a gwybodaeth | 45 |
| 10. | Dysgu ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2021 | 49 |
| 11. | 2022 a thu hwnt | 54 |
| 12. | Crynodeb o'r canfyddiadau ac argymhellion | 57 |
| Atodiadau: | | |
| | 1. Cylch gorchwyl ac aelodaeth | 63 |
| | 2. Crynodeb o'r dystiolaeth | 67 |
| | 3. Dyddiadau allweddol yn ystod 2020 | 69 |
| | 4. Arolwg yr Adolygiad Annibynnol: Dadansoddiad | 72 |
| | 5. Gwahaniaethau dull Cymru o'i gymharu â dulliau'r Alban a Lloegr | 124 |

**Nodyn ar y derminoleg a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn**

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r termau allweddol canlynol:

**Cymwysterau**,[1] sy'n cadarnhau bod gan ddeiliad y cymhwyster lefel o wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r cymhwysedd i symud ymlaen. Y cymwysterau o fewn cwmpas yr adolygiad hwn yw:

- **Cymwysterau cyffredinol yng Nghymru:** TGAU, Uwch Gyfrannol (UG) a Safon Uwch, Tystysgrifau Her Sgiliau (y cymwysterau hynny a reoleiddir ac a gymeradwyir gan Cymwysterau Cymru, a'u cyflenwir drwy CBAC, ac nid cymwysterau a ddyfernir gan gyrff dyfarnu yn Lloegr);
- **Cymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru:** cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.

**Asesiadau**, yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, yw'r dulliau y gellir dysgwr ddangos ei fod yn bodloni'r gofynion ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster (a gradd). Mae'r trefniadau ar gyfer asesu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster yn cynnwys arholiadau sy'n cael eu gosod a'u marcio'n allanol, asesiadau heblaw arholiadau, gwaith cwrs, a/neu asesiadau parhaus.

[1] Daw diffiniadau 'cymwysterau' a 'threfniadau asesu' o:
Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru: https://llyw.cymru/fframwaith-credydau-chymwysterau, cyrchwyd 30 Tachwedd 2020
Deddf Cymwysterau Cymru 2015, https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/5/contents, cyrchwyd 30 Tachwedd 2020

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

Cyflwynodd y pandemig COVID-19 heriau digyffelyb ac ansicrwydd ledled y system addysg yng Nghymru yn 2020. Gwnaeth safleoedd ysgol a choleg gau yn y gwanwyn a gwnaed y penderfyniad gan lywodraethau holl wledydd y DU i ganslo cyfres arholiadau'r haf a dyfarnu cymwysterau drwy fathau eraill o asesiadau.

Nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw beth ond ymroddiad a phroffesiynoldeb gan y rheini sydd wedi gweithio mewn amgylchiadau anodd a heriol iawn i sicrhau y gallai dysgwyr symud ymlaen drwy ddyfarnu graddau yn 2020. Fodd bynnag, er yr ymdrechion hyn, methodd y dull a ddewiswyd i gyfrifo'r graddau i gyflenwi canlyniadau teg i lawer o ddysgwyr. Roedd hyn yn berthnasol i bedair gwlad y DU. I gywiro hyn, yng nghanol mis Awst 2020, penderfynodd pob llywodraeth yn y DU i ddyfarnu'r radd uchaf o radd asesu'r ganolfan neu'r radd a gyfrifwyd.

Sefydlwyd yr adolygiad annibynnol hwn gan y Gweinidog Addysg yng Nghymru, Kirsty Williams AS, i ddysgu gwersi o ddyfarnu graddau 2020 ac i gynghori ar y dull ar gyfer 2021 a thu hwnt.

Rydym wedi adrodd mewn dau gam. Gosododd ein hadroddiad interim [2] argymhellion ar gyfer dull o ddyfarnu cymwysterau yn haf 2021 a oedd yn cydnabod y byddai cyfres arholiadau yn annheg i ddysgwyr o ystyried yr anghysondeb ym mhrofiadau dysgu ledled Cymru. Mae'r Gweinidog eisoes wedi cyhoeddi ei phenderfyniad i ganslo arholiadau 2021 ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch ac mae Grŵp Cynghori ar Gynllunio a Chyflenwi eisoes yn datblygu'r dull ar gyfer dyfarnu graddau yn haf 2021.

Dyma ein hadroddiad terfynol, sydd yn adolygu digwyddiadau gwanwyn a haf 2020 mewn manylder er mwyn dysgu gwersi a chynghori ar sut y gellir cymhwyso'r gwersi ar gyfer 2021 a thu hwnt.

Drwy gydol ein dadansoddiad o'n canfyddiadau, rydym o hyd yn dychwelyd i'r modelau safoni ystadegol. Rydym wedi dod i'r casgliad fod y gymuned o gyrff dyfarnu a rheoleiddwyr yn y DU wedi gosod gormod o hyder yng ngallu'r modelau ystadegol i ddarogan y canlyniadau cywir ar gyfer dysgwyr, a drwy hynny, wedi methu cyfleoedd i wella tegwch y canlyniadau. Roedd yr hyder hwn yn deillio o'r flaenoriaeth a roddir i gyflawni canlyniadau ledled y system a oedd yn gyson â blynyddoedd blaenorol wrth fethu roi sylw i oblygiadau unigol y dull hwnnw. Tra oedd y rheoleiddiwr yn ceisio sicrhau hyder yn y system gymwysterau yn ei chyfanrwydd, yn y diwedd roedd y canlyniadau niweidiol o wneud hynny ar gyfer niferoedd mor fawr o unigolion yn niweidio'r un hyder hwnnw yn sylweddol.

Ar yr un pryd, roedd methiant hefyd i roi proses apeliadau ymarferol a theg ar waith yn 2020 a fyddai'n mynd i'r afael ag analluoedd hysbys y prosesau ystadegol i roi canlyniad teg i bob dysgwr.

Cymerwyd y penderfyniad i ddibynnu'n gyfan gwbl ar y modelau safoni ystadegol i 'gymedroli' rhwng canolfannau heb brofi unrhyw ffyrdd neu ddulliau eraill yn llawn. Byddai cymedroli allanol o'r penderfyniadau a wnaed wrth roi graddau asesu canolfannau a threfnau safle, ynghyd â hyfforddi aseswyr er mwyn sicrhau osgoi unrhyw ragfarn wrth gyrraedd graddau asesu canolfannau, wedi gwella tegwch y canlyniadau.

O ystyried yr amgylchiadau heriol eithriadol a gyflwynwyd gan y pandemig, gallai profi gyda chymunedau'r tu hwnt i'r cyrff dyfarnu a rheoleiddio fod wedi cyrraedd yr un penderfyniadau, h.y. i ddibynnu ar y modelau. Byddai hyn, o leiaf, wedi dangos dealltwriaeth well o'r risgiau a oedd yn gynhenid yn y system a fabwysiadwyd bryd hynny a gellid bod wedi cynllunio camau i liniaru'r risgiau hynny yn well.

---

[2] Adroddiad interim yr adolygiad annibynnol: https://llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-o-drefniadau-haf-2020-ar-gyfer-dyfarnu-graddau-ac-ystyriaethau-ar-gyfer-haf

Mae 'Cenhadaeth ein Cenedl' (Cynllun Gweithredu, 2017) yn gosod strwythur arweinyddiaeth a llywodraethu[3] o fewn system addysg Cymru, sef model tair haen o gyfrifoldeb ac atebolrwydd, a gynlluniwyd i gefnogi 'system addysg sy'n hunanwella' sy'n cwmpasu haen ganol o sefydliadau rhwng Llywodraeth Cymru ac ysgolion a cholegau, gan gynnwys Consortia Rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru a CBAC. Roedd y broses o ddyfarnu graddau yn 2020 yn gyfle i'r strwythur hwn ddangos ei werth, ond ni chafwyd cyfathrebu ac ymgysylltu dwyffordd o ddifrif drwy'r strwythur arweinyddiaeth a llywodraethu hwn. Roedd gorddibyniaeth ar yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd gan Cymwysterau Cymru fel rhywbeth a oedd yn cyfateb i ymgysylltu eang a chynhwysol â rhanddeiliad. Gallai cynnwys arweinwyr ysgolion a cholegau'n fwy, mewn proses o ymgynghori, ac adborth i'r prif gyrff, fod wedi helpu i wrthbwyso rhai o'r materion a phroblemau a achoswyd gan y dull o ddyfarnu cymwysterau yn 2020.

Yn yr un ffordd, mae sawl gwers i'w dysgu er mwyn sicrhau ymgysylltu effeithiol â'r holl ddysgwyr sy'n gwneud cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol, gan gynnwys ymgeiswyr preifat, wrth symud ymlaen. Ar gyfer proses o newid sylweddol fel dyfarnu graddau, dylai fod wedi bod cyfathrebu dwyffordd effeithiol â dysgwyr yn ystod gwanwyn a haf 2020, gan alluogi lleisiau dysgwyr i gael eu clywed er mwyn llywio penderfyniadau, a chan sicrhau bod gan ddysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt.

Rydym wedi dod i'r casgliad y byddai ymateb gan arweinwyr a oedd wedi'i gydlynu'n glir ar draws y sefydliadau, ac a oedd yn dod ag amryw o ffrydiau gwaith a chyrff amrywiol at ei gilydd, wedi rhoi canlyniadau tecach ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru ac wedi cyfyngu ar y gofid a achoswyd i'r dysgwyr a'u teuluoedd. Mae'n amlwg erbyn hyn na wnaeth ymlyniad i brosesau normadol ar gyfer gwneud penderfyniadau drin dysgwyr yn dda a bod gwrando ar ddysgwyr yn wers hanfodol ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddyfarnu cymwysterau a chynnal asesiadau a arweinir at gymwysterau cenedlaethol.

Mae'r dysgu o 2020 wedi dangos pwysigrwydd hanfodol cael un lle sydd â'r gallu i gynnal y trosolwg wrth gynllunio a chyflwyno'r dull ar gyfer dyfarnu graddau. Mae'r trosolwg hwnnw yn ystod y cyfnod cynllunio ar gyfer dyfarniadau 2021 yn cael ei ddarparu drwy'r Grŵp Cynghori ar Gynllunio a Chyflenwi. Bydd yn hanfodol cynnal goruchwyliaeth gref mewn perthynas â chyflenwi'r dull y cytunwyd arni ar gyfer 2021 ac i roi sicrwydd i'r Gweinidog fod:

1. pob elfen o'r newidiadau sydd eu hangen yn cael ei chydlynu a'i chyflwyno yn unol â'r amserlen;
2. arbenigedd y sector addysg yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio wrth gyflenwi'r dull;
3. penderfyniadau a wneir yn ystod y cyfnod cyflenwi yn ystyried llesiant a buddiannau pawb yr effeithir arnynt;
4. cynllun cyfathrebu cynhwysfawr ac agored ar waith er mwyn sicrhau bod pawb y mae angen iddynt ddeall y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn eu deall ac yn gallu cael sicrwydd a gwybodaeth bellach lle y bo'n briodol;
5. risgiau i broses gyflenwi lwyddiannus yn cael eu hadolygu'n barhaus a bod camau lliniaru yn cael eu nodi a'u cyflawni gan y corff priodol.

Yn olaf, mae'n rhaid dysgu'r gwersi o 2020 a 2021 a'u cymhwyso'n gadarnhaol er budd holl ddysgwyr Cymru. Mae canslo arholiadau am ail flwyddyn yn rhoi cyfle unigryw a phwysig i system addysg Cymru baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'r system addysg yng Nghymru yn ymfalchïo yn ei chenhadaeth genedlaethol i gyflenwi tegwch a rhagoriaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr. Os am wireddu hyn, ni ellir gwastraffu, osgoi neu atal y cyfle i ailfeddwl asesiadau ac arholiadau oherwydd dyhead i ddychwelyd i system arholiadau na ellir bodloni gofynion cwricwlwm newydd a diwallu anghenion yr holl ddysgwyr yng

[3] https://dera.ioe.ac.uk/30138/4/170926-education-in-wales-cy_Redacted.pdf

Nghymru.   Blwyddyn gyntaf asesiad allanol y Cwricwlwm i Gymru fydd 2027 ac argymhellwn fod y drysau'n cael eu hagor i bontio i ffurfiau amgen o asesu yn llawer cynt nag a gynlluniwyd yn flaenorol.

**CYFLWYNIAD**

**1.1 Cefndir yr adolygiad**

1.1.1 Bob haf, mae miloedd o ddysgwyr ledled Cymru'n derbyn eu canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, Tystysgrifau Her Sgiliau, a chymwysterau galwedigaethol a thechnegol. Mae'r cymwysterau hyn yn galluogi eu dilyniant i'r cam nesaf yn eu haddysg neu i gyflogaeth. Mae'r ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflogwyr sy'n derbyn y dysgwyr hyn i astudiaethau pellach neu gyflogaeth yn deall y cymwysterau hyn. Mae'n rhaid iddyn nhw, a phob dysgwr, fod yn hyderus bod graddau'r cymwysterau'n cynrychioli lefel gwybodaeth a sgiliau'r sawl sy'n ymgeisio am le ar gwrs astudiaeth neu am swydd, ynghyd â'i allu i ddysgu ymhellach, er mwyn sicrhau dilyniant llwyddiannus.

1.1.2 Mae system gymwysterau lwyddiannus yn seiliedig ar egwyddorion cadarn o degwch i unigolion, gan gyflwyno'r graddau cywir i'r dysgwyr cywir, ac wedi'i chefnogi gan brosesau cadarn o safon uchel. Mae'r system gymwysterau'n cymysgedd amrywiol a allai gynnwys arholiadau a osodir ac a gaiff eu marcio'n allanol, asesiadau nad ydynt yn seiliedig ar arholiadau, gwaith cwrs, a/neu asesiadau parhaus.

1.1.3 Roedd haf 2020 yn adeg eithriadol o ganlyniad i effaith y pandemig COVID-19. Tarfwyd ar weithrediad arferol y system gymwysterau hon wrth i safleoedd ysgol a choleg gau, ac wrth i lywodraethau holl wledydd y DU benderfynu diddymu cyfres arholiadau'r haf a dyfarnu cymwysterau drwy fathau eraill o asesiad. Yn ei hanfod, ar gyfer y mwyafrif o gymwysterau, golygodd hyn gyfuno'r asesiadau roedd ysgol neu goleg (canolfan) pob dysgwr wedi'u cyflwyno ar ei gyfer, yn seiliedig ar raddau darogan fesul cymhwyster, a threfn safle o fewn ystod graddau, â data ar gyrhaeddiad blaenorol a data hanesyddol ar berfformiad ar lefel carfan, cymhwyster a chanolfan, i bennu gradd a gyfrifwyd.

1.1.4 Fodd bynnag, pan gyhoeddwyd y canlyniadau, gan ddechrau â'r Scottish Highers yn gynnar ym mis Awst, daeth i'r amlwg yn gyflym nad oedd dysgwyr, rhieni a chanolfannau o'r farn fod y system wedi dyfarnu graddau mewn modd a oedd yn cyd-fynd â pherfformiad a disgwyliadau dysgwyr. Roedd yn ymddangos bod nifer fawr o achosion lle nad oedd y canlyniad cywir wedi cael ei roi i'r dysgwr cywir, gan greu dryswch, siom a dicter ymhlith dysgwyr, eu rhieni a gofalwyr, ac ymhlith eu hathrawon, ysgolion a cholegau. Dros y pythefnos canlynol, penderfynodd pob llywodraeth yn y DU, yn ei thro, i newid y dyfarniadau i'r uchaf o'r graddau asesu canolfannau neu'r radd a gyfrifwyd.

1.1.5 Ar gyfer rhai cymwysterau galwedigaethol, nid oedd dysgwyr wedi gallu cwblhau eu cymhwyster yn ystod haf 2020 gan nad oeddent wedi gallu cwblhau asesiad ymarferol o sgiliau penodol.

1.1.6 Ar 18 Awst, cyhoeddodd Kirsty Williams AS, Gweinidog Addysg Cymru, adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020 â'r bwriad o ddysgu gwersi a darparu cyngor ar gyfer y dull i'w ddilyn i'r blynyddoedd i ddod.

1.1.7 Ym mis Hydref, derbyniodd y Gweinidog yr adroddiad ac argymhellion interim ar gyfer haf 2021 gan yr adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau.[4] Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r trefniadau ar gyfer 2020, ac yn nodi gwersi allweddol ar gyfer symud ymlaen.

---

[4] Adroddiad interim yr adolygiad annibynnol: https://llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-o-drefniadau-haf-2020-ar-gyfer-dyfarnu-graddau-ac-ystyriaethau-ar-gyfer-haf, cyrchwyd 30 Tachwedd 2020

## 1.2 Cylch gorchwyl ac aelodaeth yr adolygiad annibynnol

1.2.1 Cafodd yr adolygiad ei gynnal gan banel annibynnol yn cynnwys y bobl ganlynol:

- Louise Casella, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru (cadeirydd yr adolygiad);
- Yr Athro Alma Harris, Dirprwy Bennaeth Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe. Cynghorydd Cyngor Rhyngwladol i Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog yr Alban;
- Rosemary Jones OBE, cynghorydd gwella ysgolion, ymgynghorydd addysgol a chyn-bennaeth;
- Andy Youell, arbenigwr data a systemau llawrydd, cyn-Gyfarwyddwr Polisi a Llywodraethu Data yn yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Cafodd y panel ei gefnogi yn ei waith gan Dr Sue Hybart fel y swyddog arweiniol.

1.2.2 Amlinellir y cylch gorchwyl yn ei gyfanrwydd yn Atodiad 1. I grynhoi, gofynnwyd i ni wneud y canlynol:

- Ystyried y materion allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r trefniadau a gafodd eu datblygu a'u gweithredu o ganlyniad i ganslo cyfres arholiadau haf 2020 (TGAU, Safon Uwch ac UG, y Dystysgrif Her Sgiliau, a chymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru).
- Ystyried yr heriau a ddeilliodd o'r profiad yn 2020 ac (yng nghyd-destun ansicrwydd ynghylch COVID-19 i'r dyfodol) yr heriau y bydd dysgwyr yn eu hwynebu yn ystod cyfres arholiadau haf 2021.
- Dysgu gwersi allweddol o'r profiad yn 2020 er mwyn llywio argymhellion ac ystyriaethau ar gyfer dull posibl o baratoi ar gyfer 2021 sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion dysgwyr a'u dilyniant, ac sy'n ystyried yr angen parhaus i gynnal safonau ac uniondeb y system addysg a'r broses o ddyfarnu cymwysterau.
- Cyflwyno argymhellion ac ystyriaethau i'r Gweinidog Addysg, a chydnabod y partneriaid lluosog sydd ynghlwm wrth gefnogi dysgwyr yng Nghymru.

1.2.3 Mae'n bwysig nodi mai'r cymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru yw'r cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, a Sgiliau Hanfodol Cymru. Felly mae llawer o gymwysterau galwedigaethol a ddilynir gan ddysgwyr yng Nghymru nad ydynt o fewn cwmpas yr adolygiad hwn.

1.2.4 Roedd profi neu adolygu’n fanwl y prosesau ystadegol a gafodd eu defnyddio yn ystod cam safoni'r broses o ddyrannu graddau yn 2020 y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn hefyd. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried sut y cafodd y prosesau eu datblygu a'u defnyddio. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wrthi'n cynnal adolygiad,[5] y disgwylir y caiff ei gyhoeddi yn gynnar yn 2021, sy'n canolbwyntio ar y broses o ddatblygu'r modelau ystadegol a gynlluniwyd ar gyfer dyfarnu canlyniadau arholiadau 2020 ar draws pob un o bedair gwlad y DU. Gwnaeth aelodau'r Panel Adolygu Annibynnol hwn gwrdd â Chyfarwyddwr Cyffredinol Rheoleiddio'r Swyddfa Rheoleiddio

[5] Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau: https://osr.statisticsauthority.gov.uk/our-regulatory-work/osr-review-of-approach-to-developing-statistical-models-designed-for-awarding-2020-exam-results/, cyrchwyd 30 Tachwedd 2020

Ystadegau a'r Rheoleiddiwr Ystadegau i ddysgu mwy am eu hadolygiad ac i sicrhau y caiff unrhyw gyfeiriad i'r modelau yn yr adroddiad hwn eu cyflwyno yn y cyd-destun cywir.

### 1.3 Sut mae'r panel wedi gweithio

1.3.1 Yn ein gwaith, rydym wedi canolbwyntio ar wrando ar bawb a oedd ynghlwm wrth y digwyddiadau ynghylch dyfarnu graddau yn ystod haf 2020 a/neu y cafodd effaith arnynt, sef y canlynol:

- y cyrff a fu ynghlwm wrth y gwaith o bennu'r polisi, ac o ddatblygu a gweithredu'r trefniadau;
- yr addysgwyr, a'r sefydliadau hynny sy'n eu cefnogi wrth ddarparu addysg;
- y dysgwyr a'u teuluoedd/cefnogwyr;
- y bobl hynny sy'n derbyn dysgwyr i astudiaethau pellach neu gyflogaeth; a'r
- bobl hynny â rolau sy'n cynnwys craffu ar benderfyniadau a'r modd o'u gweithredu.

Mae'r rhestr o'r bobl hynny sy'n cyfrannu at yr adolygiad ar gael yn Atodiad 2. Ceir eglurhad o rolau'r cyrff hynny sy'n pennu polisi ac sy'n datblygu a darparu cymwysterau isod.

Gwnaethom gynnal cyfarfodydd ar-lein â chynifer o gynrychiolwyr rhanddeiliaid â phosibl yn ystod yr amser a oedd ar gael, a gwnaethom dreulio cyfanswm o 51 awr yn cyfweld amrediad eang o randdeiliaid.

1.3.2 Gan gydnabod na allem gwrdd â phawb, rydym hefyd wedi gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig gan amrediad eang o randdeiliaid a grwpiau, a thrwy holiadur ar-lein a gafodd ei hysbysebu'n helaeth drwy rwydweithiau addysgol. Gwnaethom dderbyn bron 4,000 o ymatebion (3,951) i'r holiadur (42% gan ddysgwyr, 33% gan rieni/gofalwyr, a 27% gan athrawon a phenaethiaid ysgolion a cholegau).

1.3.3 Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd â rhanddeiliaid gan roi pwyslais ar ddysgu gwersi o 2020 er mwyn sicrhau y gellir dod o hyd i'r ffordd orau ymlaen ar gyfer 2021 a'r tu hwnt, a sicrhau y bydd dysgwyr yn gallu symud ymlaen yn hyderus i astudiaethau pellach neu gyflogaeth. Mae arbenigedd a phroffesiynoldeb pawb sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu a darparu dysgu ac asesu wedi creu argraff arnom.

1.3.4 Mae'r ymgysylltiad adeiladol gan randdeiliaid yn ystod ein cyfarfodydd, a'r ymgysylltiad gan arweinwyr ac athrawon/darlithwyr ysgolion/colegau yn benodol, yn golygu bod gennym lawer o hyder yn ein hargymhellion a chasgliadau.

1.3.5 Mae ymagweddau cadarnhaol dysgwyr tuag at ddysgu, a'u cyfraniadau adeiladol yn ystod y cyfarfodydd, hefyd wedi creu argraff arnom. Rhaid nodi ein cyfarfod ag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru yn benodol. Roedd y cynrychiolwyr roeddem wedi cwrdd â nhw wedi cynnig mewnwelediad hynod werthfawr, a rhaid ystyried rôl y Senedd Ieuenctid wrth roi mewnbwn a safbwyntiau ar ddatblygiadau'r dyfodol yn ofalus.

1.3.6 Dymunwn ddiolch i bawb am eu hymgysylltiad agored a'u sylwadau a werthfawrogir, ac am y ffordd ystyriol a pharchus y cafodd syniadau eu rhannu.

## 1.4 Rolau'r cyrff sy'n gyfrifol am gymwysterau yng Nghymru

**1.4.1** **Llywodraeth Cymru:** Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu polisi ar gymwysterau yng Nghymru. Drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, sefydlodd rheoleiddiwr annibynnol, Cymwysterau Cymru, y mae'n ei ariannu ac yn ei gyfarwyddo i weithredu polisi'r llywodraeth.

1.4.2 **Cymwysterau Cymru:** Sefydlodd Deddf Cymwysterau Cymru 2015 ('y Ddeddf') Cymwysterau Cymru fel corff corfforedig annibynnol. Mae Adran 3 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru weithredu mewn ffordd y mae'n ei hystyried sy'n briodol at ddiben cyflawni'r prif nodau canlynol:

- sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a
- hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Caiff pob cymhwyster a gynlluniwyd i Gymru ei gymeradwyo a'i reoleiddio gan Cymwysterau Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r nodau uchod. Mae Cymwysterau Cymru'n pennu'r rheolau ar gyfer y cyrff dyfarnu ar gyfer y cymwysterau a'r prosesau apeliadau. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithio gydag Ofqual a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu, sef rheoleiddwyr cymwysterau Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ôl eu trefn, gan fod y tair gwlad hyn yn y DU yn rhannu brand cyffredin cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch.

O dan ddarpariaethau Adran 8 o'r Ddeddf, pe gofynnir iddynt wneud hynny gan Weinidogion Cymru, mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru ddarparu gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag unrhyw un o'i swyddogaethau, yn ôl yr hyn a bennir yn y cais. Yn ogystal, gall Cymwysterau Cymru weithio ar y cyd ag unigolyn arall os yw Cymwysterau Cymru yn ystyried bod hynny'n briodol mewn cysylltiad ag unrhyw un o swyddogaethau Cymwysterau Cymru.

Wrth arfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru ystyried agweddau ar bolisi llywodraeth, ac unrhyw faterion eraill o'r fath, yn ôl yr hyn y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo.

1.4.3 **Y cyrff dyfarnu:** Mae'r cyrff dyfarnu'n gweithredu rheolau Cymwysterau Cymru ac yn darparu manylebau'r cymwysterau i ysgolion a cholegau, ac felly i'r dysgwyr, ac yn sefydlu'r prosesau apeliadau. Yng Nghymru, CBAC yw'r unig gorff dyfarnu ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Dyfernir y cymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru gan Agored Cymru, City & Guilds, Pearson a CBAC. Fodd bynnag, darperir y mwyafrif o gymwysterau galwedigaethol a ddilynir gan ddysgwyr yng Nghymru gan gyrff dyfarnu sy'n gweithredu ar draws gwledydd y DU, a rheoleiddir y rhain gan Ofqual yn hytrach na Cymwysterau Cymru.

1.4.4 Cyflwynodd Cymwysterau Cymru eglurhad defnyddiol ar ei wefan o ran rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC wrth ddarparu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn 2020.[6] Mae'r gwahaniaethau rhwng y rolau a chyfrifoldebau hyn yn bwysig ar gyfer sicrhau y caiff safonau, ac annibyniaeth wrth arfer cyfrifoldebau, eu diogelu.

---

[6] Gweithio gyda'n gilydd i helpu dysgwyr i ennill eu graddau mewn cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn haf 2020: https://www.cymwysteraucymru.org/media/6297/wg-qw-wjec-graphic-cym.pdf, cyrchwyd 17 Tachwedd 2020

1.4.5 Canfu ein harolwg ar-lein o randdeiliaid ddealltwriaeth dda o'r rolau a chyfrifoldebau ymhlith yr addysgwyr proffesiynol, a lefelau dealltwriaeth is ymhlith dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr. Er y byddai'n fanteisiol hybu dealltwriaeth o rolau perthnasol y cyrff y tu hwnt i addysgwyr proffesiynol ymhellach, yr hyn a oedd bwysicaf, mewn perthynas â 2020, oedd p'un a oedd y rolau perthnasol wedi'u gweithredu'n briodol, a, chan gofio'r gweithredwyr lluosog, p'un a oedd y lefel o gydlynu ac arweinyddiaeth yn ddigonol i gefnogi'r canlyniadau angenrheidiol.

## 2 ADOLYGIAD O DREFNIADAU AR GYFER DYFARNU GRADDAU YN 2020

### 2.1 Cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol (UG) a Safon Uwch, a'r Dystysgrif Her Sgiliau

2.1.1 Ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol (UG), a'r Dystysgrif Her Sgiliau, cafodd dull ei ddatblygu gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), a'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020. Gofynnwyd i ysgolion a cholegau gyflwyno graddau asesu canolfannau ac i drefnu safleoedd eu dysgwyr o fewn pob gradd ym mhob cymhwyster. Cafodd y data hyn eu cyfuno â data hanesyddol perthnasol, lle roedd ar gael, er mwyn darogan graddau terfynol ar gyfer pob dysgwr fesul cymhwyster – proses a elwyd yn safoni.

2.1.2 Dilynwyd dull cyffredinol debyg yn fras i'r un hwn ledled y DU yn 2020 wrth i'r rheoleiddwyr cymwysterau a chyrff dyfarnu, dan arweiniad Ofqual, gydlynu eu gweithgareddau a rhannu cynlluniau. Yr Alban oedd y wlad gyntaf i gyhoeddi canlyniadau (Scottish Highers) ar 4 Awst, a chafwyd gwrthwynebiad cyhoeddus o ganlyniad wrth i lawer o ddysgwyr dderbyn canlyniadau a oedd yn sylweddol wahanol i'r rheiny roeddent wedi'u disgwyl. Arweiniodd y gwrthwynebiad hwn at newid penderfyniad yn yr Alban, wythnos yn ddiweddarach, i ddyfarnu graddau ar sail y graddau asesu canolfannau yn unig, mewn achosion lle roedd gradd asesu'r ganolfan yn uwch na'r radd a gyfrifwyd.

2.1.3 Dros yr wythnos ganlynol, datblygodd digwyddiadau tebyg ar draws gweddill gwledydd y DU. Ar ddiwrnod canlyniadau Safon Uwch, bu llawer o ddysgwyr, rhieni/gofalwyr, ysgolion a cholegau mewn penbleth a gofid, ac yn ddig â chanlyniadau nad oeddent yn gallu eu hesbonio, a bu i lawer o ddyheadau, a chynlluniau dysgwyr i'r dyfodol, gael eu gohirio. Dros y penwythnos canlynol, cynhaliwyd protestiadau ac ardystiadau cyhoeddus, a chafwyd sylwebaeth helaeth yn y cyfryngau, yng Nghymru a ledled y DU.

2.1.4 Ar 12 Awst, y diwrnod cyn cyhoeddi'r canlyniadau Safon Uwch, ac wrth i Loegr gyflwyno'i 'Chlo Trebl', lle gallai myfyriwr dderbyn ei radd a gyfrifwyd, apelio i dderbyn canlyniad ffug arholiad dilys, neu sefyll arholiadau yn yr hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg yng Nghymru ei phenderfyniad na fyddai unrhyw ganlyniad Safon Uwch yn llai na'r radd UG a enillwyd. Ar ddydd Llun 17 Awst, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y penderfyniad pellach i adolygu'r canlyniadau fel y câi graddau pob dysgwr yng Nghymru (TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau) eu hailddosbarthu gan ddefnyddio graddau asesu canolfannau lle roedd y rhain yn uwch na'r radd a gyfrifwyd. Nododd y Gweinidog fod y penderfyniadau hyn wedi'u llywio gan yr angen i sicrhau tegwch i ddysgwyr yng Nghymru o'u cymharu â'u cymheiriaid yng ngweddill y DU o ran cael mynediad i addysg uwch a chyflogaeth.

### 2.2 Cymwysterau galwedigaethol cymeradwy

2.2.1 Ar gyfer y cymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru, cafodd y dull ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020 ei alinio â'r dull a oedd yn cael ei ddilyn yng ngweddill y DU, gan gydnabod bod y mwyafrif o gymwysterau galwedigaethol ar gael ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

2.2.2 Gwnaeth y cymwysterau hynny a ddefnyddir ar gyfer dilyniant i addysg bellach neu addysg uwch ddilyn y dull graddau asesu canolfannau, ond heb y safoni ystadegol. Ar gyfer y cymwysterau hynny yr oedd arddangos cymhwysedd galwedigaethol yn ofynnol iddynt, roedd yn ofynnol i gyrff dyfarnu addasu asesiadau a fodolai eisoes i ddarparu ar gyfer y cyfyngiadau iechyd y cyhoedd a ddeilliodd o COVID-19. Nid oedd modd gwneud rhai asesiadau, ac nid oedd rhai dysgwyr yn gallu gorffen eu cymwysterau yn ystod haf 2020.

2.2.3 Mae'n werth nodi, ar gyfer canolfannau sy'n gweithio gyda chyrff dyfarnu niferus yng Nghymru a Lloegr i ddarparu cymwysterau galwedigaethol, bu cymhlethdod ychwanegol o ganlyniad i ofynion gwahanol y cyrff hyn, ac amseriad amrywiol o ran cyfathrebu â nhw. Ychwanegodd y gwahaniaethau hynny at ofid ymhlith dysgwyr, a rhwystredigaethau i ganolfannau, wrth i weithrediadau'r llywodraeth a chyrff rheoliadol, a sylwebaeth y cyfryngau, ymddangos eu bod yn canolbwyntio ar y sefyllfa nad oedd yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol.

**2.3 Pwyntiau penderfynu**

2.3.1 Rydym wedi rhoi llawer o ystyriaeth i b'un ag y gellid fod wedi osgoi digwyddiadau aflonyddgar mis Awst 2020. Rydym wedi ceisio nodi pryd y gellid fod wedi cymryd camau gweithredu gwahanol ar bwyntiau penderfynu allweddol, a deall y cyd-destun, a'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed, gan gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC.

2.3.2 Isod, ceir amseriad o'r camau allweddol yn ystod gwanwyn a haf 2020. Cyflwynir amserlen fanwl o ddyddiadau allweddol yn Atodiad 3.

| | |
|---|---|
| Mawrth 2020 | • Penderfyniad Llywodraeth Cymru i gau ysgolion/colegau, canslo arholiadau haf 2020, a rhoi trefniadau eraill ar waith<br>• Penderfyniad Cymwysterau Cymru i ddosbarthu graddau a gyfrifwyd yn seiliedig ar y dystiolaeth asesu oedd ar gael wedi'i hategu gan raddau darogan athrawon. |
| Ebrill 2020 | • 3 Ebrill – cyhoeddwyd yr arweiniad cyntaf gan Cymwysterau Cymru i ganolfannau ynghylch data asesu canolfannau: graddau asesu canolfannau / trefn safle<br>• Penderfyniad gan Cymwysterau Cymru i beidio â chymedroli graddau asesu canolfannau yn allanol cyn eu cyflwyno<br>• 28 Ebrill – Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi ymgynghoriad ar y nodau i gefnogi gwaith datblygu'r model safoni ystadegol ac ar ddatblygu proses apeliadau |
| Mai/Mehefin 2020 | • Canlyniadau ar gael o ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar y nodau sy'n cefnogi'r model safoni a'r broses apeliadau<br>• CBAC yn datblygu'r modelau safoni ystadegol ar gyfer eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru<br>• Cymwysterau Cymru a CBAC yn datblygu'r broses apeliadau |
| Mehefin/Gorffennaf 2020 | • Penderfyniad gan Cymwysterau Cymru a CBAC i beidio â chymedroli graddau asesu canolfannau yn allanol ar ôl eu cyflwyno<br>• Cymwysterau Cymru yn cymeradwyo'r modelau safoni ystadegol a'r canlyniadau |
| Awst 2020 | • Cyhoeddi canlyniadau TGAU, UG a Safon Uwch |

| | |
|---|---|
| | • Gwrthwynebiad y cyhoedd a sylw yn y cyfryngau<br>• Newid ym mhenderfyniadau polisi llywodraethau ar draws gwledydd y DU |

2.3.3 Gan dderbyn nad oedd unrhyw ddewis arall heblaw canslo arholiadau yn 2020 o ganlyniad i'r pandemig a rhoi dull arall o ddyfarnu graddau ar waith, rydym wedi archwilio tri chwestiwn penodol, fel a ganlyn:

- A oedd unrhyw ddulliau eraill ar gael a fyddai, o'u dilyn, wedi arwain at ganlyniadau gwell, tecach a mwy credadwy?
- A ellid fod wedi osgoi digwyddiadau trawmatig y diwrnod cyhoeddi canlyniadau Safon Uwch yng Nghymru?
- Beth yw'r gwersi y gellir eu dysgu o'r heriau ac amgylchiadau o ddyfarnu a graddio cymwysterau yn 2020 a all lywio trefniadau'r dyfodol ar gyfer cymwysterau yng Nghymru?

2.3.4 Wrth roi sylw i'r cwestiynau hyn, rydym wedi ystyried yr amodau argyfwng unigryw ac eithriadol o heriol yr oedd pawb yn y system addysg yn gweithio ynddynt o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Mae'r pandemig wedi cyflwyno heriau ac ansicrwydd digyffelyb ar draws system addysg Cymru, ac wedi arwain at roi pwysau proffesiynol a phersonol anferth ar unigolion a thimau. Roedd rhaid gwneud penderfyniadau anodd yn gyflym. Roedd pobl yn dysgu sut i weithio gartref, o bell, yn hytrach nag yn y swyddfa, ysgol neu goleg. Yn amlwg, nid oedd y rhain yn amodau delfrydol i weithredu prosiect newid sylweddol ynddynt, ac rydym wedi canfod dim ond gwaith diwyd a phroffesiynoldeb gan y bobl hynny a weithiodd mewn amgylchiadau anodd a heriol iawn i sicrhau dilyniant dysgwyr drwy ddyfarnu graddau yn 2020.

2.3.5 Canolbwyntiodd ein hadroddiad interim ar argymhellion ar gyfer y dull o ddyfarnu graddau yn ystod haf 2021. Deilliodd yr argymhellion hynny o'n canfyddiad allweddol y byddai lefel yr anghysondeb ym mhrofiadau dysgwyr ar draws 2020 ac yn ymestyn i 2021 yn gwneud unrhyw gyfres o arholiadau yn ffordd annheg o farnu cynnydd a gallu ar draws carfan o ddysgwyr 2021. I ddyfynnu un o'n cyfranwyr arbenigol, byddai arholiadau'n *dwyn mantais i'r bobl fwyaf breintiedig ac yn rhoi'r bobl fwyaf difreintiedig dan anfantais* … Yn weithredol, byddai cynnal unrhyw fath o gyfres arholiadau ar gyfer 2021 yn parhau i fod yn ymdrech risg uchel, a gall ansicrwydd parhaus ynghylch datblygiadau yn y pandemig achosi newid cyfeiriad a allai drechu unrhyw amserlen arholi – byddai angen Cynllun B bob amser.

2.3.6 Ein hargymhelliad allweddol, y mae'r Gweinidog wedi'i dderbyn, oedd felly y byddai'n llawer gwell buddsoddi amser ac ymdrech ddwys, yn awr, wrth ddatblygu, ar y cyd, gynllun asesu mewn canolfannau arall ac ymrwymo iddo. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i ddysgwyr a'u rhieni, gofalwyr, ysgolion a cholegau am y ffordd ymlaen a rhoi cyfeiriad clir ynghylch blaenoriaethu'r amser sydd ar gael mewn ysgolion a cholegau i fwyhau’r dysgu a ddarperir.

2.3.7 Bydd cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r anawsterau a heriau a gododd wrth ddyfarnu a graddio cymwysterau yn 2020 yn llywio a chynorthwyo'r broses o greu datrysiadau creadigol ar gyfer 2021 a'r tu hwnt.

## 2.4 Canfyddiadau ac argymhellion

2.4.1 Mae penodau 3 i 9 yn trafod trefn y digwyddiadau yn ystod gwanwyn/haf 2020 ac yn nodi nifer o themâu trawsbynciol hanfodol bwysig. Drwy ein dadansoddiad, rydym yn datblygu canfyddiadau allweddol sy'n ein harwain at ein hargymhellion ar gyfer 2021 a'r tu hwnt.

2.4.2 Trwy'r adrannau canlynol, byddwn yn cyfeirio at ganfyddiadau'n harolwg ar-lein. Cafodd y gwaith o ddadansoddi'r ymatebion ei wneud yn annibynnol i ni gan Wavehill. Rydym yn cyflwyno'i ddadansoddiad yn ei gyfanrwydd yn Atodiad 4.

## 3 MAWRTH 2020:

- Penderfyniad Llywodraeth Cymru i gau ysgolion/colegau, canslo arholiadau haf 2020, a rhoi trefniadau eraill ar waith.
- Penderfyniad Cymwysterau Cymru i ddosbarthu graddau a gyfrifwyd yn seiliedig ar y dystiolaeth asesu oedd ar gael wedi'i hategu gan raddau darogan athrawon.

3.1 O ddechrau mis Mawrth 2020 ymlaen, roedd Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg, yn derbyn cyngor gan Cymwysterau Cymru a CBAC ar effaith y pandemig COVID-19 ar gyfres arholiadau haf 2020, ac yn ystyried y cyngor hwn yng nghyd-destun ehangach penderfyniadau llywodraethau Cymru a'r DU a oedd yn ymwneud â'r pandemig.

3.2 Nododd gwaith modelu gwyddonol, ar y pryd, y byddai'r cyfnod arholiadau'n cyd-ddigwydd â brig y pandemig (a ddigwyddodd ynghynt, mewn gwirionedd) ac felly nid oedd y llywodraeth yn gallu gwarantu y byddai ysgolion a cholegau ar agor. O ganlyniad, gwnaeth y Gweinidog y penderfyniad anodd i ganslo cyfres arholiadau'r haf ar sail iechyd y cyhoedd. I sicrhau y gallai pob dysgwr wneud dilyniant i astudiaethau pellach neu gyflogaeth, roedd angen rhoi trefniadau ar waith ar gyfer dyfarnu a graddio cymwysterau.

3.3 Ar yr adeg hon, darparodd Cymwysterau Cymru gyngor i'r Gweinidog (18 Mawrth) ar y tri phrif opsiwn a oedd wedi'u nodi gan reoleiddwyr cymwysterau'r DU, fel a ganlyn:

- parhau â'r arholiadau fel a gynlluniwyd;
- oedi'r arholiadau; a
- dosbarthu graddau ar sail y dystiolaeth asesu oedd ar gael wedi'i hategu gan raddau darogan athrawon.

3.4 Nododd Cymwysterau Cymru y buddion a risgiau ynghlwm wrth bob opsiwn. Er yr oedd yn well gan Cymwysterau Cymru bod yr arholiadau'n parhau, fe gynghorodd y Gweinidog, pe na fyddai'r arholiadau'n bosibl, y byddai'n argymell dosbarthu graddau ar sail y dystiolaeth asesu oedd ar gael wedi'i hategu gan raddau darogan athrawon.

3.5 Yn ei gyngor, roedd Cymwysterau Cymru'n eglur y byddai angen 'cymedroli'[7] graddau darogan athrawon wedyn er mwyn ceisio sicrhau bod modd cymharu graddau rhwng ysgolion a cholegau ac i sicrhau cymaroldeb â charfanau blaenorol. Mae'r Cyfarwyddyd Gweinidogol i Cymwysterau Cymru ar 6 Ebrill yn datgan y dylai'r dull gynnwys 'safoni dyfarniadau'r canolfannau', a gellir casglu mai model ystadegol y cyfeirir ato yn yr esboniad y byddai angen cynhyrchu graddau dysgwyr ar gyfer cymwysterau ar sail amrediad o'r dystiolaeth oedd ar gael.

3.6 Derbyniodd y Gweinidog y cyngor hwn, a chafodd egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith datblygu canlynol ar drefniadau i ddyfarnu graddau i ddysgwyr eu pennu fel a ganlyn:

1. Galluogi dilyniant pob dysgwr i'r dyfodol a chydnabod eu gwaith caled drwy ddyfarnu graddau;
2. Sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais, yn enwedig o'u cymharu â'r dysgwyr hynny yn rhannau eraill y DU;
3. Gweithredu dull cadarn a theg, sy'n deg i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol; a
4. Chynnal hygrededd y system gymwysterau a hyder ynddi.

[7] Yr iaith a ddefnyddiwyd gan Cymwysterau Cymru yn ei gyngor i'r Gweinidog

3.7 Gofynnodd ein cylch gorchwyl i ni archwilio p'un a oedd egwyddorion Llywodraeth Cymru wedi'u deall yn glir a’u rhannu gan yr holl bartneriaid cyflenwi, a ph'un a roddwyd y pwyslais cywir iddynt.

3.8 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar gyfarfodydd â'r Gweinidog, swyddogion Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC, lle gwnaethom archwilio sut y cafodd yr egwyddorion hyn eu harfer a sut y gallai'r profiad o'u harfer fod wedi llywio'r broses o ailystyried egwyddorion, neu eu hailddatgan, ynteu beidio. Gwnaethom hefyd brofi'r blaenoriaethau yn yr arolwg ar-lein gyda'r amrediad llawn o randdeiliaid.

3.9 Yn gyffredinol, yn ein harolwg, canfuom gefnogaeth gref ar draws pob grŵp o randdeiliaid am yr egwyddorion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2021. Canfuwyd bod pob un o'r pedair egwyddor a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddilys ac yn bwysig. Mae pob un o'r egwyddorion hyn yn chwarae rhan mewn sicrhau tegwch i'r dysgwr, a rhai ohonynt yn fwy uniongyrchol nag eraill.

3.10 Yn ein harolwg, gwnaethom ofyn p'un a oedd egwyddorion pellach y byddai ymatebwyr yn dymuno iddynt gael eu hystyried ar gyfer 2021. Roedd bron hanner yr ymatebwyr wedi cynnig egwyddorion ychwanegol yr oedd eu prif themâu'n ymwneud â ffocws ar lesiant ac yn cynnwys y canlynol:

- materion ynghylch cydraddoldeb canlyniadau, ystyried anghenion disgyblion, ac adlewyrchu'r effaith ar ddysgu o ganlyniad i'r tarfu ar addysgu yn ystod y pandemig; a
- materion ynghylch sicrhau lles dysgwyr mewn trefniadau, a'i hybu, gan roi ystyriaeth i'r effeithiau ar lesiant y mae'r amgylchiadau unigryw y mae pob dysgwr sy'n disgwyl cymwysterau yn 2021 yn eu hwynebu, yn enwedig o safbwynt goblygiadau iechyd meddwl posibl.

3.11 Roedd yr ymatebion hyn yn ategu'r pryderon y clywsom yn ein cyfweliadau â dysgwyr ac ag ysgolion a cholegau, ac roeddent wedi'n harwain at yr argymhelliad canlynol yn ein hadroddiad interim:

*Dylai penderfyniadau ar ddyfarnu graddau yng Nghymru yn 2021 roi blaenoriaeth i anghenion y dysgwyr sy'n cael eu hasesu, a sicrhau tegwch iddynt, drwy gydnabod yr amgylchiadau heriol y digwyddodd eu dysgu ynddynt drwy gydol 2020 a 2021.* (Argymhelliad 1 yr Adroddiad Interim)

3.12 Roedd yr argymhelliad yn cydnabod profiadau gwahanol carfan cymwysterau 2021 a charfan 2020. Er yr oedd carfan 2020 wedi cwblhau ei dysgu, i bob pwrpas, pan gafodd y penderfyniad i ganslo'r arholiadau ei wneud, mae carfan 2021 wedi profi, ac yn parhau i brofi, patrwm sylweddol wahanol o golli cyfleoedd dysgu. Ar gyfer carfan 2021, felly, pwysleisiodd ein hargymhelliad y dylai'r angen i sicrhau tegwch **o fewn ac ar draws** y garfan ffurfio rhan o'r egwyddorion allweddol, ac y dylai gael blaenoriaeth dros ymdrechion i normaleiddio ar draws blynyddoedd gan ystyried pa mor wahanol y bu'r profiadau dysgu.

---

***Crynodeb o'r canfyddiadau***

3.13 Roedd pob un o'r pedair egwyddor a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu dull arall o ddyfarnu graddau yn 2020 yn ddilys ac yn bwysig. Mae pob un o'r egwyddorion hyn yn chwarae rhan mewn sicrhau tegwch i'r dysgwr, rhai ohonynt yn fwy uniongyrchol nag eraill.

***Argymhellion:***

3.14 Mae angen addasu a diweddaru'r egwyddorion a fabwysiadwyd ar gyfer 2020 ar gyfer 2021. Dylai penderfyniadau ar ddyfarnu graddau yng Nghymru yn 2021 flaenoriaethu anghenion y dysgwyr sy'n cael eu hasesu, a'u trin yn deg, drwy gydnabod yr amgylchiadau heriol y digwyddodd eu dysgu ynddynt drwy 2020 a 2021 *(Argymhelliad 1 ein Hadroddiad Interim).*

## 4 EBRILL 2020

- 3 Ebrill – cyhoeddwyd yr arweiniad cyntaf gan Cymwysterau Cymru i ganolfannau ynghylch data asesu canolfannau: graddau asesu canolfannau / trefn safle
- Penderfyniad gan Cymwysterau Cymru i beidio â chymedroli graddau asesu canolfannau yn allanol cyn eu cyflwyno
- 28 Ebrill – Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi ymgynghoriad ar y nodau i gefnogi gwaith datblygu'r model safoni ystadegol ac ar ddatblygu proses apeliadau

4.1 Rydym wedi ceisio deall pryd a sut y gwnaeth Cymwysterau Cymru a CBAC nodi ac ystyried opsiynau gwahanol wrth benderfynu ar y dull dewisol. Rydym wedi chwilio am dystiolaeth o sut y cafodd opsiynau amrywiol eu datblygu, eu gwirio a'u cyfathrebu. Rydym wedi archwilio sut y cafodd yr opsiynau hyn eu profi yn erbyn canlyniadau polisi bwriadedig ac yn erbyn meini prawf cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn sicrhau tegwch i bob dysgwr.

4.2 Mae'r amserlen yn Atodiad 3 yn dangos bod rheoleiddwyr cymwysterau'r DU wedi cynnal gweithdai cynllunio wrth gefn yn gynnar ym mis Mawrth i lywio'u cyngor i'w gweinidogion perthnasol ar ddulliau cyffredinol debyg ar draws gwledydd y DU, h.y. dosbarthu graddau ar sail y dystiolaeth asesu oedd ar gael wedi'i hategu gan raddau darogan athrawon.

4.3 Mae'r amserlen yn dangos bod Cymwysterau Cymru, CBAC ac Ofqual wedi cwrdd ar 23 Mawrth i drafod syniadau cynnar o ran graddau asesu canolfannau, ac eto ar 3 Ebrill i drafod opsiynau ar gyfer cynhyrchu graddau, gan ddiffinio'r dull a'r model. Gwnaeth rheoleiddwyr y DU a'r cyrff arholi barhau i gwrdd er mwyn datblygu manylion y trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau, a chafodd yr Alban ei chynnwys mewn rhai, ond nid pob un, o gyfarfodydd y rheoleiddwyr. Drwy gydol yr adeg hon, roedd Cymwysterau Cymru a CBAC yn cwrdd er mwyn diffinio'r dull penodol ar gyfer Cymru.

4.4 Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 3.5, unwaith y penderfynwyd dilyn y dull o gyfuno tystiolaeth o asesu a fodolai eisoes ar lefel y ganolfan, y cymhwyster a'r unigolyn, roedd model ystadegol yn ymhlyg ac yn ofynnol, er mwyn ystyried yr amrywioldeb o ran dehongli ffiniau gradd rhwng canolfannau ac er mwyn alinio â data hanesyddol. Fodd bynnag, roedd cyfle i ystyried opsiynau eraill heblaw modelau ystadegol er mwyn sicrhau cymaroldeb rhwng ysgolion a cholegau, gan gynnwys opsiynau i gymhwyso dulliau cymedroli allanol ar draws canolfannau, naill ai cyn iddynt gyflwyno'r graddau asesu canolfannau i CBAC, neu cyn i CBAC fewnbynnu'r graddau asesu canolfannau i'w fodelau safoni ystadegol. Ystyrir yr opsiwn diwethaf a'i amseriad o dan yr adran ar fis Mehefin/Gorffennaf 2020 isod. Rydym yn trafod y modelau safoni ystadegol ym Mhennod 8 fel nodwedd sylfaenol o amserlen y digwyddiadau yn ei chyfanrwydd.

### *4.5 Penderfyniad i beidio â chymedroli graddau asesu canolfannau yn allanol cyn eu cyflwyno*

4.6 Yn eu tystiolaeth i'r adolygiad annibynnol a hefyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (18 Awst 2020), mae Cymwysterau Cymru a CBAC, ill dau, wedi amlinellu eu rhesymau dros beidio â chyflwyno unrhyw fath o broses gymedroli allanol o raddau asesu canolfannau cyn i ganolfannau eu cyflwyno fel y rhai terfynol, gan gynnwys eu barn fel a ganlyn:

1. nid oedd digon o amser i ddatblygu a gweithredu proses gymedroli allanol (gan gynnwys hyfforddi ac adleoli timau mawr o gymedrolwyr);
2. byddai cymedroli'n allanol wedi bod yn anodd gan ystyried amrywioldeb y dystiolaeth a geir mewn canolfannau a'r anawsterau o ran cyrchu data safleoedd a oedd ar gau;

3 nid oeddent am ychwanegu ymhellach at y llwyth gwaith mewn canolfannau a oedd eisoes yn gweithredu mewn amodau heriol;
4 nid oedd digon o amser ar gael i ddilysu prosesau mewnol canolfannau ar gyfer pennu graddau asesu canolfannau ac ar gyfer trefnu hyfforddiant i osgoi tuedd mewn asesiadau;
5 roedd ystyriaethau iechyd cyhoeddus ynghlwm wrth ymweld ag ysgolion i ddarparu hyfforddiant.

4.7 Yn hytrach, gweithredodd Cymwysterau Cymru a CBAC broses lle roedd yn ofynnol i benaethiaid canolfannau lofnodi datganiad[8] bod y data y byddent yn ei gyflwyno i CBAC yn cynrychioli, yn ddiffuant ac yn deg, y graddau y byddai'r dysgwyr hyn wedi bod fwyaf tebygol o'u hennill pe byddent wedi sefyll eu harholiadau fel a gynlluniwyd. Roedd y datganiad hefyd yn nodi bod pob pennaeth canolfan yn deall, pe byddai proffil y graddau a gyflwynwyd yn sylweddol wahanol i'r hyn y gellid ei ddisgwyl ar sail canlyniadau hanesyddol y ganolfan, a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr carfan 2020, yna câi graddau'r ganolfan eu haddasu drwy fodelau safoni ystadegol er mwyn sicrhau eu bod yn unol â safonau cenedlaethol.

4.8 Cafodd yr arweiniad ar raddau asesu canolfannau a threfn safle ei ddosbarthu i ganolfannau ar 3 Ebrill 2020, a'i ddiweddaru ar 18 Mai 2020. Y dyddiad ar gyfer cyflwyno data i CBAC oedd 12 Mehefin. Felly, roedd gan ganolfannau gyfnod o ddeg wythnos rhwng derbyn yr arweiniad yn y lle cyntaf a'r dyddiad cyflwyno i gasglu data ar gyfer pob ymgeisydd ac ymhob cymhwyster. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i b'un a fyddai unrhyw fath o gymedroli allanol wedi bod yn ddefnyddiol, yn ddichonadwy, neu'n bosibl yn ystod yr amser a oedd ar gael.

4.9 Gwnaethom brofi rhagdybiaethau ynghylch dichonolrwydd cymedroli'n allanol gyda'r ysgolion, y colegau a'r consortia rhanbarthol y gwnaethom gwrdd â nhw. Gwnaethant gyfeirio at eu canfyddiadau o'r gallu a oedd ar gael, ar yr adeg honno, ymhlith, er enghraifft, arholwyr allanol, Estyn, a'r consortia rhanbarthol, a allai fod wedi cynnal proses gymedroli. Dywedodd yr ysgolion wrthym y byddent hefyd wedi croesawu cymedroli allanol.

4.10 Nodwn, yn enwedig yn ystod rhan gyntaf y cyfnod o ddeg wythnos, rhwng dyddiad cyhoeddi'r arweiniad a'r dyddiad cyflwyno, fod graddfa ac amrediad yr addasiadau yr oedd sefydliadau yn y sector yn eu hwynebu yn sgil y pandemig yn aruthrol, a bod y gallu a'r cyfle ar gyfer gwneud penderfyniadau ystyriol o dan straen sylweddol. Roedd angen cynnal gweithrediadau a oedd yn hanfodol bwysig i'r busnes ar yr un pryd â rhoi prosesau newydd ar waith.

4.11 Rydym felly'n deall y pryderon dilys mewn perthynas â'r problemau logisteg a oedd ynghlwm wrth waith datblygu a gweithredu proses gymedroli allanol, ond nid ydym wedi dod o hyd i dystiolaeth bod Cymwysterau Cymru na CBAC wedi profi'u rhagdybiaethau, yn drylwyr, gyda chymunedau y tu hwnt i'r cyrff rheoliadol a'r cyrff dyfarnu. Efallai ei bod yn wir y câi'r un penderfyniadau eu gwneud i beidio â cheisio dilyn unrhyw fath o broses gymedroli allanol ar ôl cynnal deialog â'r sector, ond, o'i chynnal, byddai wedi arwain at ddealltwriaeth well o'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r system a fabwysiadwyd, a gellid fod wedi cynllunio camau i liniaru'r risgiau hynny.

4.12 Rydym yn casglu, ar sail y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu, y gwnaed y penderfyniad i ddibynnu'n llwyr ar y modelau safoni ystadegol i 'gymedroli' rhwng canolfannau heb brofi unrhyw lwybrau neu ddulliau eraill yn llawn.

---

[8] Arweiniad Cymwysterau Cymru i ganolfannau, 3 Ebrill 2000: https://www.cymwysteraucymru.org/cymraeg/cyhoeddiadau/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau/, cyrchwyd 26 Tachwedd 2020

**4.13 Data asesu canolfannau: graddau asesu canolfannau a threfn safle**

Dosbarthodd Cymwysterau Cymru arweiniad i ysgolion a cholegau ar 3 Ebrill (diweddarwyd ar 18 Mai[9]) yn cadarnhau'r hyn y byddai'n ofynnol iddynt ei ddarparu, sef y canlynol:

- gradd asesu canolfan ar gyfer pob dysgwr a gofrestrwyd ar gyfer pob cymhwyster;
- trefn safle'r dysgwyr o fewn pob gradd ar gyfer pob cymhwyster; a
- datganiad gan bennaeth y ganolfan, neu gan ddirprwy, fel a ddisgrifir yn yr arweiniad.

4.14 Yn ystod yr wythnosau canlynol, dosbarthodd Cymwysterau Cymru arweiniad pellach ar lefel genedlaethol, a dosbarthodd CBAC arweiniad ar lefel bynciol, ar sut y dylai canolfannau gasglu eu data asesu a'i gyflwyno. Cafodd canolfannau wybod, yn arweiniad Cymwysterau Cymru *Gwybodaeth i Ganolfannau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau Fersiwn 2 – 18 Mai 2020*, y gallai CBAC ymchwilio i unrhyw achosion o geisio tanseilio'r system hon y gellid eu hystyried yn gamymddygiad. Eglurodd yr arweiniad a ddosbarthwyd gan Cymwysterau Cymru fod graddau asesu canolfannau, a threfnau safle o fewn graddau asesu canolfannau, yn elfennau mewn model ystadegol ehangach ar gyfer cyfrifo canlyniadau unigol.

4.15 Gwnaethom gwrdd â nifer o ysgolion a cholegau cynrychioliadol o bob rhan o Gymru, a hefyd â chynrychiolwyr o'r sefydliadau sy'n eu cefnogi (e.e. consortia rhanbarthol, awdurdodau addysg lleol, undebau llafur ac ati). Clywsom am ymroddiad a phroffesiynoldeb athrawon a darlithwyr wrth weithredu'r dull, y trefniadau cymedroli mewnol roeddent wedi'u rhoi ar waith, a'r heriau a wynebwyd o fewn y canolfannau.

4.16 Clywsom sut roedd yn her sylweddol i bawb ddehongli, rheoli a chyfleu swmp yr arweiniad, o safbwynt ei gymhlethdod a'r ffaith iddo gael ei dderbyn ar amserau gwahanol. Gwnaethom ddysgu hefyd am yr heriau o roi graddau asesu canolfannau ar waith, yn enwedig pennu trefn safle i ddysgwyr o fewn y graddau, ar gyfer carfanau bach a mawr (gan amrywio o garfanau ffigur sengl i'r rheiny'n cynnwys mil a mwy). Mewn canolfannau mawr, fel colegau addysg bellach ar sawl safle, teimlodd rhai nad oedd digon o gydnabyddiaeth, ar ran y rheoleiddiwr a'r corff arholi, o'r anhawster ynghlwm wrth bennu trefnau safle i garfanau mawr. Mewn ysgolion bach, neu bynciau lle roedd athrawon pwnc unigol yn gweithio, roedd perygl bod aelodau o staff unigol yn agored i bwysau gan rai dysgwyr a rhieni/gofalwyr. Clywsom na weithredwyd ar awgrym a wnaed gan arweinwyr ysgolion y gallai consortia rhanbarthol neu awdurdodau lleol ddod ag ysgolion a oedd â charfanau bach mewn pynciau penodol ynghyd er mwyn eu helpu i gymedroli. Casglwn fod hyn yn gyfle a gollwyd.

4.17 Mae'r anawsterau a'r heriau sydd ynghlwm wrth bennu trefn safle i ymgeiswyr yn sylweddol. Dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym ei fod wedi rhagweld y byddai ansicrwydd ynghlwm wrth ddyfarnu graddau asesu canolfannau, ac y disgwyliwyd mai pennu trefn safle ymgeiswyr byddai'r elfen ddata hanfodol bwysig gan ganolfannau a fyddai'n cyfrannu at ddyfarnu graddau. Ystyriwyd bod graddau asesu canolfannau'n ddefnyddiol i'r corff dyfarnu wrth ymdrin â charfanau bach lle gallai'r prosesau safoni ystadegol gael anhawster. Ni chlywsom mai'r un ddealltwriaeth oedd gan ganolfannau, a oedd wedi ystyried mai'r graddau asesu canolfannau oedd yr elfen ddata allweddol, ac a oedd wedi cael anhawster sicrhau trefn safle linol unffurf ar gyfer ymgeiswyr pan oeddent yn gwybod, mewn gwirionedd, bod ymgeiswyr yn clystyru o gwmpas pwyntiau perfformiad.

4.18 Yn ystod ein cyfarfodydd ag arweinwyr ysgolion a cholegau, clywsom y byddent wedi croesawu arweiniad mwy eglur ac amserol ar y dull ac ar brosesau awgrymedig ar gyfer pennu graddau asesu

[9] Arweiniad Cymwysterau Cymru i ganolfannau, 18 Mai 2020: https://www.cymwysteraucymru.org/media/5972/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau-fersiwn-2-18-mai-2020.pdf, cyrchwyd 26 Tachwedd 2020

canolfannau a threfnau safle. Er hynny, dangosodd ymatebion i'n harolwg bod tua thri chwarter o ymatebwyr o blith arweinwyr ysgolion ac athrawon yn gadarnhaol ynghylch y cymorth ac arweiniad yr oeddent wedi'u derbyn. Nid oedd y broses wedi'i rhagnodi'n fanwl gan Cymwysterau Cymru a CBAC gan eu bod yn cydnabod bod gan ysgolion a cholegau systemau, prosesau a sylfeini tystiolaeth gwahanol. Dywedodd Cymwysterau Cymru a CBAC wrthym, wrth edrych yn ôl, a phe byddai mwy o amser, y gellid fod wedi rhoi mwy o arweiniad i ganolfannau. Rydym o'r farn y byddai buddsoddi mwy o amser mewn darparu arweiniad a chymorth i'r canolfannau, ynghyd â chymedroli allanol cyn cyflwyno graddau, wedi arwain at fwy o hyder ymhlith ysgolion a cholegau yn y graddau a threfnau safle yr oeddent yn eu pennu, a mwy o hyder gan CBAC a Cymwysterau Cymru yn y data yr oedd y canolfannau yn ei gynhyrchu, a byddai wedi lleihau'r orddibyniaeth ar y prosesau safoni ystadegol i gymedroli rhwng canlyniadau canolfannau.

4.19 Er y rhoddwyd cyfrifoldeb ar y canolfannau dros sicrhau a datgan bod eu Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi'u cyflawni, nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw ymdrech gan y cyrff rheoliadol neu gyrff dyfarnu i ddilyn dull cenedlaethol ar y cyd i gynorthwyo canolfannau i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Amlygodd yr ymatebion i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru bryderon bod perygl o ragfarn ddiarwybod a allai gael effaith benodol ar ddysgwyr sy'n bobl dduon ac Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig. Roedd absenoldeb unrhyw gamau lliniaru i fynd i'r afael â'r risg hon, er enghraifft drwy ddarparu hyfforddiant neu godi ymwybyddiaeth o'r angen i osgoi rhagfarn, mewn modd systematig, ymhlith y bobl hynny a oedd ynghlwm wrth y gwaith o bennu graddau a threfnau safle i ymgeiswyr mewn canolfannau, yn nodedig.

4.20 Gwnaethom ddysgu am y profiad ac arfer da a geir, mewn colegau addysg bellach yn benodol, o ran osgoi rhagfarn ddiarwybod mewn asesiadau canolfannau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Rydym yn argymell bod yr arfer da hwn yn cael ei rannu ar draws colegau ac ysgolion.

4.21 Clywsom hefyd am yr heriau a brofwyd gan ganolfannau a oedd yn darparu cymwysterau galwedigaethol, a sut y cafodd y rhain eu cymhlethu ymhellach o ganlyniad i dderbyn arweiniad gan amrediad o reoleiddwyr a chyrff arholi gwahanol sy'n gweithio o dan systemau Cymru a Lloegr.

***Crynodeb o'r canfyddiadau:***

4.22 Cafodd y penderfyniad gan Cymwysterau Cymru a CBAC i ddibynnu'n llwyr ar y modelau safoni ystadegol i 'gymedroli' rhwng canolfannau ei wneud heb brofi unrhyw lwybrau neu ddulliau eraill yn llawn. Pe byddai'r un penderfyniadau wedi'u gwneud o ganlyniad i brofi'r dulliau â chymunedau y tu hwnt i'r cyrff rheoliadol a'r cyrff dyfarnu (h.y. o blaid dibynnu ar y modelau), byddai cynnal y fath profion wedi arwain at ddealltwriaeth well o'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r system a fabwysiadwyd, a gellid fod wedi cynllunio camau i liniaru'r risgiau hynny yn well.

4.23 Gan gydnabod y perygl o ragfarn o fewn graddau asesu canolfannau a allai gael effaith benodol ar ddysgwyr sy'n bobl dduon ac Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, trosglwyddodd Cymwysterau Cymru a CBAC y perygl hwnnw i'r canolfannau ac ni wnaethant sbarduno dull cenedlaethol ar y cyd i leihau'r risg, e.e. darparu hyfforddiant (drwy gorff arall) a chodi ymwybyddiaeth athrawon, mewn modd systematig, o'r angen i osgoi rhagfarn.

***Argymhellion:***

4.24 Mae angen buddsoddi amser mewn darparu mwy o arweiniad a chymorth i'r canolfannau, ynghyd â chymedroli allanol cyn cyflwyno graddau asesu canolfannau, er mwyn codi hyder ymhlith ysgolion a cholegau yn y graddau a threfnau safle y maent yn eu pennu, ac i godi hyder CBAC a Cymwysterau Cymru yn y data a gynhyrchir gan y canolfannau.

4.25 Dylid rhannu arfer da mewn perthynas â chael gwared ar ragfarn o asesiadau canolfannau rhwng colegau ac ysgolion, gan drefnu hyfforddiant i gefnogi athrawon/aseswyr.

## 5 MAI / MEHEFIN 2020

- Canlyniadau ar gael o ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar y nodau sy'n cefnogi'r model safoni a'r broses apeliadau
- CBAC yn datblygu'r modelau safoni ystadegol ar gyfer eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru
- Cymwysterau Cymru a CBAC yn datblygu'r broses apeliadau

5.1 Ceisiodd ymgynghoriad Cymwysterau Cymru, a ddosbarthwyd ar 28 Ebrill 2020, safbwyntiau ar gyfres o nodau a fyddai'n cefnogi gwaith datblygu'r model safoni ystadegol a nodweddion y broses apeliadau arfaethedig. Caeodd yr ymgynghoriad ar 13 Mai, a chyhoeddodd Cymwysterau Cymru ganlyniadau'r ymgynghoriad ar 19 Mehefin. Cynhyrchodd yr ymgynghoriad 4,057 o ymatebion, sy'n lefel ymateb ddigyffelyb, gan gynnwys 2,079 gan ddysgwyr a 1,129 gan rieni/gofalwyr, gan adlewyrchu lefelau sylweddol o ddiddordeb yn y materion.

5.2 Roedd Cymwysterau Cymru wedi trosi polisi ac egwyddorion Llywodraeth Cymru yn ei gynlluniau ar gyfer y dull o ddyfarnu graddau. Ceisiodd ei ymgynghoriad safbwyntiau ar y broses safoni ystadegol ac ar nodau drafft a oedd yn cefnogi'r gwaith. O ganlyniad i'r ymgynghoriad, cytunwyd ar y nodau a fyddai'n cefnogi gwaith datblygu'r modelau safoni ystadegol fel a ganlyn:

1. Bydd pob dysgwr y cyflwynir gradd asesu canolfan a threfn safle ar ei gyfer yn derbyn gradd.
2. Bydd canlyniadau cenedlaethol yn gyffredinol debyg i'r rheiny a gyhoeddwyd dros y blynyddoedd blaenorol er mwyn lleihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros amser ac i gynnal hyder y cyhoedd.
3. Cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, ni fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn rhoi mantais i ddysgwyr, na'u rhoi dan anfantais, yn systematig, gan gynnwys y dysgwyr hynny â nodweddion a warchodir gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.
4. Bydd y model safoni ystadegol yn defnyddio amrediad o dystiolaeth i gyfrifo'r graddau tebygol y byddai dysgwyr wedi'u hennill pe byddent wedi gallu cwblhau eu hasesiadau.

Mae'n glir y gellir mapio Nodau 1, 2 a 3 i bedair egwyddor Llywodraeth Cymru.

5.3 Cymwysterau Cymru bennodd y nodau ar gyfer gwaith datblygu'r modelau safoni. CBAC ddatblygodd y modelau ar gyfer Cymru yn unol â'r nodau hyn. Yna, cymeradwywyd y modelau safoni gan Cymwysterau Cymru, a gymerodd gyfrifoldeb dros brofi bod y modelau'n cyflawni amcanion polisi ac egwyddorion Llywodraeth Cymru.

5.4 Amlygodd yr ymatebion i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru nifer o bryderon ynghylch y dull safoni ystadegol arfaethedig. Ceir cofnod cynhwysfawr ohonynt yn y canlyniadau[10] a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru a gafodd eu hadolygu cyn eu cyhoeddi gan fwrdd Cymwysterau Cymru yn ystod ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2020. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys y canlynol:

- posibilrwydd o ragfarn ddiarwybod a rhagfarn ymwybodol wrth bennu graddau asesu canolfannau a'r trefnau safle
- amrywioldeb y dystiolaeth sydd ar gael i danategu beirniadaethau mewn canolfannau
- gallu'r modelau safoni i ymdrin â charfanau bach a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol lle cydnabyddwyd y gall cyrhaeddiad carfanau amrywio o un flwyddyn i'r nesaf

[10]Canfyddiad Cymwysterau Cymru o'r ymgynghoriad a'r penderfyniadau canlynol: https://qualificationswales.org/cymraeg/covid-19---canlyniadau-2020/haf-2020/penderfyniadau-haf-2020/, cyrchwyd 26 Tachwedd 2020

- yr her o bennu trefn safle ymhlith carfanau mawr
- sut fyddai'r canolfannau neu ddysgwyr unigol hynny a oedd ar drywydd o welliant yn cael eu trin o ganlyniad i ddefnyddio data hanesyddol
- yr her o ddyfarnu graddau asesu canolfannau i ymgeiswyr yr oedd ganddynt hanesion addysgol byrrach â chanolfannau, ac i ymgeiswyr preifat nad oeddent yn gysylltiedig â chanolfannau

5.5 Dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym, yn achos nifer o'r pryderon, y byddai heriau ynghlwm wrth unrhyw ddatrysiad arfaethedig o safbwynt sicrhau cysondeb ar draws canolfannau. Er enghraifft, nid oedd yn gallu dod o hyd i ddatrysiad a fyddai'n sicrhau cysondeb cyfle ar gyfer cyflwyno tystiolaeth i ategu gwelliannau diweddar mewn canolfan. Er y cydnabuwyd na fyddai data hanesyddol yn adlewyrchu gwelliannau o'r fath, bu pryderon o hyd na fyddai pob canolfan wedi gallu cyflwyno data diweddar i ddangos tystiolaeth o welliannau.

5.6 Roedd graddfa'r diddordeb yn ymgynghoriad Cymwysterau Cymru yn sylweddol. I raddau helaeth, mae'r materion a godwyd gan ymatebwyr yn ymarfer y digwyddiadau a phryderon a ddatblygodd ynghylch diwrnod canlyniadau Safon Uwch Awst 2020. Ar y cyd â Cymwysterau Cymru, gwnaethom archwilio sut roedd wedi dod i'r penderfyniadau a wnaed ganddo yn sgil yr ymatebion hynny, yn enwedig lle nad oedd niferoedd sylweddol o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr â'r cynigion neu wedi codi pryderon.

5.7 Mae'r Adroddiad Penderfyniadau, y cyfeirir ato ym mharagraff 5.4, yn amlinellu, yn eglur, natur a nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a sail resymegol Cymwysterau Cymru dros fabwysiadu neu addasu ei argymhellion gwreiddiol. Cafodd addasiadau eu gwneud, er enghraifft, a wnaeth yn bosibl i nifer o ymgeiswyr preifat dderbyn graddau, ac i'r broses apeliadau arfaethedig gael ei hehangu er mwyn galluogi dysgwyr i apelio i'w canolfannau mewn achosion lle cyflwynwyd data anghywir i CBAC, ac i gwyno lle cafwyd tystiolaeth o ragfarn.

5.8 Gwelwyd hollt sylweddol yn y farn ynghylch p'un a ddylai'r canlyniadau cenedlaethol ar gyfer haf 2020 fod yn gyffredinol debyg i ganlyniadau blynyddoedd blaenorol (Nod 2, paragraff 5.2 uchod) (55% wedi cytuno / cytuno'n gryf a 42% wedi cytuno'n rhannol / anghytuno'n rhannol neu wedi anghytuno / anghytuno'n gryf). Roedd y bobl hynny a oedd yn gytûn wedi canolbwyntio ar gynnal hyder yn y system. Roedd y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr nad oeddent yn gytûn yn cynnwys y gallai fod yn afresymol ac amhriodol cymharu carfan 2020 yn erbyn carfanau blynyddoedd blaenorol yn sgil yr amgylchiadau digyffelyb, a'r ffaith y byddai'r broses ddyfarnu ei hun yn wahanol iawn.

5.9 Gwrthododd ymateb Cymwysterau Cymru'r pryderon, gan ddatgan: *Mae'n rhaid i ni hefyd fod yn ystyriol o'r angen i osgoi tarfiad diangen ar y system ehangach. Er enghraifft, pe byddai'r dysgwyr yn derbyn graddau a oedd lawer uwch na'r rheiny y byddent fwyaf tebygol o fod wedi'u hennill pe byddent wedi sefyll eu harholiadau fel a gynlluniwyd, gallai hynny eu harwain i wneud dewisiadau gwahanol iawn o safbwynt astudiaethau pellach neu gyfleoedd gyrfaol. Gallai'r rhain fod yn ddewisiadau sydd, yn ddiweddarach, yn profi i fod yn annoeth, ac efallai nad er eu budd gorau o safbwynt eu cynnydd*.
Yna, cafodd Nod 2 ei gryfhau drwy ychwanegu'r cyfeiriad at 'cynnal hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau'.

5.10 Gwelwyd hollt sylweddol hefyd yn y safbwyntiau ynghylch tegwch a manwl gywirdeb tebygol model safoni ystadegol (Nod 4 ym mharagraff 5.2 uchod) (57% wedi cytuno / cytuno'n gryf a 41% wedi cytuno'n rhannol / anghytuno'n rhannol neu wedi anghytuno / anghytuno'n gryf). Mae'r

Adroddiad Penderfyniadau'n dangos yr ystyriaeth a roddodd Cymwysterau Cymru i amrediad o bryderon, yn enwedig pryderon ynghylch carfanau bach a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, amrywioldeb beirniadaethau ar draws ysgolion, rhagfarn gan ganolfannau, a'r ffaith na all data hanesyddol ystyried canolfannau a dysgwyr unigol ar drywydd o welliant.

*5.11* Fodd bynnag, casglodd Cymwysterau Cymru fel a ganlyn: *Yn anffodus, nid oes unrhyw ffordd y gall y broses wahaniaethu rhwng optimyddiaeth ddiarwybod ar ran canolfannau, chwyddiant yng ngraddau asesu canolfannau, a'r posibilrwydd y byddai dysgwyr unigol, neu garfanau o ddysgwyr, wedi gwneud yn llawer gwell eleni, mewn gwirionedd, nag y byddai ystadegau blynyddoedd blaenorol wedi rhagweld. Ceir risg sylweddol, os byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar raddau asesu canolfannau er mwyn ceisio lliniaru'r gwendidau hyn, y gallwn greu rhywfaint o annhegwch ar gyfer pob canolfan a'i dysgwyr. Yn benodol, byddai'n peri i ddysgwyr mewn canolfannau a oedd wedi chwyddo'u graddau asesu canolfannau dderbyn canlyniadau gwell na dysgwyr mewn canolfannau a oedd wedi ceisio gwneud y peth iawn, neu a oedd efallai wedi bod yn geidwadol eu beirniadaethau.*

Gan ystyried bod y casgliad hwn yn cydnabod anallu'r prosesau safoni ystadegol i ymdrin â phryderon hysbys, rydym yn synnu at hyder a dibyniaeth barhaus Cymwysterau Cymru ar y prosesau safoni, ac yn canfod y dylai Cymwysterau Cymru a CBAC, ar yr adeg hon, fod wedi archwilio mesurau diogelu ychwanegol, a'u gweithredu, er mwyn mynd i'r afael â ffactorau hysbys.

5.12 Mae Adroddiad Penderfyniadau Cymwysterau Cymru hefyd yn rhestru nifer o feysydd y cododd ymatebwyr faterion neu sylwadau yn eu cylch a oedd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad, ac felly nid aed i'r afael â nhw yn y penderfyniadau a wnaed. Roedd y rhain yn cynnwys:

- *penderfyniadau ynghylch sut na fydd canlyniadau Blwyddyn 10 a Safon UG yn cyfrannu at y graddau TGAU neu Safon Uwch terfynol ar gyfer y dysgwyr hyn yn ystod haf 2021;*
- *effaith dysgu gartref ar allu dysgwyr i gyflawni eu potensial mewn cymwysterau yn y blynyddoedd i ddod;*
- *effaith cau ysgolion ar allu athrawon i gyflwyno'r fanyleb yn ei chyfanrwydd i ddysgwyr a fydd yn cwblhau cymwysterau yn ystod haf 2021;*
- *yr effaith o beidio â bod wedi paratoi'n llawn ar gyfer arholiadau TGAU eleni, a'u sefyll, ar ganlyniadau UG y flwyddyn nesaf;*
- *y penderfyniadau i ganslo asesiadau ar gyfer yr haf hwn a mabwysiadu dull arall o ddyfarnu cymwysterau;*
- *peidio â dwyn y diwrnod canlyniadau ymlaen er mwyn gadael mwy o amser i ddysgwyr sicrhau eu dilyniant i addysg bellach neu addysg uwch, neu gyflogaeth;*
- *dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn ystod yr haf hwn.*

5.13 Gwnaethom ddysgu am ffydd y rheoleiddiwr yn y prosesau a oedd yn cael eu rhoi ar waith. Yn ystod ein cyfarfod â thîm arwain Cymwysterau Cymru, dywedwyd wrthym:

*Roedd gennym ffydd yn yr hyn yr oeddem yn ei wneud … Roeddem yn gwybod na allai unrhyw broses fod yn berffaith … Ni allai unrhyw beth ddisodli sefyll arholiadau … Roeddem yn ceisio sefydlu'r broses decaf posibl gan gydbwyso llawer iawn o ffactorau … Roeddem yn hyderus mai dyna oedd y peth cywir i'w wneud yn yr amgylchiadau … Roeddem yn gwybod y byddai angen i'r mecanwaith apeliadau ymdrin â rhai pethau. Roeddem yn gwybod ei bod yn amherffaith ac y byddai angen ei datrys drwy apeliadau.*

5.14 Felly dibynnwyd ar y broses apeliadau i fynd i'r afael ag achosion unigol lle na fyddai gradd deg yn cael ei dyfarnu i ddysgwr unigol o ganlyniad i'r dull arfaethedig. Gosodwyd llawer o bwysau, felly,

ar y broses apeliadau i ymdrin â phroblemau hysbys. Byddwn yn archwilio hyn ymhellach ym mharagraffau 5.18 i 5.22 isod.

5.15 Mae ein dehongliad o'r ymatebion i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru yn awgrymu bod dysgwyr, rhieni, gofalwyr, ac addysgwyr proffesiynol yn deall y pwysau ar y system a'u bod yn gefnogol, yn gyffredinol, o'r ymdrechion i gynllunio canlyniad teg a chyfiawn a oedd yn cynnal hygrededd y cymwysterau ar lefel system. Er hynny, roedd yr ymatebion hefyd yn codi pryderon dealladwy a theg ynghylch sut y byddai dulliau system gyfan o'r fath yn cael effaith ar ddysgwyr unigol, a phryderon penodol ynghylch sut y gallai prosesau safoni ystadegol gael effaith ar y lefel unigol mewn ffyrdd annheg. Rydym yn canfod bod y ffydd yn y prosesau safoni a fynegwyd gan y rheoleiddiwr wedi'i hor-ddweud ac yn gyfeiliornus, a'i bod wedi deillio o'r flaenoriaeth a roddwyd i gyflawni canlyniadau system gyfan a oedd yn gyson â blynyddoedd blaenorol wrth fethu rhoi sylw i ganlyniadau'r dull hwnnw ar unigolion.
Deallwn mai ceisio sicrhau hyder yn y system gymwysterau yn gyffredinol yr oedd y rheoleiddiwr, ond, yn y pen draw, arweiniodd y canlyniadau andwyol o wneud hynny, ar niferoedd mor fawr o ddysgwyr, at niweidio'r union hyder hwnnw yn ddifrifol.

**5.16 Y model safoni ystadegol**

Mae'r amserlen yn Atodiad 3 yn dangos sut y gwnaeth cymuned gymwysterau'r DU gydweithio i drafod y materion ynghylch datblygu'r modelau, rhannu syniadau ac arbenigedd, a datblygu dulliau a oedd yn gyffredinol debyg. Ystyriodd y modelau a ddatblygwyd ar gyfer Cymru y gwahaniaethau yn y system addysg yng Nghymru, y dystiolaeth a oedd ar gael, a'r adborth o ymgynghoriad Cymwysterau Cymru (nodir manylion y gwahaniaethau hyn yn Atodiad 5). Anelodd y modelau hyn at ddarogan graddau ar gyfer pob dysgwr ymhob cymhwyster. Roedd y rhagfynegiadau hyn yn seiliedig ar y data a gyflwynwyd gan ganolfannau (graddau darogan a threfnau safle o fewn pob gradd) a, lle roedd ar gael ac yn briodol, data hanesyddol am berfformiad y dysgwyr a pherfformiad y ganolfan. Roedd manylion y modelau'n amrywio rhwng cymwysterau, ond roeddent i gyd yn cynnwys prosesau ystadegol cymhleth.

5.17 Ledled y DU, nododd y cyrff cymwysterau fod ffydd ganddynt yn eu defnydd o'r modelau safoni ystadegol hyn. Dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym yr oeddent wedi bod yn hyderus y byddai'r modelau safoni ar gyfer Cymru'n cyflwyno cyfres o ganlyniadau ddigon cadarn a fyddai'n cyflawni'r egwyddorion cytunedig, ac y byddai'r broses apeliadau'n mynd i'r afael â'r achosion hynny na allai'r model ddarparu ar eu cyfer. Byddwn yn archwilio'r modelau ymhellach ym Mhennod 8.

**5.18 Y broses apeliadau**

Roedd dyfarnu graddau yn absenoldeb arholiadau'n ei gwneud yn ofynnol cynllunio proses apeliadau benodol ar gyfer 2020, a'i gweithredu. Ymgynghorodd Cymwysterau Cymru ar gynigion ar gyfer y broses fel rhan o'i ymgynghoriad swyddogol, a chafodd penderfyniadau, ynghyd â'r canlyniadau eraill, eu cyhoeddi ar 19 Mehefin 2020. Yn ei hanfod, roedd y broses[11] fel a ganlyn:

- gallai dysgwyr ofyn i'w canolfan wirio a oedd wedi gwneud camgymeriad wrth gyflwyno data asesu'r ganolfan ar eu cyfer;

[11] Y broses apeliadau a gyhoeddwyd: https://qualificationswales.org/media/6213/appeals-process-summer-2020.pdf, cyrchwyd 18 Tachwedd 2020.

- gallai canolfannau apelio i CBAC ar ran dysgwyr, yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, ar sail y ffaith fod y data anghywir wedi'i ddefnyddio, bod y radd a gyfrifwyd gan y model safoni ystadegol wedi'i cham-ddyrannu neu gam-gyfathrebu, neu lle bu unrhyw fethiant gweithdrefnol arall.

5.19 Ni chaniatawyd apeliadau ar sail y ffaith nad oedd dysgwr yn cytuno â chrebwyll proffesiynol ei ganolfan. Ni chaniataodd Cymwysterau Cymru hefyd i ganlyniadau'r model safoni ystadegol gael eu herio gan mai'r canfyddiad oedd bod cymhwyso'r model cenedlaethol mewn modd cyson yn ganolog i gynnal safonau. Trafodir effeithiolrwydd y broses apeliadau, unwaith y cafodd y canlyniadau eu cyhoeddi ym mis Awst, ym Mhennod 7 isod.

5.20 Nodwn y digwyddodd gwaith datblygu a phrofi'r broses apeliadau yn hwyr yn y broses o roi'r dull o ddyfarnu graddau ar waith. Felly cafodd y dull dewisol o ddyfarnu graddau ei weithredu heb wybod a ellid datblygu proses apeliadau deg a chyfiawn. Nodwn hefyd wrthgyferbyniad o ran y dull a ddilynwyd: dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym ei fod yn gwybod na fyddai'r model safoni'n berffaith ac y byddai angen i'r broses apeliadau, o ganlyniad, ymdrin â'r achosion hynny lle nad oedd y radd a gyfrifwyd yn cyflwyno canlyniad teg i ddysgwr unigol. Fodd bynnag, mae'r arweiniad gan Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn glir na ellir apelio ar sail y ffaith nad oedd y broses safoni genedlaethol wedi gweithredu yn ôl y disgwyl.

5.21 Rydym yn casglu y bu methiant i roi proses apeliadau teg ac ymarferol ar waith yn 2020 a fyddai'n ymdrin ag analluoedd hysbys y prosesau ystadegol i gyflwyno canlyniad teg i bob dysgwr.

5.22 Mae datblygu proses apeliadau'n elfen hanfodol yng ngham cynllunio'r dull o weithredu cymwysterau a phennu graddau er mwyn sicrhau bod hawl ymarferol a theg i apelio ar gael i unigolion.

---

***Crynodeb o'r canfyddiadau:***

5.23 O gydnabod anallu'r prosesau safoni ystadegol i ymdrin â phryderon hysbys, dylai Cymwysterau Cymru a CBAC fod wedi archwilio mesurau diogelu ychwanegol, a'u rhoi ar waith, er mwyn mynd i'r afael â ffactorau hysbys.

5.24 Roedd y ffydd a fynegwyd gan y rheoleiddiwr yn y prosesau safoni wedi'i hor-ddweud ac yn gyfeiliornus, a deilliodd o'r flaenoriaeth a roddwyd i gyflawni canlyniadau system gyfan a oedd yn gyson â blynyddoedd blaenorol wrth fethu rhoi sylw i ganlyniadau'r dull hwnnw ar unigolion. Er mai ceisio sicrhau hyder yn y system gymwysterau yn gyffredinol yr oedd y rheoleiddiwr, yn y pen draw, arweiniodd yr effeithiau andwyol o wneud hynny, ar niferoedd mor fawr o ddysgwyr, at niweidio'r union hyder hwnnw yn ddifrifol.

5.25 Roedd gwrthgyferbyniad yn y dull a ddilynwyd: er bod Cymwysterau Cymru'n gwybod na fyddai'r model safoni'n berffaith ac y byddai angen i'r broses apeliadau, o ganlyniad, ymdrin â'r achosion hynny lle nad oedd y radd a gyfrifwyd yn cyflwyno canlyniad teg i ddysgwr unigol, roedd yn glir na ellid apelio ar sail y ffaith nad oedd y broses safoni genedlaethol wedi gweithredu yn ôl y disgwyl.

5.26 Bu methiant felly i roi proses apeliadau teg ac ymarferol ar waith yn 2020 a fyddai'n ymdrin ag analluoedd hysbys y prosesau ystadegol i gyflwyno canlyniad teg i bob dysgwr. Cafodd y dull dewisol o ddyfarnu graddau ei weithredu heb wybod a ellid datblygu proses apeliadau weithredol.

***Argymhellion:***

5.27 Mae datblygu proses apeliadau'n elfen hanfodol yng ngham cynllunio'r dull o weithredu cymwysterau a phennu graddau ar gyfer 2021 er mwyn sicrhau bod hawl ymarferol a theg i apelio ar gael i unigolion.

## 6 MEHEFIN/GORFFENNAF 2020:

- Penderfyniad gan Cymwysterau Cymru a CBAC i beidio â chymedroli graddau asesu canolfannau yn allanol ar ôl eu cyflwyno
- Cymwysterau Cymru yn cymeradwyo'r modelau safoni ystadegol a'r canlyniadau

6.1 Cyflwynodd canolfannau eu graddau asesu canolfannau a'u trefnau safle ym mis Mehefin 2020 ynghyd â'r datganiad gan bennaeth y ganolfan fod y data'n fanwl gywir, yn ddiffuant ac yn deg.

6.2 Clywsom sut roedd arweinwyr ysgolion a cholegau wedi disgwyl y byddai CBAC yn profi a herio'u graddau asesu canolfannau. Roedd disgwyliad o gynnal 'trafodaethau proffesiynol' mewn achosion lle canfuwyd bod cyflwyniadau unrhyw ganolfan yn anghyson â phatrymau hanesyddol o gyflawniad. Nododd arweinwyr ysgolion a cholegau y byddent wedi croesawu'r cyfle i esbonio sut roeddent wedi dod i'r graddau asesu canolfannau a'r trefnau safle a bennwyd ganddynt ac i ddangos y dystiolaeth ategol. Roedd pob un o'r bobl y gwnaethom ymgysylltu â nhw yn glir y byddent wedi croesawu proses o wirio a herio o'r fath er mwyn sicrhau bod ffydd yn y dulliau roedd pob canolfan yn eu dilyn, a sicrhau nad oedd awgrymiadau bod canolfannau'n 'chwarae'r gêm'.

6.3 Pan gyflwynwyd y graddau asesu canolfannau a'r trefnau safle, arsylwodd CBAC a Cymwysterau Cymru gynnydd sylweddol yng nghyfrannau'r graddau a ddyfarnwyd yn hanner uchaf y dosbarthiad graddau ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch. Dywedodd Cymwysterau Cymru a CBAC wrthym fod maint y gwahaniaeth rhwng proffil y graddau asesu canolfannau a phroffil y graddau blaenorol a ddyfarnwyd ar lefel genedlaethol[12] ac ar gyfer ysgolion unigol wedi cadarnhau iddynt fod angen y modelau safoni ystadegol i 'gymedroli'r' graddau.

6.4 Mae'n nodedig, mewn datganiadau a wnaed i'r panel, nodiadau o gyfarfodydd â Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg, ac mewn deialog a adroddwyd ag ysgolion a cholegau, bod Cymwysterau Cymru wedi cyfeirio dro ar ôl tro at y ffaith fod graddau asesu canolfannau wedi'u 'chwyddo' ac yn 'hael'. Fodd bynnag, heb arfer hawl CBAC i ymchwilio i gyflwyniadau canolfannau a oedd yn ymddangos nad oeddent yn cyd-fynd â phatrymau hanesyddol, nid yw'n bosibl asesu gwirionedd yr awgrym bod graddau o'r fath wedi'u 'chwyddo' nac yn ôl faint os felly.

6.5 Yn ein hadroddiad interim, gwnaethom nodi nad yw'n syndod, i ryw raddau, y ceir symudiad o'r fath yn y proffil graddau. Ceir achosion bob amser, mewn blynyddoedd blaenorol, lle nad yw cyfran o ymgeiswyr wedi bod yn bresennol i sefyll yr arholiadau; ceir achosion lle nad yw perfformiad yr ymgeisydd ar ddiwrnod penodol yn adlewyrchu ei allu, yn rhannol neu'n llwyr; a cheir achosion lle mae digwyddiadau andwyol ym mywyd personol ymgeisydd yn cael effaith ar ei berfformiad, naill ai ar ddiwrnod penodol, neu drwy gydol y cyfnod arholiadau. Ni allai, ac ni ddylai, graddau asesu canolfannau fod wedi adlewyrchu unrhyw un o'r amgylchiadau hynny. Dylid nodi hefyd nad yw unrhyw gymhariaeth rhwng canlyniadau graddau asesu canolfannau â dosbarthiadau graddau blynyddoedd blaenorol yn gymhariaeth tebyg â'i debyg. Byddai canlyniadau blynyddoedd blaenorol eisoes wedi bod yn destun gwaith cymedroli sylweddol, ynghyd â'r broses safoni, er mwyn bodloni proffil disgwyliedig. Felly roedd unrhyw gynhyrfiad neu newid mewn canlyniadau o un flwyddyn i'r nesaf cyn 2020 *eisoes* wedi'i lyfnu drwy waith cymedroli a safoni i batrwm nad oedd

[12] Mae sleidiau PowerPoint sy'n crynhoi'r graddau asesu canolfannau ar gael yn https://qualificationswales.org/cymraeg/covid-19---canlyniadau-2020/haf-2020/trefniadau-safoni-ar-gyfer-haf-2020-yng-nghymru/, cyrchwyd 17 Tachwedd 2020.

yn caniatáu ond cynnydd cyfyngedig iawn yn y ganran o broffiliau graddau uwch ar gyfer unrhyw garfan gymwysterau benodol.

6.6 Dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym ei fod yn teimlo bod y ffaith fod 'gwarant' ar waith, sef y datganiad a lofnodwyd gan benaethiaid canolfannau, wedi'i roi ef a CBAC mewn sefyllfa lle na allent herio. Nodwn uchod, ym mharagraff 6.2, nad oedd y penaethiaid canolfan yr oeddem wedi cwrdd â nhw'n teimlo'r un ffordd, ac roeddent wedi disgwyl, a byddent wedi croesawu, trafodaethau proffesiynol ynghylch y data a gyflwynwyd ganddynt. Rhoddodd Cymwysterau Cymru esboniad pellach i ni eu bod o'r farn, er hynny, y byddai cynnal ymchwiliadau neu ddeialog o'r fath yn annhebyg o ddwyn canlyniadau sylweddol, a dywedodd CBAC wrthym hefyd y gallai unrhyw ymchwiliad i ganolfannau yn ystod y cam hwn fod wedi arwain at oedi cyhoeddi graddau; ni fyddai oedi'r cyhoeddiad wedi bod yn dderbyniol oherwydd bod y Gweinidog Addysg eisoes wedi penderfynu na ddylai dysgwyr yng Nghymru dderbyn canlyniadau yn hwyrach na Lloegr a Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau na fyddent dan anfantais o ran cael mynediad i leoedd mewn prifysgolion.

6.7 Gweithredodd CBAC y modelau safoni ystadegol gyda'r graddau asesu canolfannau, y trefnau safle, a data eraill oedd ar gael, a dechreuodd broses adolygu a chymeradwyo ailadroddol ar y cyd â Cymwysterau Cymru er mwyn pennu graddau terfynol mewn cyfres o gyfarfodydd Cynnal Safonau (rhwng 30 Gorffennaf a 11 Awst). Mewn llawer o achosion, roedd graddau asesu canolfannau a'r graddau safonol yn sylweddol wahanol. Bu symudiad i fyny ac i lawr. Pan gafodd y canlyniadau eu cyhoeddi, daeth yn amlwg i'r canolfannau a'r dysgwyr nad oedd y gwahaniaeth, mewn sawl achos, yn cyd-fynd o gwbl â'u disgwyliadau. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran sy'n ymwneud â'r modelau isod (Pennod 8).

6.8 Y bwriad, bob amser, oedd bod y graddau asesu canolfannau ond yn un ffactor a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r graddau terfynol, ynghyd â data ar gyrhaeddiad/asesiadau blaenorol a threfnau safle. Fodd bynnag, arweiniodd y ffaith y cafodd y graddau asesu canolfannau eu defnyddio yn y broses at y risg y byddai unrhyw wyriad sylweddol rhwng y radd derfynol a gyfrifwyd ar gyfer unigolyn, a gradd asesu'r ganolfan a gyflwynwyd ar ei gyfer, yn tanseilio hygrededd y radd a gyfrifwyd, a hyder ynddi. Er bod Cymwysterau Cymru wedi cydnabod y risg hon, a bod papurau'r bwrdd ar 16 Gorffennaf 2020 yn cyfeirio at hynny, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth fod unrhyw gamau lliniaru wedi'u gweithredu.

6.9 Fel ein bod wedi nodi uchod, roedd Cymwysterau Cymru a CBAC wedi ystyried a ellid ymgymryd â rhyw fath o waith cymedroli graddau asesu canolfannau yn allanol cyn iddynt gael eu cyflwyno fel rhai terfynol, ond cafodd yr opsiwn hwn ei ddiystyru heb brofi'r rhagdybiaethau a ategodd y penderfyniad hwnnw yn llawn. Disgwyliodd canolfannau y byddai CBAC yn dychwelyd i ganolfannau a gyflwynodd raddau asesu canolfannau nad oeddent yn ymddangos eu bod yn cyd-fynd â'r disgwyl, gan barchu ei hawl i wneud hyn, ond ni ddigwyddodd hynny.

6.10 Yn absenoldeb cymedroli allanol o ran y penderfyniadau a wnaed wrth bennu graddau asesu canolfannau a threfnau safle, ac yn absenoldeb hyfforddi aseswyr er mwyn osgoi unrhyw duedd wrth bennu graddau asesu canolfannau, dibynnwyd yn llwyr ar y prosesau safoni ystadegol i sicrhau tegwch rhwng canolfannau. Roedd canlyniadau'r prosesau hynny eu hunain wedi creu allanolion, a gwnaethant arwain at bryder eang bod y prosesau wedi gorfodi canlyniadau nad oeddent yn cyflwyno graddau teg i nifer fawr o ddysgwyr unigol ni waeth beth oedd y patrwm cyffredinol ar gyfer y garfan.

6.11 Rydym yn dod i'r casgliad y byddai Cymwysterau Cymru a CBAC wedi cael mewnwelediad i nifer debygol yr apeliadau posibl a fyddai'n codi yn seiliedig ar y data yr oeddent wedi'i weld. Byddent wedi gwybod lefel yr allanolion, a byddent wedi deall na fyddai'r broses apeliadau a gyhoeddwyd yn ei gwneud yn bosibl i'r dysgwyr hyn, a'u canolfannau, herio'r prosesau a fabwysiadwyd ar gyfer y broses safoni genedlaethol. Nid ydym wedi canfod tystiolaeth bod CBAC na Cymwysterau Cymru wedi cydnabod, derbyn na rhagweld graddfa'r problemau, na'r risg o annhegwch i gynifer o ddysgwyr unigol, y byddai eu diffyg gweithredu'n eu hachosi. Mae hyn yn gyfystyr â methiant mewn arweinyddiaeth a llywodraethu mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau yn ystod haf 2020.

6.12 Rydym yn dod i'r casgliad bod Cymwysterau Cymru a CBAC yn orhyderus yn eu model ystadegol a'u bod wedi dibynnu'n ormodol ar y modelau safoni ystadegol i fynd i'r afael ag unrhyw amrywioldeb yn nyfarniadau canolfannau o safbwynt eu graddau asesu canolfannau, a haelioni ymddangosiadol eu harferion. Clywsom sut y collwyd y cyfle i gymedroli graddau asesu canolfannau yn allanol cyn iddynt gael eu cyflwyno i CBAC. Pe byddai cynnal trafodaethau proffesiynol wedi'u cynnal, tuag at ddiwedd mis Mehefin, rhwng CBAC a'r canolfannau hynny lle nodwyd amrywiad yn eu graddau asesu canolfannau o'u cymharu â'u perfformiad blaenorol, gallent fod wedi helpu i naill ai addasu'r graddau asesu canolfannau neu roi hyder i CBAC i amddiffyn cynnydd cenedlaethol yn y graddau asesu canolfannau yn erbyn proffil graddau'r llynedd i Cymwysterau Cymru.

6.13 Gwnaeth CBAC gydnabod, pe byddai'r graddau asesu canolfannau eu hunain wedi cyd-fynd yn agosach â chanlyniadau blynyddoedd cynt, yna ni fyddai'r gwaith ail-raddnodi drwy'r modelau safoni wedi bod mor helaeth, ac ni fyddai'r symudiadau rhwng y graddau asesu canolfannau a'r graddau a gyfrifwyd wedi bod mor sylweddol. Gwnaeth CBAC sylw pellach y byddai gwaith cymedroli graddau asesu canolfannau yn allanol wedi digwydd cyn y broses safoni mewn amodau delfrydol.

---

***Crynodeb o'r canfyddiadau:***

6.14 Yn absenoldeb cymedroli allanol o ran y penderfyniadau a wnaed wrth bennu graddau asesu canolfannau a threfnau safle, ac yn absenoldeb hyfforddi aseswyr er mwyn osgoi unrhyw duedd wrth bennu graddau asesu canolfannau, dibynnwyd yn llwyr ar y prosesau safoni ystadegol i sicrhau tegwch rhwng canolfannau. Roedd canlyniadau'r prosesau hynny eu hunain wedi creu allanolion, a gwnaethant arwain at bryder eang bod y prosesau wedi gorfodi canlyniadau nad oeddent yn cyflwyno graddau teg i nifer fawr o ddysgwyr unigol ni waeth beth oedd y patrwm cyffredinol ar gyfer y garfan.

6.15 Ni wnaeth CBAC na Cymwysterau Cymru gydnabod, derbyn na rhagweld graddfa'r problemau, na'r risg o annhegwch i gynifer o ddysgwyr unigol, y byddai eu diffyg gweithredu'n eu hachosi. Mae hyn yn gyfystyr â methiant mewn arweinyddiaeth a llywodraethu mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau yn ystod haf 2020.

6.16 Pe byddai cynnal trafodaethau proffesiynol wedi'u cynnal, tuag at ddiwedd mis Mehefin, rhwng CBAC a'r canolfannau hynny lle nodwyd amrywiad yn eu graddau asesu canolfannau o'u cymharu â'u perfformiad blaenorol, gallent fod wedi helpu i naill ai addasu'r graddau asesu canolfannau neu roi hyder i CBAC i amddiffyn cynnydd cenedlaethol yn y graddau asesu canolfannau yn erbyn proffil graddau'r llynedd i Cymwysterau Cymru.

***Argymhellion:***

6.17 Dylid gweithredu proses gymedroli allanol i sicrhau cysondeb ar draws Cymru mewn dull cenedlaethol cytunedig o ddyfarnu graddau ar gyfer haf 2021, yn hytrach na phrosesau ystadegol.

## 7 AWST 2020:

- Cyhoeddi canlyniadau TGAU, UG a Safon Uwch.
- Gwrthwynebiad y cyhoedd a sylw yn y cyfryngau.
- Newid ym mhenderfyniadau polisi llywodraethau ar draws gwledydd y DU.

7.1 Cynhyrchodd y modelau safoni raddau a oedd, mewn llawer o achosion, yn wahanol i'r graddau asesu canolfannau, ac achosodd helaethrwydd yr israddio i bobl golli hyder yn y system. Cafodd y canlyniadau ar gyfer Scottish Highers eu cyhoeddi'n gyntaf ar 4 Awst a derbyniodd llawer o ddysgwyr ganlyniadau a oedd yn sylweddol wahanol i'r rheiny roeddent wedi'u disgwyl. Datblygodd gwrthwynebiad cyhoeddus a arweiniodd at benderfyniad gan Weinidog Addysg yr Alban y dylid dyfarnu'r uchaf o'r graddau asesu canolfannau neu'r graddau a gyfrifwyd i ddysgwyr.

7.2 Erbyn yr amser y cafodd canlyniadau'r Scottish Highers eu cyhoeddi ar 4 Awst, roedd Cymwysterau Cymru a CBAC yn gwybod bod gwahaniaethau sylweddol hefyd rhwng y graddau asesu canolfannau a'r graddau safonedig yng Nghymru, a rhannodd Cymwysterau Cymru ganlyniad y modelau safonedig â swyddogion Adran Addysg Llywodraeth Cymru.

7.3 Yn ystod ein cyfarfodydd â swyddogion Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC, cawsom wybod nad oeddent yn disgwyl y byddai'r un digwyddiadau ac ymateb cyhoeddus yn datblygu yng Nghymru. Roedd y farn honno'n seiliedig, i raddau helaeth, ar y gwahaniaethau yn y data a ddefnyddiwyd yn y modelau safoni yng Nghymru, o ran y ffaith y defnyddiwyd data ar gyfer CA3 a Safon UG, yn wahanol i weddill y DU. Yn ogystal, y canfyddiad oedd bod system addysg yr Alban yn wahanol iawn i weddill y DU. Ar yr adeg hon, gwelwyd bod hyder yn Lloegr o hyd yn y dull safoni ystadegol.

7.4 Roedd Cymwysterau Cymru a CBAC yn gwybod pa mor fawr oedd y gwahaniaeth rhwng graddau asesu canolfannau a'r graddau safonedig. Roedd y ddau gorff yn gwybod na fyddai'r modelau safoni'n gweithio'n ddigonol ar gyfer rhai dysgwyr a'u bod wedi dibynnu ar y broses apeliadau i ymdrin â'r achosion unigol hynny, er gwaethaf y ffaith nad oedd y broses yn ei gwneud hi'n bosibl herio'r modelau safoni. O ganlyniad i'n trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru, gwnaethom sylwi bod hyder Cymwysterau Cymru wedi'i drosglwyddo iddyn nhw hefyd. Yn ogystal, disgwyliwyd cyhoeddi canlyniadau Safon Uwch Cymru i UCAS ar 6 Awst, felly bach iawn o amser oedd ar gael i ddeall ac ystyried effaith cyhoeddi canlyniadau'r Scottish Highers yn llawn.

7.5 Er bod y Gweinidog Addysg yng Nghymru wedi cael gwybod, yn ystod cyfarfod â Cymwysterau Cymru a CBAC ar 22 Mehefin 2020, bod amrywiad sylweddol rhwng y graddau asesu canolfannau a phatrymau hanesyddol o ganlyniadau, ni chafodd wybod pa mor fawr oedd yr amrywiad rhwng y graddau asesu canolfannau a'r graddau safonedig ar gyfer dysgwyr yng Nghymru nes iddi dderbyn y canlyniad cenedlaethol ar gyfer Safon Uwch ar 10 Awst ar yr un pryd ag y dosbarthwyd pecynnau gwybodaeth i ganolfannau. Roedd hyn yn unol â'r drefn arferol sy'n ei gwneud yn ofynnol diogelu canlyniadau rhag ymyrraeth wleidyddol.

7.6 Mae'r mesur diogelu hwn yn bwysig, ac rydym yn cydnabod nad yw'n briodol i Cymwysterau Cymru roi gwybod i weinidogion am ganlyniadau cyn yr hyn a bennir gan yr amserlen, wrth adrodd canlyniadau cymwysterau o gyfres arferol. Fodd bynnag, roedd yr amrywiad rhwng y dyfarniadau a gyfrifwyd a disgwyliadau canolfannau yn eithriadol yn 2020, ac fe ddeilliodd, nid o berfformiad uniongyrchol ymgeiswyr, ond yn hytrach o gymhwyso prosesau a gynlluniwyd i gyflawni egwyddorion Llywodraeth Cymru ar adeg anarferol. Yn yr amgylchiadau penodol hyn, rydym yn

dod i'r casgliad y byddai wedi bod yn briodol rhoi rhagrybudd, o leiaf, i'r Gweinidog am yr amrywiad rhwng y graddau asesu canolfannau a'r graddau a gyfrifwyd, yn gynharach.

7.7 O ganlyniad i'r materion a ddatgelwyd yn yr Alban, gwnaeth gweddill gwledydd y DU addasiadau cyfyngedig i'w graddau Safon Uwch cyn y diwrnod cyhoeddi canlyniadau. Yng Nghymru, gwelwyd hyn ar ffurf cyfarwyddyd y Gweinidog na ddylai'r radd Safon Uwch fod yn is na'r radd UG a gyflawnwyd gan bob ymgeisydd.

7.8 Cyhoeddwyd graddau Safon Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar 14 Awst. Clywsom gan ysgolion a cholegau, a chan dysgwyr, am y pryder, y dryswch a'r ymdeimlad o anghrediniaeth a brofodd llawer o bobl ar y diwrnod hwnnw. Dywedodd athrawon a darlithwyr eu bod yn teimlo'n ddiymadferth o safbwynt helpu dysgwyr a oedd wedi derbyn canlyniadau nad oedd modd eu hesbonio. Yn ogystal, roedd y modelau safoni ystadegol yn dechnegol ac yn gymhleth ac nid oedd ganddynt y tryloywder a fyddai wedi galluogi staff ysgolion a cholegau i helpu dysgwyr i ddeall eu graddau a gyfrifwyd. Dywedodd mwy nag un arweinydd ysgol i'r panel mai'r diwrnod canlyniadau Safon Uwch oedd yr un gwaethaf o'u gyrfa addysgol – diwrnod a fyddai fel arfer yn llawn llawenydd a chyffro ac a ddaeth, yn lle hynny, yn llawn siom a dryswch. Dilynwyd hyn gan sylw yn y cyfryngau a gwrthwynebiad cyhoeddus yng Nghymru.

7.9 Datblygodd digwyddiadau tebyg yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac, yn ystod dydd Llun 17 Awst, dilynodd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon benderfyniad yr Alban i ddefnyddio graddau asesu canolfannau lle'r oedd y rheiny'n uwch na'r graddau a gyfrifwyd. Roedd yn glir i'r Gweinidog Addysg bod ei blaenoriaeth ar yr adeg hon wedi datblygu i sicrhau nad oedd carfan dysgwyr 2020 yng Nghymru dan anfantais o'u cymharu â'r dysgwyr hynny yn rhannau eraill y DU.

7.10 Arweiniodd cyhoeddi'r newid yn y dull o ddyfarnu graddau at lwyth gweinyddol ychwanegol sylweddol ar ganolfannau wrth iddynt ailbrosesu'r hysbysiadau o ddyfarniadau i ddysgwyr unigol. Ychwanegodd hyn at y straen y profodd staff mewn canolfannau. Roedd hefyd yn ofynnol gwneud nifer o addasiadau i'r broses apeliadau o ganlyniad i'r cyhoeddiad y byddai graddau asesu canolfannau yn cael eu defnyddio lle roeddent yn uwch na'r graddau a gyfrifwyd.[13] Clywsom am bryderon gan y canolfannau eu bod wedi derbyn gwybodaeth am y broses apeliadau yn hwyr yn y cylch a'u bod yn teimlo nad oeddent wedi derbyn eglurder digonol.

7.11 Cododd y prifysgolion y gwnaethom gwrdd â nhw hefyd fod apeliadau'n broblem; roeddent yn profi achosion lle roedd yr oedi wrth ddatrys apeliadau gan ymgeiswyr yn cael effaith ar eu gallu i gadarnhau lleoedd y myfyrwyr ar gyrsiau gradd. Roedd y bobl hynny a oedd ynghlwm wrth dderbyniadau i brifysgolion wedi derbyn gwybodaeth, drwy UCAS, am y trefniadau dyfarnu ar draws pedair gwlad y DU. Fodd bynnag, yn y dyddiau o gwmpas cyhoeddi'r canlyniadau Safon Uwch, gwaethygodd y straen ac anhawster i brifysgolion o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth ac wrth iddynt glywed, drwy'r cyfryngau, am y penderfyniadau newidiol yr oedd llywodraethau gwledydd gwahanol y DU yn eu gwneud. Roedd y methiant i hysbysu prifysgolion, ymlaen llaw, am y newid yn y penderfyniadau o ran canlyniadau Safon Uwch, naill ai drwy UCAS neu'n uniongyrchol, wedi golygu eu bod yn ymdrin â llawer iawn mwy o alwadau ffôn gan ddysgwyr pryderus a'u rhieni/gofalwyr nag y byddent fel arfer, a hynny gyda'r diffyg yn y wybodaeth a oedd ar gael iddynt, ar yr adeg gywir, a fyddai wedi'u galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a chynghori ymgeiswyr yn briodol.

[13] Datganiad llawn Cymwysterau Cymru ynghylch y broses apeliadau yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog ar 17 Awst 2020: https://qualificationswales.org/cymraeg/covid-19---canlyniadau-2020/haf-2020/datganiadau-cymwysterau-cymru/datganiad-cymwysterau-cymru-ynghylch-broses-apelio/, cyrchwyd 18 Tachwedd 2020

7.12 Ymatebodd darparwyr addysg uwch yn gyflym i'r newid yn y canlyniadau Safon Uwch, ond gwnaethant hefyd wynebu heriau sylweddol, a chostau ychwanegol weithiau, a ddeilliodd o ddarparu ar gyfer myfyrwyr ychwanegol. Ar lawer o'r cyrsiau mwy detholus, a'r cyrsiau hynny lle cyfyngir ar nifer y lleoedd am resymau ymarferol a gweithredol cadarn, collodd rhai dysgwyr eu lle ar gyfer 2020 a gofynnwyd iddynt ohirio nes 2021. Mae'n werth nodi bod prifysgolion wedi ymdrin â'r sefyllfa gythryblus ar adeg pan oeddent hefyd yn ymateb i'r heriau o reoli'r myfyrwyr a oedd yn dychwelyd i'w campws dan amodau cadw pellter cymdeithasol newydd.

7.13 Wrth ddatblygu a gweithredu'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021, bydd yn bwysig sicrhau bod cynllun cyfathrebu cynhwysfawr ar waith sy'n mynd i'r afael ag anghenion pob rhanddeiliad ar bob cam o'r broses, gan gynnwys prifysgolion a chyflogwyr, ac sy'n meithrin hyder o'r newydd yn y system yng Nghymru. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 9.3.

---

***Crynodeb o'r canfyddiadau:***

7.14 Nid yw'n briodol i Cymwysterau Cymru roi gwybod i weinidogion am ganlyniadau cyn yr hyn a bennir gan yr amserlen, wrth adrodd ar ganlyniadau cymwysterau o gyfres arferol. Fodd bynnag, roedd yr amrywiad rhwng y dyfarniadau a gyfrifwyd a disgwyliadau canolfannau yn eithriadol yn 2020, ac fe ddeilliodd, nid o berfformiad uniongyrchol ymgeiswyr, ond yn hytrach o gymhwyso prosesau a gynlluniwyd i gyflawni egwyddorion Llywodraeth Cymru ar adeg anarferol. Yn yr amgylchiadau penodol hyn, rydym yn dod i'r casgliad y byddai wedi bod yn briodol rhoi rhagrybudd, o leiaf, i'r Gweinidog am yr amrywiad rhwng y graddau asesu canolfannau a'r graddau a gyfrifwyd, yn gynharach.

***Argymhellion:***

7.15 Wrth ddatblygu a gweithredu'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021, bydd yn bwysig, er mwyn sicrhau dilyniant dysgwyr yng Nghymru, bod darparwyr addysg uwch a chyflogwyr yn derbyn gwybodaeth glir ac amserol sy'n rhoi hyder iddynt wrth recriwtio o Gymru.

## 8 Y MODELAU SAFONI

8.1 Golygai'r penderfyniad i ganslo cyfres arholiadau haf 2020 fod angen sefydlu dull amgen i gyfrifo graddau cymwysterau. Mae'r llinell amser yn Atodiad 3 yn dangos sut y gweithiodd cymuned cymwysterau y DU gyda'i gilydd i drafod y materion ynghylch datblygu'r modelau, rhannu barn ac arbenigedd, a datblygu dulliau tra debyg. Roedd y modelau a ddatblygwyd ar gyfer Cymru yn alinio â'r dulliau a weithredwyd mewn rhannau eraill o'r DU ac yn ystyried y gwahaniaethau yn system addysg Cymru, y dystiolaeth oedd ar gael, a'r adborth o ymgynghoriad Cymwysterau Cymru (darperir manylion o'r gwahaniaethau hyn yn Atodiad 5).

8.2 Yn y blynyddoedd blaenorol mae marciau arholiadau wedi cael eu rhoi drwy ddwy broses benodol. Mae'r term *cymedroli* wedi cael ei ddefnyddio'n draddodiadol i ddisgrifio proses sy'n monitro safon marcio i sicrhau ei fod yn fanwl gywir a chyson. Mae'r term *safoni* wedi cael ei ddefnyddio i ddisgrifio proses o benderfynu ar ffiniau graddau i sicrhau bod safonau yn gymharol o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2020, defnyddiwyd y term *safoni* i ddisgrifio'r weithred o gyfrifo graddau darogan gan ddefnyddio prosesau ystadegol.[14]

8.3 Nod y modelau safoni yn 2020 oedd darogan graddau ar gyfer pob dysgwr ym mhob cymhwyster. Roedd y graddau darogan hyn yn seiliedig ar y data a gyflwynwyd gan ganolfannau (graddau darogan a safleoedd o fewn pob gradd) a, lle yr oedd ar gael ac yn briodol, data hanesyddol am berfformiad y dysgwyr a pherfformiad y ganolfan.

8.4 Roedd yn rhaid i broses safoni 2020 ddelio â dau ffactor sylweddol a oedd yn newydd i'r gyfres arholiadau honno. Yn gyntaf, nid oedd y data oedd yn cael eu defnyddio gan y modelau yn destun proses gymedroli genedlaethol ac felly roedd yn debygol y byddai ganddynt ddosbarthiad sylweddol wahanol i'r blynyddoedd blaenorol. Yn ail, roedd y data – y graddau a'r safleoedd o fewn pob canolfan – yn sylweddol wahanol i'r data gronynnog iawn (sgoriau arholiadau fel arfer) sy'n dod allan o broses arholiadau.

8.5 Yn 2020, roedd yn rhaid i'r modelau hefyd ddelio ag achosion eithriadol megis canolfannau â charfannau bach lle gallai dulliau ystadegol cyffredin fod yn annibynadwy a chanolfannau neu bynciau lle nad oedd data hanesyddol ar gael.

8.6 Cyfarfu aelodau o'r Panel Adolygu Annibynnol ag ystadegwyr yn CBAC i ddysgu mwy am y modelau a ddefnyddiwyd yn 2020. Mae ystyriaeth fanwl o'r modelau tu hwnt i gylch gwaith yr adolygiad hwn, ond gwelsom dystiolaeth o werthusiad manwl o ddulliau ystadegol gwahanol a lefelau uchel o arbenigedd technegol yn natblygiad y modelau.

8.7 Roedd manylder y modelau yn amrywio ymysg cymwysterau, ond roedd pob un yn defnyddio prosesau ystadegol cymhleth. Roedd y modelau yn gweithio ar set o ddata – fel arfer carfan cymhwyster o fewn canolfan – ac yn darogan y graddau tebygol ar gyfer y dysgwyr yn y set honno. Er y cyhoeddwyd swm trawiadol o ddogfennaeth ategol, roedd natur yr algorithmau yn golygu nad oedd yn bosibl i ganolfannau ail-greu'r broses algorithmig ar gyfer dysgwr unigol.

8.8 Ledled y DU, nododd y cyrff cymwysterau eu bod yn hyderus yn eu defnydd o'r modelau safoni ystadegol hyn. Dywedodd Cymwysterau Cymru wrthym yr oeddent wedi bod yn hyderus y byddai'r modelau safoni hyn yn rhoi set ddigon cadarn o ganlyniadau ac y byddai'r broses apeliadau yn mynd i'r afael â'r achosion hynny na allai'r model ddarparu ar eu cyfer. Gwnaeth trafodaethau gyda

[14] Rydym yn nodi bod y term cymedroli wedi cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r broses hon yn adolygiad profiad cymwysterau 2020 yn yr Alban, a arweiniwyd gan yr Athro Mark Priestly https://www.gov.scot/publications/rapid-review-national-qualifications-experience-2020/

CBAC a gweision sifil yn Llywodraeth Cymru hefyd amlygu'r lefel uchel o hyder yn y dull a oedd yn cael ei weithredu. Roedd yr hyder hwn i weld yn dod o ddwy ffynhonnell. Yn gyntaf, roedd yna hyder o weithio gyda chymuned gymwysterau'r DU a bod mewn aliniad â'r gymuned honno. Yn ail, roedd hyder a gynhyrchwyd o feysydd lle roedd tystiolaeth ychwanegol (e.e. graddau Safon UG ar gyfer graddau Safon Uwch) ar gael i lywio'r radd a gyfrifwyd, gan felly arwain at y farn fod gan Cymru 'well model' (gweler Atodiad 5).

8.9 Fodd bynnag, codwyd pryderon am ddull a oedd yn seiliedig ar ragfynegiadau ystadegol yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Cymwysterau Cymru fis Mai 2020 ac yn y wasg genedlaethol yn y DU.[15] Roedd pryder yn y sylwebaeth gyhoeddus ac yn yr ymatebion i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru am y raddfa y byddai'r modelau safoni yn gostwng y graddau asesu canolfannau ac yn amddifadu dysgwyr o ganlyniadau a oedd yn adlewyrchu eu gwybodaeth a'u galluoedd.

8.10 Clywsom gan ysgolion a cholegau, a'r rhai sy'n eu cefnogi yn y rhanbarthau ac mewn awdurdodau lleol, am absenoldeb tryloywder o amgylch y modelau safoni. Heb dryloywder, ni allai ysgolion a cholegau helpu dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr i ddeall naill ai'r broses na'r canlyniadau. Roedd cymhlethdodau'r modelau safoni yn risg a nodwyd gan Cymwysterau Cymru yn ei gyngor i'r Gweinidog fis Mawrth 2020.

8.11 Roedd y modelau yn destun proses adolygu iteraidd gan Cymwysterau Cymru a chawsant eu cadarnhau fis Gorffennaf 2020. Yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Awst, nododd y Gweinidog nad oedd wedi cael ei hysbysu o raddfa'r gostyngiad yn y graddau nes 10 Awst.

8.12 Roedd y penderfyniad i gymhwyso unrhyw fath o fodel safoni i'r graddau asesu canolfannau yn golygu bod disgwyl rhyw symudiad rhwng y graddau asesu canolfannau a'r graddau safonol, er y daeth graddfa'r symudiad yn ganolog i'r ddadl a ddatblygodd wedi cyhoeddi'r canlyniadau. Cafodd y modelau safoni'r effaith gyffredinol o ostwng 42% o raddau Safon Uwch.[16] Roedd y graddau asesu canolfannau yn cael eu hystyried yn hael ac yn optimistaidd a gwnaeth y modelau gynhyrchu canlyniadau ar lefel genedlaethol a oedd yn disgyn o fewn goddefiadau derbyniol o un flwyddyn i'r llall.

8.13 Ar 12 Hydref, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ddadansoddiad o'r gwahaniaethau rhwng y graddau asesu canolfannau, y graddau safonol a'r graddau terfynol (diwygiedig).[17] Darganfyddodd y dadansoddiad hwn fod y graddau asesu canolfannau, ar gyfartaledd, yn 0.4 gradd yn uwch nag yn 2019 ac eto daeth y cynnydd hwn yn 0.1 gradd wedi'r broses safoni yn 2020. Mae'r ffigyrau cyfartalog hyn yn cuddio aflonyddiadau mwy sylweddol yn y graddau ar gyfer dysgwyr unigol. Yn ein trafodaethau gydag ysgolion, colegau a dysgwyr unigol, clywsom sawl achos lle roedd dysgwyr wedi derbyn graddau a oedd yn sylweddol is na'r graddau a oedd wedi cael eu darogan gan eu hathrawon. Daeth dysgwyr unigol i bob pwrpas yn ddifrod ystadegol ystlysol yn yr ymgyrch i warchod dosbarthiad cyffredinol graddau.

8.14 Mae llawer o'r drafodaeth ynghylch cyfres cymwysterau 2020 wedi canolbwyntio ar ddefnydd algorithmau. Mae'r pwnc hwn yn cael ei drafod yn helaeth yn yr adolygiad yn yr Alban dan

---

[15] Er enghraifft, y brif stori ym mhapur newydd yr i ar 19 Mehefin 2020 https://inews.co.uk/news/education/gcse-a-level-exams-2020-millions-proposed-grades-cut-generous-predictions-england-450236

[16] Trosolwg o ganlyniadau UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yng Nghymru, Cymwysterau Cymru, 13 Awst 2020 – Tabl 1, tudalen 22 https://qualificationswales.org/media/6426/trosolwg-o-ganlyniadau-ug-safon-uwch-a-r-dystysgrif-her-sgiliau-uwch-yng-nghymru-haf-2020.pdf

[17] Amrywiad yng nghanlyniadau cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru, Haf 2020, 12 Hydref 2020 https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amrywiad-yng-nghanlyniadau-cymwysterau-tgau-ug-a-safon-uwch-yng-nghymru-haf-2020/

arweiniad yr Athro Mark Priestly (a nodwyd uchod). Mae dau adolygiad arall sy'n berthnasol i'r maes hwn.

8.15 **Adolygiad o ragfarn mewn penderfyniadau algorithmig gan y Ganolfan Moeseg ac Arloesedd Data**

8.15.1 Rydym yn croesawu cyhoeddiad yr adroddiad hwn[18] gan y Ganolfan Moeseg ac Arloesedd Data. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y materion o ragfarn mewn penderfyniadau algorithmig ac yn ymchwilio i'r defnydd o algorithmau mewn recriwtio, gwasanaethau ariannol, plismona a llywodraeth leol. Fe'i comisiynwyd cyn cyfres cymwysterau 2020, er bod yr adroddiad terfynol yn gwneud sawl cyfeiriad at brofiadau dysgwyr yn 2020.

8.15.2 Nodwn fod y sectorau yr ymchwiliwyd iddynt yn adroddiad y Ganolfan Moeseg ac Arloesedd Data yn defnyddio penderfyniadau a lywir gan algorithmau mewn cyd-destun hollol wahanol i'r ffordd y defnyddiwyd algorithmau yng nghyfres cymwysterau 2020. Roedd y sectorau a gynhwyswyd yn adroddiad y Ganolfan Moeseg ac Arloesedd Data yn tueddu i ddefnyddio penderfyniadau a lywir gan algorithmau yng nghyfnodau cynharach prosesau hirach ac ar y cyd â phenderfyniadau dynol. Yng nghyfres cymwysterau 2020, cynhyrchodd yr algorithmau'r canlyniad terfynol heb elfen o fewnbwn dynol cyn y deilliannau terfynol. Mae effaith gwendidau cynhenid penderfyniadau algorithmig yn cael eu hamlygu'n sylweddol yn achos cyfres cymwysterau 2020.

8.15.3 Er bod adolygiad y Ganolfan Moeseg ac Arloesedd Data yn edrych yn benodol ar faterion o ragfarn, mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn cyffwrdd ar rai o'r problemau ehangach sy'n gysylltiedig â defnyddio algorithmau wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ac mae llawer i'w ddysgu o'r adroddiad hwn. Yn arbennig, rydym yn cefnogi'r egwyddor a osodir yn argymhelliad 16 o adroddiad y Ganolfan Moeseg ac Arloesedd Data:

> *Dylai **llywodraeth** roi rhwymedigaeth orfodol am dryloywder i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus sy'n defnyddio algorithmau sydd â dylanwad sylweddol ar benderfyniadau sylweddol sy'n effeithio ar unigolion. Dylai llywodraeth gynnal prosiect i gwmpasu'r rhwymedigaeth hon yn fanylach, ac i dreialu dull i'w gweithredu, ond dylai fod angen y cyhoeddiad rhagweithiol o wybodaeth ar sut y cafodd y penderfyniad i ddefnyddio algorithm ei wneud, y math o algorithm, sut y caiff ei ddefnyddio yn y broses gyffredinol o wneud penderfyniadau, a'r camau a gymerir i sicrhau triniaeth deg o unigolion.*

**8.16** **Adolygiad o'r dull ar gyfer datblygu modelau ystadegol a ddyluniwyd ar gyfer dyfarnu canlyniadau arholiadau 2020 gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau**

Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi lansio adolygiad o'r materion ynglŷn â chyfres cymwysterau 2020. Mae'r adolygiad hwn yn mynd i'r afael â dau gwestiwn allweddol:

- I ba raddau wnaeth y dull o ddatblygu a chyfathrebu'r modelau gefnogi hyder y cyhoedd yn yr allbynnau?
- I ba raddau oedd yr algorithmau a ddatblygwyd yn briodol ar gyfer eu diben bwriadedig?

Bydd yr adolygiad yn edrych ar ddigwyddiadau ledled y DU a bydd yn ystyried gwersi o'r digwyddiadau hyn sy'n berthnasol ledled y sector cyhoeddus wrth ystyried defnydd modelau

[18] Adolygiad o ragfarn mewn penderfyniadau algorithmig, a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Moeseg ac Arloesedd Data, 27 Tachwedd 2020 https://www.gov.uk/government/publications/cdei-publishes-review-into-bias-in-algorithmic-decision-making

ystadegol i gefnogi penderfyniadau. Bydd adolygiad y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau 2021.

---

***Crynodeb o'r canfyddiadau***

8.17 Rhoddwyd gormod o hyder yng ngallu modelau ystadegol i ddarogan y canlyniadau cywir ar gyfer dysgwyr unigol.

8.18 Pan ddaeth graddfa'r israddio i'r amlwg, mae'n ymddangos na ddarparodd y fframwaith llywodraethu a oedd yn adolygu a chadarnhau'r modelau safoni her gadarn yn ôl i'r cyfeiriad polisi cychwynnol. Mae'r digwyddiadau dilynol yn awgrymu bod y lefel hon o israddio yn ganlyniad anfwriadedig o'r polisi.

8.19 Nid oedd modelau safoni 2020 wedi'u deall yn dda yn gyffredinol y tu hwnt i'r gymuned arbenigol o sefydliadau cymwysterau. Cafodd y broblem hon ei gwaethygu gan ddefnydd dryslyd ac anghyson o dermau allweddol yn y drafodaeth gyhoeddus ehangach ynglŷn â chyfres cymwysterau 2020.

***Argymhellion***

8.20 Dylid osgoi'r defnydd o algorithmau awtomatig i ddarogan graddau unigol yn y dyfodol.

8.21 Wrth lywodraethu a goruchwylio gweithrediadau polisi pwysig, dylai fod mecanweithiau adborth cadarn i brofi a sicrhau amcanion polisi.

8.22 Dylid gwella dealltwriaeth ehangach y cyhoedd o brosesu cymwysterau – o asesu i ddyfarnu – drwy gyfathrebu'n well a'r defnydd o dermau clir sydd wedi'u diffinio'n dda.

## 9 THEMÂU TRAWSBYNCIOL

Mae penodau 1 i 8 o'n hadroddiad wedi canolbwyntio ar y digwyddiadau ynghylch dyfarnu a graddio cymwysterau 2020, y camau a gymerwyd, a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae yna faterion yr ydym wedi'u nodi, sy'n mynd y tu hwnt i benderfyniadau a wnaed yn ystod yr argyfwng hwn, sy'n systemig ac yn drawsbynciol i'r graddau y maent wedi effeithio ar bob elfen o ddigwyddiadau 2020 ac yn egluro rhai o'r cymhlethdodau a gododd. Mae Pennod 9, felly, yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

### 9.1 Arweinyddiaeth a llywodraethu

9.1.1 O ran y strwythurau arweinyddiaeth a llywodraethu allweddol[19] o fewn system addysg Cymru, crëwyd model tair haen o gyfrifoldeb ac atebolrwydd i gyflawni a chefnogi'r prif ofynion polisi a amlinellir yn 'Cenhadaeth ein Cenedl' (Cynllun Gweithredu 2017). Cynlluniwyd y strwythurau arweinyddiaeth a llywodraethu hyn er mwyn cefnogi 'system addysg sy'n hunanwella' sy'n cwmpasu haen ganol o sefydliadau rhwng Llywodraeth Cymru ac ysgolion, gan gynnwys consortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru a CBAC.

9.1.2 Mae system addysg Cymru yn gwahanu swyddogaethau arweinyddiaeth rhwng, yn ogystal ag o fewn, y gwahanol haenau, gyda disgwyliad clir i'r holl sefydliadau weithio ar y cyd i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr yng Nghymru yn y ffordd orau. Mae arweinyddiaeth system o'r fath yn gofyn am gyfathrebu clir a chydweithio clir ledled y gwahanol haenau i weithio'n fwyaf effeithiol.

9.1.3 Golyga'r argyfwng COVID-19 y cafodd yr haen ganol, sydd prin wedi'i phrofi, ei herio mewn ffyrdd nad oedd wedi cael ei herio ynghynt. Roedd datblygu a gweithredu newidiadau mawr yn sydyn o dan amodau hynod anodd yn sicr yn gymhleth, felly roedd angen arweinyddiaeth ofalus, strategol ac ymatebol ar bob lefel yn y system i wneud cynnydd. Roedd amserlenni heriol, wedi'u halinio ag ystod lawn o faterion ymarferol a gynhyrchwyd gan y pandemig, yn gwneud gweithio o fewn ac ar draws y system addysg yn eithriadol o anodd.

9.1.4 Gosododd yr amgylchiadau digynsail a ddaeth yn sgil COVID-19, a'r effaith ddilynol ar gymwysterau yn 2020, ofynion anghyffredin ac anrhagweladwy ar yr arweinyddiaeth mewn sawl rhan o system addysg Cymru. Wrth i ni weld tystiolaeth o fwy o gyfathrebu cyson rhwng rhai rhannau o'r system, nid oedd yr hyblygrwydd a'r meddwl creadigol yr oedd eu hangen i fynd i'r afael yn llawn â'r heriau o symud i ffwrdd o arholiadau mor amlwg. Clywsom gan sawl ffynhonnell am sut arhosodd sefydliadau allweddol yn gaeth i'w ffiniau gweithredu yn hytrach na chyfrannu at y fath o gydweithio go iawn sy'n ddilysnod system addysg aeddfed.

9.1.5 Rydym wedi dod i'r casgliad y cafodd y gyfres o benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â dyfarnu graddau yn haf 2020, a'r sgil effeithiau a oedd ynghlwm wrth y penderfyniadau hynny, eu llywio'n uniongyrchol gan Cymwysterau Cymru a CBAC ac y gwnaethant adlewyrchu diwylliannau sylfaenol y ddau sefydliad allweddol hyn yn yr haen ganol â chyfrifoldeb dros arholiadau a chymwysterau.

9.1.6 Yn ein hadroddiad interim, gwnaethom ddatgan nad allem nodi, ymysg y rhai sy'n arwain y gwaith ar y newidiadau, lle roedd y trosolwg trosfwaol a chydlynol o'r darlun llawn o newid a oedd yn

[19] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf

digwydd ym maes asesu yng Nghymru drwy haf 2020 yn cael ei ddal. Nid oedd lleoliad lle yr oedd pob darn o waith yr oedd angen ei gwblhau yn cael ei oruchwylio gyda'i gilydd ac yr oedd y rhyngddibyniaethau'n cael eu hadolygu. Yn hytrach, caniataodd yr ymlyniad agos wrth gylchoedd gwaith a chyfrifoldebau sefydliadol i fylchau ymddangos a lleisiau ac opsiynau amgen gael eu hanwybyddu. Rydym wedi dod i'r casgliad na wnaeth y diffyg trosolwg cydlynol wasanaethu system addysg Cymru na'i dysgwyr yn dda ac, yn dilyn hyn, profodd y modd y cafodd cyfrifoldebau eu haenu i fod yn hollol annigonol ar gyfer heriau haf 2020.

9.1.7 Er ein bod yn cydnabod y cymhlethdod oedd ynghlwm wrth wneud penderfyniadau am haf 2020, unwaith y penderfynwyd na fyddai arholiadau yn mynd yn eu blaenau, roedd yn glir bod gwir angen arweinyddiaeth gydlynol, gydweithredol a thryloyw, gyda llinellau cyfathrebu ac atebolrwydd clir. Gallai dull o'r fath fod wedi sicrhau bod buddiannau pawb yn y system, o'r llywodraeth i'r dysgwr, wedi'u hadlewyrchu'n iawn a bod cynlluniau cyfathrebu cydlynol â ffocws wedi'u rhoi ar waith, gan sicrhau bod y gwahanol randdeiliaid yn derbyn y cyfathrebu pwrpasol yr oedd ei angen arnynt a'u bod yn deall yr angen am y newid oedd ar y gweill a'r ffurf yr oedd hwn yn ei chymryd. .

9.1.8 Mynegodd Cymwysterau Cymru a CBAC eu hyder yn y prosesau safoni ystadegol dro ar ôl tro drwy gydol haf 2020. Roedd yr hyder hwn, awgrymon nhw, yn seiliedig ar allu'r prosesau hynny i gyflenwi proffil o raddau a gyfrifwyd a fyddai'n gyson â phatrymau hanesyddol ac yn lleddfu unrhyw haelioni ymddangosiadol drwy asesiadau athrawon. Arweiniodd hyder o'r fath at y prif ffocws o egni a sylw yn cael ei roi at ddatblygu modelau ystadegol, ar draul datblygu a gwella dibynadwyedd mewnbynnau gan y canolfannau. Y canlyniad rhwng popeth oedd ffocws ar gynnal hyder yn y system gyffredinol, neu 'gadw'r system mewn un darn', fel y dywedwyd wrthym, ar draul sicrhau canlyniadau teg ar gyfer dysgwyr unigol. Rydym wedi trafod ym mhenodau 4, 5 a 6 y cyfleoedd a gollwyd i gynnal proses o gymedroli graddau asesu canolfannau neu i gynnal sgyrsiau proffesiynol ag ysgolion a cholegau.

9.1.9 Rydym hefyd wedi nodi mewn man arall yn yr adroddiad hwn na chyrchwyd safbwyntiau amgen gan Cymwysterau Cymru a CBAC er gwaethaf cynnwrf digyffelyb a radical y system gymwysterau yn 2020. Mewn cyferbyniad amlwg, cafodd y penderfyniad i ddychwelyd i'r ysgol ym mis Gorffennaf 2020 ei lywio gan arolwg y Comisiynydd Plant 'Coronafeirws a Fi', gyda dros 23,700 o ymatebion. Gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd ymgynghori yn eang ledled y system â rhanbarthau, awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod pob parti yn gytûn ac yn cefnogi'r cynlluniau. Sicrhaodd graddfa ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a'i pharodrwydd i wrando ar safbwyntiau amgen bod y dychweliad i'r ysgol mor effeithiol ag y gallai fod o dan yr amgylchiadau.

9.1.10 Mewn crynodeb, ni allem weld sut roedd yr holl ffrydiau gwaith yr oedd angen eu cwblhau ar frys ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020 yn cael eu harwain, eu goruchwylio, eu profi, eu hadolygu, neu eu hasesu yn erbyn risg. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu datgysylltiad sylweddol mewn cyfathrebu ledled cyrff yn yr haen ganol, ac ag ysgolion a cholegau, a gwnaeth hyn achosi dryswch am le yr oedd cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn gorwedd ar gyfer camau penodol.

9.1.11 Rydym wedi dod i'r casgliad y byddai ymateb traws-sefydliadol a chydgysylltiedig oedd wedi'i arwain yn glir, ac a fyddai wedi dod ag amryw o ffrydiau gwaith a chyrff amrywiol at ei gilydd, wedi rhoi canlyniadau tecach ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru ac y byddai wedi cyfyngu ar y gofid a achoswyd i'r dysgwyr a'u teuluoedd gan ddigwyddiadau 2020. Mae'n amlwg erbyn hyn na wnaeth yr ymlyniad wrth brosesau normadol o wneud penderfyniadau drin dysgwyr yn dda a bod gwrando ar ddysgwyr yn wers hanfodol ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddyfarnu cymwysterau a chynnal asesiadau sy'n arwain at gymwysterau cenedlaethol.

9.1.12 Fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 1.4.2 uchod, o dan ddarpariaethau Adran 8 o Ddeddf Cymwysterau Cymru, gall Cymwysterau Cymru weithio ar y cyd â rhywun arall, os bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried bod hyn yn briodol, mewn cysylltiad ag unrhyw un o swyddogaethau Cymwysterau Cymru. Rydym felly wedi dod i’r casgliad ei fod o fewn cylch gwaith Cymwysterau Cymru i fod wedi tynnu arbenigedd at ei gilydd i gynorthwyo gyda chydlynu, cydgysylltu a rheoli'r rhaglen.

9.1.13 Wrth edrych tuag at 2021, rydym yn argymell bod rhoi buddiannau dysgwyr wrth wraidd unrhyw broses o wneud penderfyniadau yn hollbwysig i adennill ymddiriedaeth ac i ailadeiladu hyder a sicrwydd, sydd eu hangen yn fawr, yn y broses asesu a chymhwyso. Mae angen arweinyddiaeth fwy ymatebol bellach, gan Cymwysterau Cymru a CBAC, i weithredu er budd pob dysgwr yng Nghymru mewn ffyrdd sydd yn fwy cynhwysol ac yn sylweddol gydnaws â ffyrdd cydweithredol o weithio.

---

***Crynodeb o’r canfyddiadau***

9.1.14 Cafodd y gyfres o benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru oedd yn ymwneud â dyfarnu graddau yn haf 2020, a'r sgil effeithiau a ddaeth ynghyd â'r penderfyniadau hynny, eu llywio yn uniongyrchol gan Cymwysterau Cymru a CBAC, ac roeddent yn adlewyrchu diwylliannau sylfaenol y ddau sefydliad allweddol hyn yn yr haen ganol â chyfrifoldeb dros arholiadau a chymwysterau.

9.1.15 Caniataodd ymlyniad agos wrth gylchoedd gwaith sefydliadol i fylchau ymddangos ac anwybyddwyd lleisiau ac opsiynau amgen. Nid oedd y diffyg trosolwg cydlynol hwn yn gwasanaethu system addysg Cymru na'i dysgwyr yn dda ac, yn dilyn hyn, profodd y modd y cafodd cyfrifoldebau eu haenu i fod yn hollol annigonol ar gyfer heriau haf 2020.

9.1.16 Byddai ymateb traws-sefydliadol a chydgysylltiedig oedd wedi'i arwain yn glir, ac a fyddai wedi dod ag amryw o ffrydiau gwaith a chyrff amrywiol at ei gilydd, wedi rhoi canlyniadau tecach ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru ac y byddai wedi cyfyngu ar y gofid a achoswyd i'r dysgwyr a'u teuluoedd.

***Argymhellion***

9.1.17 Mae gwrando ar ddysgwyr yn wers hanfodol ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddyfarnu cymwysterau a chynnal asesiadau sy'n arwain at gymwysterau cenedlaethol. Mae rhoi buddiannau'r dysgwr wrth wraidd unrhyw broses barhaus o wneud penderfyniadau yn hollbwysig i adennill ymddiriedaeth ac i ailadeiladu hyder a sicrwydd, sydd fawr eu hangen, yn y broses asesu a chymhwyso.

9.1.18 Mae angen arweinyddiaeth fwy ymatebol bellach, gan Cymwysterau Cymru a CBAC, i weithredu er budd pob dysgwr yng Nghymru mewn ffyrdd sydd yn fwy cynhwysol ac yn sylweddol gydnaws â ffyrdd cydweithredol o weithio.

9.1.19 Mae cwblhau'r adolygiad hwn a’n dadansoddiad wedi cryfhau ein barn bod strwythur arweinyddiaeth trosfwaol a chydgysylltiedig, dan gadeiryddiaeth annibynnol, yn hollbwysig i’r gwaith llwyddiannus o ddylunio a chyflawni’r dull cytunedig o ddyfarnu graddau ar gyfer haf 2021.

## 9.2 Tegwch i bob dysgwr

9.2.1 Rydym wedi amlinellu ym Mhennod 3 sut yr oedd tegwch i bob dysgwr yn egwyddor graidd a fewngorfforwyd yn neunydd a datblygiad y dull o ddyfarnu cymwysterau yn 2020. Clywsom gan Cymwysterau Cymru a CBAC sut y gwnaethant ddatblygu a gweithredu eu dull cytunedig. Clywsom hefyd gan randdeiliaid, gan gynnwys y Senedd Ieuenctid, o brofiadau byw pobl ifanc wrth i'r dull cytunedig i gyfrifo graddau achosi canlyniadau a oedd yn annisgwyl ac anodd eu hesbonio i lawer. Clywsom yn uniongyrchol sut y collodd dysgwyr eu lle yn eu prifysgol dewis cyntaf o ganlyniad i'r dull hwn a sut y tarfwyd ar eu huchelgeisiau gyrfa, neu cafodd yr uchelgeisiau hyn eu gwrthdroi, gan y broses hon. Rydym wedi dod i'r casgliad na chafodd yr egwyddor o degwch i bob dysgwr ei gwireddu yn haf 2020 ac, mewn gwirionedd, y cafodd anghydraddoldebau eu gwaethygu gan y dull a ddefnyddiwyd.

9.2.2 O ran hawliau plant a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae dogfennau sydd wedi'u rhannu gan Cymwysterau Cymru yn dangos y cynhaliwyd dadansoddiadau effaith yn 2020, ac amlygwyd pryderon o ran dyfarnu graddau teg, yn enwedig i grwpiau penodol o ddysgwyr. Nodwyd pryderon am duedd fwriadedig neu anfwriadedig o fewn graddau asesu canolfannau. Cododd y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Comisiynydd Plant bryderon tebyg a dywedasant wrthym y bu ystyriaeth annigonol o'r dadansoddiadau hyn mewn gwaith dilynol ac na roddwyd camau lliniaru effeithiol ar waith gan Cymwysterau Cymru a CBAC.

9.2.3 Gwnaethom nodi y codwyd pryderon difrifol y byddai rhai grwpiau o fyfyrwyr, er enghraifft y rhai o gefndir pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn derbyn triniaeth lai ffafriol o ganlyniad i duedd ddiarwybod mewn asesiadau gan ganolfannau. Codwyd y pryderon hynny yn ymgynghoriad Cymwysterau Cymru a'u hadleisio yn y nifer fawr o gyfweliadau a gynhaliwyd gennym. Clywsom sut yr oedd byw mewn tlodi yn amddifadu llawer o ddysgwyr o'r manteision a gymerwyd yn ganiataol gan eraill, megis mynediad at ddyfeisiau digidol a mynediad di-dor at y rhyngrwyd. Gwnaeth y rhai o gefndiroedd BAME, a dynnwyd at ei gilydd drwy'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST), amlygu'r effaith anghymesur y cydnabyddir bod COVID-19 wedi'i chael ar gymunedau BAME. Dywedodd cyfranwyr o gefndiroedd ffoaduriaid ac o deuluoedd lle yr oedd Saesneg yn ail iaith yn y cartref wrth y panel eu bod yn aml yn teimlo fel nad ydynt yn cael eu 'hadnabod' neu gydnabod mewn ysgolion neu golegau, yn enwedig lle'r oeddent â hanes addysgol byr.

9.2.4 O ystyried y pryderon pwysig hyn, byddai disgwyl bod camau lliniaru wedi'u hystyried i wrthdroi'r risgiau a godwyd. Darparodd Cymwysterau Cymru a CBAC wybodaeth i ni ar sut roeddent wedi bodloni eu rhwymedigaethau o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Er enghraifft, roedd canllawiau CBAC yn cynnwys cyfeiriadau penodol at fyfyrwyr sy'n derbyn trefniadau mynediad, y rhai y mae cais am addasiadau rhesymol wedi'i gyflwyno ar eu cyfer, a hefyd canllawiau ar sicrhau gwrthrychedd mewn dyfarniadau asesu canolfannau. Yn yr un modd, roedd gofyn i benaethiaid canolfannau gadarnhau eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth iddynt arwyddo'r datganiad i gyflwyno data asesu'r ganolfan. Mae'r addewidion hyn, er eu bod yn rhywbeth i'w groesawu, yn ymddangos ychydig yn ddatgysylltiedig oddi wrth natur y risgiau a fynegwyd. Rydym wedi dod i'r casgliad bod y risgiau hynny i ddysgwyr wedi aros gan nad oedd hyfforddiant nac unrhyw gymedroli allanol wedi'u cymhwyso i brosesau penderfynu graddau asesu canolfannau.

9.2.5 Rydym wedi dod i'r casgliad bod rhaid bellach i'r holl wersi o 2020 lywio asesiadau manylach o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau plant y gellir gweithredu arnynt ar gyfer 2021. Gan fod penderfyniad cynnar wedi'i wneud ynglŷn ag arholiadau 2021, mae amser digonol bellach i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu defnyddio fel offerynnau ffurfiannol i sicrhau bod y dull a

fabwysiadwyd ar gyfer 2021 yn cael ei brofi er mwyn sicrhau ei fod yn cyflenwi tegwch i bob dysgwr. Cynigiodd y Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eu cymorth gydag asesiadau effaith 2021, ac rydym yn tynnu sylw'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a Cymwysterau Cymru at y cynigion hynny. Bydd cydweithio a chydweithredu yn gynnar yn bwysig i sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau o ddysgwyr penodol â graddau gwahanol o anfantais yn peidio â chael eu trin yn gyfartal ac yn deg.

9.2.6 Mae llawer o'r disgwrs ynghylch 'tegwch' yn y cyfryngau dros haf 2020, yr oedd ar adegau yn bygwth dominyddu'r broses o greu polisïau, wedi canolbwyntio ar sicrhau nad yw'r myfyrwyr mwyaf galluog o dan anfantais yn y gystadleuaeth â'u cyfoedion ledled y DU ar gyfer lleoedd ar y cyrsiau mwyaf cystadleuol mewn prifysgolion. Nodwn fod rhaid i degwch i bob dysgwr gwmpasu pob dysgwr sy'n dibynnu ar y system gymwysterau i gefnogi ei gynnydd, beth bynnag fo'i gefndir a beth bynnag yw natur y cymwysterau mae'n eu cyrchu i wireddu ei ddyheadau.

***Crynodeb o'r canfyddiadau***

9.2.7 Ni wireddwyd yr egwyddor o degwch i bob dysgwr yn haf 2020 a chafodd anghydraddoldebau eu gwaethygu gan y dull a ddefnyddiwyd.

9.2.8 Er y cynhaliwyd dadansoddiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau plant yn 2020 gan Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC, rhoddwyd ystyriaeth annigonol i'r dadansoddiadau hyn mewn gwaith dilynol ac ni roddwyd camau lliniaru effeithiol ar waith gan Cymwysterau Cymru a CBAC.

***Argymhellion***

9.2.9 Mae'n rhaid i degwch i bob dysgwr fod yn elfen ganolog a gweladwy sydd wedi'i gwireddu'n glir yn y cynllunio ar gyfer 2021. Mae'n rhaid i degwch i bob dysgwr gwmpasu pob dysgwr sy'n dibynnu ar y system gymwysterau i gefnogi ei gynnydd, beth bynnag fo'i gefndir a beth bynnag yw natur y cymwysterau mae'n eu cyrchu i wireddu ei ddyheadau.

9.2.10 Rhaid bellach i wersi o 2020 lywio asesiadau manylach y gellir eu gweithredu arnynt o'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau plant ar gyfer 2021. Cynigiodd y Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eu cymorth gydag asesiadau effaith 2021, ac rydym yn tynnu sylw'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a Cymwysterau Cymru at y cynigion hynny.

## 9.3 Ymgynghori, cyfathrebu ac ymgysylltu

9.3.1 O'n cyfweliadau, roedd safbwynt cryf a chyson gan ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill nad oedd wedi neb wedi gwrando arnynt, ac, yn wir, nad ymgynghorwyd â hwythau am ddatblygiadau yn y cyfnod cyn haf 2020. Clywsom sut yr oedd myfyrwyr wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth ymysg ei gilydd am yr hyn oedd yn digwydd ac nad oedd sianeli cyfathrebu parhaus a chlir yn agored ar gyfer myfyrwyr, gan achosi pryder, dryswch a rhwystredigaeth sylweddol iddynt. Gwnaethom arsylwi sut y bu ymgysylltiad uniongyrchol cyfyngedig â phobl ifanc gan y sefydliadau craidd ac y bu gorddibyniaeth ar ysgolion a cholegau i hysbysu pobl ifanc o ddatblygiadau.

9.3.2 Wrth ddatblygu'r dull ar gyfer 2020, cynhaliodd Cymwysterau Cymru ymgynghoriad ffurfiol, a oedd yn cynnwys ysgolion, colegau a dysgwyr, ar y dull safoni ac ar y broses apeliadau. Roedd y cyfathrebu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw yn ôl i'r cyfranogwyr drwy Adroddiad

Penderfyniadau Cymwysterau Cymru a chafodd y dull terfynol ei gyhoeddi ar ei wefan. Clywsom bryder ysgubol gan athrawon ac arweinwyr ysgolion a cholegau nad oedd y pryderon a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn wedi'u hystyried neu wedi eu cyfeirio atynt yn y dull a weithredwyd wedi hynny. Clywsom fod y dull y cytunwyd arno o ddyfarnu graddau wedi'i 'wneud ar eu cyfer' yn hytrach nac wedi'i 'wneud gyda hwy', gan gwestiynu pwrpas yr ymgynghoriad a'i ddylanwad. Cadarnhaodd ein harolwg ar-lein hefyd y safbwynt fod yna ddull cyfathrebu o'r brig i'r bôn.

9.3.3 Ledled grwpiau ymateb yn ein harolwg, roedd ymwybyddiaeth o ymgynghoriad Cymwysterau Cymru yn gyffredinol isel, ac roedd canfyddiadau o ganlyniadau'r broses yn wael. Ar gyfartaledd, ledled yr holl grwpiau o ymatebwyr, roedd y rhai a oedd yn ymwybodol fod ymgynghoriad Cymwysterau Cymru wedi digwydd yn fwy tebygol o feddwl bod y trefniadau dilynol wedi cymryd eu barn i ystyriaeth (36.3% o'r rhai oedd yn ymwybodol o gymharu â 7.2% o'r rhai nad oeddent yn ymwybodol o'r ymgynghoriad). Er bod y canfyddiad hwn yn awgrymu bod perthynas gadarnhaol rhwng gwybodaeth ac ymgysylltu a'r agweddau a chanfyddiadau dilynol o ganlyniadau'r ymgynghoriad, mae un o bob tri o ymatebwyr a wnaeth ymgysylltu yn teimlo bod eu safbwyntiau wedi eu hystyried yn gyfran isel.

9.3.4 Roedd arweinwyr ysgolion a cholegau y gwnaethom siarad â hwy yn teimlo y gellid bod mwy o ddefnydd wedi'i wneud o'u profiad rheng flaen ac o adborth gan y cyrff hynny oedd yn dylunio'r system ar gyfer 2020 a byddai hyn wedi helpu i sicrhau y gellid gweithredu'r dull yn deg yn y canolfannau. Nid oedd mewnbwn o'r fath yn cael ei gyrchu'n weithredol gan Cymwysterau Cymru ar adegau allweddol o'r broses ddylunio. Adroddwyd bod cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng ysgolion a cholegau a'r cyrff arweiniol yn bell o'r optimwm.

9.3.5 Dywedwyd wrthym fod Grŵp Rhanddeiliaid Penaethiaid CBAC wedi'i werthfawrogi gan gyfranogwyr a nodwyd bod arno gynrychiolaeth uniongyrchol o arweinwyr ysgolion a cholegau. Dywedodd aelodau o'r grŵp hwn eu bod yn teimlo eu bod wedi derbyn gwybodaeth am y camau nesaf ac y gwahoddwyd iddynt roi sylw ar sut roedd cynigion yn cael eu gweithredu. I'r gwrthwyneb, roedd grwpiau rhanddeiliaid Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried yn llai cynhwysol o safbwyntiau arweinwyr ysgolion a cholegau, gan ddenu aelodau o grwpiau cynrychioliadol y sector, ac yn tueddu i ganolbwyntio ar gyflenwi gwybodaeth yn hytrach na deialog. Yn ein trafodaethau â swyddogion addysg Llywodraeth Cymru ar y pwynt hwn, roeddem wedi'n calonogi gan y ffaith eu bod yn bwriadu cynnwys arweinwyr ysgolion a cholegau yn fwy uniongyrchol yn y dyfodol.

9.3.6 Cawsom ein hysbysu hefyd o gynigion amrywiol o gymorth gan Colegau Cymru a chan gonsortia rhanbarthol i Cymwysterau Cymru i hwyluso ymgysylltu â chanolfannau ac i gefnogi'r gwaith o ddylunio a chyflawni’r dull o ddyfarnu graddau yn gyffredinol a chymwysterau galwedigaethol yn 2020. Clywsom na fanteisiodd Cymwysterau Cymru ar y cynigion hyn o gymorth.

9.3.7 Clywsom gan dimau arweinyddiaeth mewn ysgolion a cholegau eu bod wedi derbyn swmp enfawr o wybodaeth gan Cymwysterau Cymru a CBAC mewn perthynas â phrosesau haf 2020, ond bod angen dehongli a choladu llawer o’r wybodaeth hon i helpu eu staff i’w deall. Clywsom pa mor ddefnyddiol oedd yr undebau llafur a Colegau Cymru wedi bod i ysgolion a cholegau wrth ddehongli'r canllawiau hyn a chynnig cyngor lle'r oeddent yn gallu. Fodd bynnag, roedd yn bennaf yn nwylo arweinwyr ysgolion a cholegau i ddehongli a distyllu gwybodaeth allweddol cyn ei rhannu gydag athrawon ac ymlaen i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr.

9.3.8 Clywsom hefyd gan y colegau eu bod wedi profi tarfiad i'r berthynas arferol â rhai cyrff dyfarnu cymwysterau galwedigaethol o ganlyniad i roi staff yng Nghymru ar ffyrlo yr oedd eu hangen i

helpu i wneud trefniadau ar gyfer canlyniadau neu i roi cyngor. Mewn rhai achosion, cafodd staff eu rhoi ar ffyrlo ar batrwm cylch, a darfodd ar barhad cyngor ymhellach.

9.3.9 Rydym yn ymwybodol o Fframwaith a Dull Rheoleiddio [20] cyhoeddedig Cymwysterau Cymru, sy'n gosod pum egwyddor rheoleiddio da[21] a sut y bydd Cymwysterau Cymru yn gweithio i'w cyflawni. Mae fframwaith Cymwysterau Cymru hefyd yn gosod ffyrdd o weithio a gwerthoedd sylfaenol sy'n pwysleisio'r angen am weithio meddylgar ar y cyd ag eraill. Mae Adran 4 o'r fframwaith yn ymdrin ag Ymgysylltu, Cyfathrebu a Chydweithio ac yn gosod ffordd o weithio yr ydym yn ei chymeradwyo fel sail ar gyfer gweithio traws-haenau aeddfed. Yn amgylchiadau cyffredinol gwanwyn a haf 2020, fodd bynnag, gwnaethom arsylwi bod dull ymgysylltu cydweithredol o'r fath yn absennol.

9.3.10 Rydym wedi dod i'r casgliad y gosodwyd gormod o ddibyniaeth ar y broses ymgynghori ffurfiol a roddwyd ar waith gan Cymwysterau Cymru fel sail ar gyfer adborth ac ymgysylltiad digonol gan randdeiliaid. Dywedodd Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC wrthym eu bod yn ymwybodol iawn o beidio ag ychwanegu at lwyth gwaith ysgolion a cholegau yn ddiangen yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, mae mabwysiadu offerynnau ar-lein wedi llacio beichiau cyfathrebu ac ymgynghori, gan dynnu rhwystrau daearyddol rhag cymryd rhan a hyrwyddo cydweithio mwy effeithiol ac effeithlon ledled Cymru. Nodwn y cafodd y cyfle i addasu dulliau o gyfathrebu ag ysgolion a cholegau a chroesawu lleisiau arbenigol ychwanegol ei fethu, ynghyd â'r cyfle i lywio rhai o'r penderfyniadau hollbwysig a wnaed a lliniaru rhai o ganlyniadau'r penderfyniadau hyn.

9.3.11 Argymhellwn y dylai ymgynghoriad mwy cynhwysol ac ymgysylltu dwyffordd cryfach â'r holl randdeiliaid fod yn flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC wrth symud ymlaen.

9.3.12 Rydym wedi dod i'r casgliad bod graddfa'r gwahaniaethau rhwng graddau asesu canolfannau a'r graddau a gyfrifwyd gan y modelau safoni, a'r anhrefn a ddilynodd o'r tro pedol anochel a ddilynodd ar y canlyniadau, wedi tanseilio ymddiriedaeth broffesiynol yn y system gymwysterau yn sylweddol. Clywsom gan grwpiau amrywiol mai eu prif bryder o hyd yw'r chwalfa sylweddol yn yr ymddiriedaeth rhwng y rheoleiddiwr a chorff arholi a'r proffesiwn addysgu o ganlyniad i'r dull gweithredu a gymerwyd yn 2020. Mae angen ailadeiladu'r ymddiriedaeth hon gan y ddau sefydliad er budd holl ddysgwyr Cymru drwy ddeialog ystyrlon ac ymgysylltu uniongyrchol â gweithwyr addysgu proffesiynol wrth ddylunio system gymwysterau gadarn, ddibynadwy a theg ar gyfer y dyfodol.

9.3.13 Wrth edrych ar y gwaith o gyfleu gwybodaeth i randdeiliaid, dangosodd yr ymatebion i'n harolwg fod y farn gyffredinol am ba mor dda oedd y dull terfynol wedi'i gyfleu iddynt yn tueddu i fod yn negyddol. Ledled pob grŵp o ymatebwyr, gwnaeth 50.5% o'r ymatebwyr anghytuno neu anghytuno'n gryf bod y broses wedi'i chyfathrebu'n dda. Ym Mhennod 7 uchod, rydym hefyd wedi nodi bod diffyg cyfathrebu â phrifysgolion pan wnaed y penderfyniad i ddyfarnu'r uchaf o un ai gradd asesu'r ganolfan neu'r radd a gyfrifwyd. Mae angen rheoli cyfathrebu effeithiol o'r dull, a'r rhesymau y gellir ymddiried ynddo i gyflenwi canlyniadau cadarn a chredadwy, drwy gynllun cyfathrebu cydlynol sy'n cynnwys pob rhanddeiliad.

9.3.14 Mae'r newidiadau sydd bellach ar waith i'r trefniadau ar gyfer 2021 yn cynrychioli rhaglen newid sylweddol ac mae effaith y newid hwnnw, a'r diddordeb ynddo, yn helaeth. Mae angen i gyfathrebu â rhanddeiliaid fod yn glir, yn gryno, yn amserol ac wedi'i deilwra, ac rydym yn argymell

[20] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/fframwaith-a-dull-gweithredu/

[21] Better Regulation Task Force, Principles of Good Regulation: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100407173247/http://archive.cabinetoffice.gov.uk/brc/upload/assets/www.brc.gov.uk/principlesleaflet.pdf

yn gryf bod cynllun cyfathrebu cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael ag anghenion yr holl randdeiliaid - gan gynnwys dysgwyr, prifysgolion a chyflogwyr - yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan y sefydliadau allweddol. Mae'n rhaid i gynllun o'r fath nodi cyfrifoldebau ar gyfer cyflawni gyda phob cynulleidfa a datblygu proses o fonitro effeithiolrwydd y negeseuon a'r ddealltwriaeth ohonynt.

***Crynodeb o'r canfyddiadau:***

9.3.15 Gosodwyd gormod o ddibyniaeth ar y broses ymgynghori ffurfiol a roddwyd ar waith gan Cymwysterau Cymru fel sail ar gyfer adborth ac ymgysylltiad digonol gan randdeiliaid.

9.3.16 Methwyd ar y cyfle i addasu dulliau cyfathrebu ag ysgolion a cholegau a chroesawu lleisiau arbenigol ychwanegol, ynghyd â'r cyfle i lywio rhai o'r penderfyniadau hollbwysig a wnaed a lliniaru rhai o ganlyniadau'r penderfyniadau hyn.

9.3.17 Mae chwalfa sylweddol wedi bod yn yr ymddiriedaeth rhwng y rheoleiddiwr a chorff arholi a'r proffesiwn addysgu o ganlyniad i'r dull a weithredwyd yn 2020.

9.3.18 Nid oedd cynllun cyfathrebu cydlynol a chynhwysfawr a fyddai wedi sicrhau bod pob rhanddeiliad yn derbyn y wybodaeth yr oedd ei hangen arno mewn modd amserol ac wedi'i deilwra.

***Argymhellion:***

9.3.19 Dylai ymgynghoriad mwy cynhwysol ac ymgysylltu dwyffordd cryfach â'r holl rhanddeiliaid fod yn flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC wrth symud ymlaen.

9.3.20 Mae angen ailadeiladu ymddiriedaeth gan Cymwysterau Cymru a CBAC er budd holl ddysgwyr Cymru drwy ddeialog ystyrlon ac ymgysylltu uniongyrchol â gweithwyr addysgu proffesiynol wrth ddylunio system gymwysterau gadarn, ddibynadwy a theg ar gyfer y dyfodol.

9.3.21 Dylid datblygu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael ag anghenion yr holl randdeiliaid - gan gynnwys dysgwyr, prifysgolion a chyflogwyr - ar y cyd gan y sefydliadau allweddol. Mae'n rhaid i gynllun o'r fath nodi cyfrifoldebau ar gyfer cyflawni gyda phob cynulleidfa a datblygu proses o fonitro effeithiolrwydd negeseuon a'r ddealltwriaeth ohonynt.

## 9.4 Llais y dysgwr a gwybodaeth

9.4.1 Mae'r system gymwysterau yng Nghymru yn bodoli i wasanaethu'r dysgwyr. Mae'n rhaid i'r angen am newidiadau i'r system honno, a'r gwaith o'u dylunio, yn enwedig yn ystod adegau o argyfwng sylweddol, gael eu cyfathrebu'n glir a chynhwysfawr i'r dysgwr. At hynny, mae'n rhaid i'r cyfathrebu hwnnw fod yn ddwyffordd, gan wrando ar leisiau a phryderon dysgwyr, a chynnal sianeli gwybodaeth clir ar benderfyniadau a'r gwaith o'u gweithredu. Mae'n bwysig fod dysgwyr yn deall yn glir sut y bydd eu lleisiau yn cael eu clywed a lle a sut y byddant yn derbyn gwybodaeth.

9.4.2 Gwnaethom gyfarfod â dysgwyr o ystod eang o leoliadau addysgol a derbyn 1,669 o ymatebion gan ddysgwyr i'n harolwg. Gwnaeth aelodau o'r Senedd Ieuenctid a phobl ifanc o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig hefyd rannu cyfraniadau meddylgar gyda ni. Beth oedd yn drawiadol am y cyfraniadau hynny oedd y cyferbyniad rhwng dyfnder y diddordeb a'r awch i gyfrannu a

glywsom a'r rhwystredigaeth ynghylch y diffyg cyfle i gyfathrebu roedd y bobl ifanc hynny yn teimlo oedd ar gael iddynt.

9.4.3 Dywedodd dysgwyr wrthym nad oedd ganddynt fynediad bob tro, ar yr adegau cywir, i'r wybodaeth roedd ei hangen arnynt am y trefniadau ar gyfer cymwysterau 2020. Roeddent am dderbyn gwybodaeth drwy eu hysgolion a cholegau, a allai eu cefnogi ac yr oeddent yn ymddiried ynddynt, ond gallent weld bod eu hathrawon yn y tywyllwch fel hwythau yn aml.

9.4.4 Yn y cyfnod a ddilynodd ddiwrnod canlyniadau Safon Uwch, trodd y rhwystredigaeth honno ymysg dysgwyr yn ddicter ac fe ddaeth yn brotestiadau wrth i ddysgwyr fynnu bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Mewn trefi a dinasoedd, ymunodd myfyrwyr â phrotestiadau a mynegwyd yr anniddigrwydd a'r synnwyr o annhegwch yn gryf ledled y cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd cefnogaeth i ddeisebau am newid mewn niferoedd sylweddol a chefnogwyd dysgwyr yn eu gweithredoedd gan rieni a gofalwyr a chan eu hysgolion a cholegau.

9.4.5 Yn ein cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC, gwnaethom ofyn pwy oedd yn cymryd y cyfrifoldeb dros gyfathrebu'r dull o ddyfarnu graddau i'r dysgwyr yn ystod y cyfnod eithriadol hwn. Eglurodd Cymwysterau Cymru a CBAC i ni nad oedd cyfathrebu â dysgwyr yn rhan o'u ffordd gyffredin o weithio. Gwelwyd ysgolion a cholegau fel y cyfrwng i'r dysgwyr, ac mae'r cyrff cymwysterau yn rhoi gwybodaeth i'r ysgolion a cholegau i'w dosbarthu ymlaen. Cadarnhaodd dysgwyr i ni y byddent yn edrych i'r ysgolion a cholegau am eu cyngor ond hefyd, ar frig digwyddiadau cyhoeddus a gafodd effaith mor uniongyrchol arnynt, eu bod hefyd yn cyrchu gwybodaeth yn fwy annibynnol ac yn edrych am ddeunydd yr oedd wedi'i gyfeirio at eu hanghenion. Ar gyfer ymgeiswyr preifat, mae'r llwybr drwy ysgolion a cholegau yn amherthnasol; gan nad oedd ganddynt gyswllt â chanolfan, roedd yn rhaid iddynt gyrchu gwybodaeth yn uniongyrchol gan y bwrdd arholi.

9.4.6 Gan gydnabod natur eithriadol y newidiadau i ddyfarnu cymwysterau, datblygodd Cymwysterau Cymru ddeunyddiau pellach a oedd yn canolbwyntio ar y dysgwr ar eu gwefan, yn ogystal â chynhyrchu fersiwn o'r ymgynghoriad ar gyfer dysgwyr, y gwnaeth nifer helaeth o ddysgwyr (2,079) ymateb iddo. Roedd y lefel hon o ymateb yn nodi dyfnder y diddordeb a'r parodrwydd i ymgysylltu ymysg dysgwyr. Cyfeiriwyd at sesiynau ar-lein *Ask Kirsty* Llywodraeth Cymru ar Facebook gan ddysgwyr hefyd fel rhywbeth roeddent yn ei groesawu.

9.4.7 Cynigiodd y Comisiynydd Plant ei chefnogaeth o'i swyddfa i adolygu'r deunydd i sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno mewn modd hygyrch ar gyfer dysgwyr a dywedodd wrthym, fel y bu hi, na fanteisiodd Cymwysterau Cymru ar y cynnig hwn.

9.4.8 Dim ond chwarter o'r dysgwyr a ymatebodd i'n harolwg a ddywedodd eu bod yn teimlo bod y dull cynlluniedig yn ystyried barn dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr. Clywsom hefyd am bryderon colegau addysg bellach a Colegau Cymru nad oedd dysgwyr a oedd yn gwneud cymwysterau galwedigaethol yn cael eu trin yn gyfartal â'u cyfoedion a oedd yn gwneud cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch. Gwnaeth cyhoeddiadau Cymwysterau Cymru, y bwriadwyd iddynt roi sicrwydd i ddysgwyr a oedd yn gwneud cymwysterau cyffredinol, adael y dysgwyr galwedigaethol yn anymwybodol yn gyffredinol.

9.4.9 Mynegodd y dysgwyr a siaradodd â ni sut roedden nhw a'u cyd-ddysgwyr wedi cael profiad o ddryswch, tor-calon a dicter ar ddiwrnod canlyniadau Safon Uwch gyda synnwyr fod y radd yn "berchen i'r algorithm" ac nid i hwythau. Disgrifiodd cynrychiolwyr y Senedd Ieuenctid i ni sut roeddent wedi cyrchu gwybodaeth am y prosesau drwy wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol, a sut yr oeddent wedi ceisio helpu pobl ifanc eraill i wneud synnwyr o'r hyn oedd yn digwydd.

9.4.10 Dywedodd dysgwyr wrthym eu bod yn ansicr o’r hyn i'w gredu o hyd, hyd yn oed ar ôl cyrchu gwybodaeth o'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau. Wrth i'r digwyddiadau ynghylch y canlyniadau Safon Uwch ddatblygu, roedd dysgwyr am dderbyn gwybodaeth a chanllawiau drwy eu hysgolion a cholegau, a allai eu cefnogi ac yr oeddent yn ymddiried ynddynt, ond gallent weld bod eu hathrawon yn y tywyllwch fel hwythau yn aml.

9.4.11 Er ein bod yn cydnabod ymdrechion cynyddol Cymwysterau Cymru a CBAC i wella ac ehangu eu cyfathrebu â dysgwyr drwy’r fersiwn o'r ymgynghoriad ffurfiol i ddysgwyr a'r wybodaeth ehangach ar wefannau, credwn y byddai cymorth Comisiynydd Plant Cymru i sicrhau bod y wybodaeth yn hygyrch ar gyfer dysgwyr wedi bod yn fuddiol, a gallai fod wedi gweithio i leihau pryder dysgwyr ar y pryd.

9.4.12 Mae'r disgwyliad y bydd ysgolion a cholegau yn cyfleu gwybodaeth berthnasol i'r dysgwyr yn un dilys yn ystod adegau cyffredin pan mae canolfannau eu hunain yn gyfarwydd â'r systemau. Er hynny, mae'r disgwyliad hwnnw yn eithrio un gynulleidfa, sef ymgeiswyr preifat a'u rhieni a’u gofalwyr nad ydynt yn gysylltiedig â chanolfan. Mae hefyd yn chwalu pan nad yw canolfannau yn teimlo bod ganddynt un ai'r wybodaeth ynteu'r eglurder sydd ei angen arnynt i dawelu meddyliau dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr. Mae cyhoeddiadau a gaiff eu gwneud yn ystod gwyliau ysgol hefyd yn golygu nad oes gan ddysgwyr fynediad at gymorth neu gyngor eu hathrawon.

9.4.13 Cyfyngodd amgylchiadau 2020 ar y llif o wybodaeth a gwnaethant arwain at densiynau yn y berthynas rhwng yr athro a’r dysgwr/rhiant/gofalwr a allai fod wedi'u hosgoi. Mynegodd Cymwysterau Cymru wrthym amharodrwydd i ymgysylltu â'r dysgwr pan fo ansicrwydd o ran cyfeiriad. Ar ôl cyfarfod â chynrychiolwyr o'r Senedd Ieuenctid, rydym yn teimlo bod ymgysylltiad cynnar â dysgwyr, a fydd wedyn yn gwella cyfathrebu unwaith y bydd cyfeiriad wedi'i osod, yn talu ar ei ganfed.

9.4.14 Er bod y mwyafrif helaeth o gymwysterau galwedigaethol a gynigir yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual a'r tu hwnt i’n cylch gorchwyl, byddai'n esgeulus ohonom i beidio codi pwysigrwydd trin dysgwyr Cymru yn gyfartal, waeth bynnag y math o gymhwyster maent yn ei astudio.

***Crynodeb o’r canfyddiadau:***

9.4.15 Ni chafodd dysgwyr a oedd yn gwneud cymwysterau galwedigaethol eu trin yn gyfartal â'u cyfoedion a oedd yn gwneud cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch. Gwnaeth cyhoeddiadau Cymwysterau Cymru, y bwriadwyd iddynt roi sicrwydd i ddysgwyr a oedd yn gwneud cymwysterau cyffredinol, adael y dysgwyr galwedigaethol yn anymwybodol yn gyffredinol.

9.4.16 Mae'r disgwyliad y bydd ysgolion a cholegau yn cyfleu gwybodaeth berthnasol i'r dysgwyr yn un dilys yn ystod adegau cyffredin pan mae canolfannau eu hunain yn gyfarwydd â'r systemau. Er hynny, mae'r disgwyliad hwnnw yn eithrio un gynulleidfa, sef ymgeiswyr preifat a'u rhieni a’u gofalwyr nad ydynt yn gysylltiedig â chanolfan. Mae hefyd yn chwalu pan nad yw canolfannau yn teimlo bod ganddynt un ai'r wybodaeth ynteu'r eglurder sydd ei angen arnynt i dawelu meddyliau dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr.

***Argymhellion:***

9.4.17 Bydd ymgysylltiad cynnar â dysgwyr yn ystod cam dylunio'r dull ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021 yn rhoi hyder iddynt fod eu llais yn cael ei glywed a bydd wedyn yn gwella cyfathrebu unwaith y bydd cyfeiriad wedi'i osod.

9.4.18 Mae'n rhaid i ddysgwyr Cymru gael eu trin yn gyfartal, waeth bynnag y math o gymhwyster maent yn ei astudio. Mae angen i'r canolfannau sy'n darparu cymwysterau galwedigaethol a'r dysgwyr sy'n gwneud y cymwysterau hyn gael eu clywed gan Lywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru fel bod eu pryderon a'u hanghenion yn cael eu hadlewyrchu mewn unrhyw drafodaethau ag Ofqual a'r cyrff dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn 2021.

## 10. DYSGU AR GYFER DYFARNU CYMWYSTERAU YN 2021

10.1 Gofynnodd y Gweinidog i ni ystyried sut y gallai'r hyn a ddysgwyd o 2020 lywio'r dull ar gyfer dyfarniadau yn haf 2021.

10.2 Mae'r heriau digyffelyb a gyflwynwyd gan y pandemig COVID-19 ledled system addysg Cymru yn 2020 yn parhau yn 2021 yn anffodus. Cafodd yr angen i wneud penderfyniadau brys ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021 ei fynegi'n gryf yn ystod ein holl gyfarfodydd a'n trafodaethau. Dywedwyd wrthym am y straen a phryder sylweddol a grëwyd o ganlyniad i ddysgwyr ac athrawon heb wybod p'un a fyddai arholiadau ynteu ddim, a'r straen a llwyth gwaith ychwanegol o orfod paratoi ar gyfer y ddau bosibilrwydd.

10.3 Daeth yn glir y byddai lefel yr anghysondeb ym mhrofiadau dysgwyr ledled 2020 ac yn ymestyn i 2021 yn gwneud unrhyw gyfres o arholiadau yn ffordd annheg o farnu cynnydd a gallu ar draws carfan o ddysgwyr 2021. I ddyfynnu un o'n cyfranwyr arbenigol ar barhau gyda chyfres arholiadau,

> *byddai'n fantais i'r mwyaf breintiedig ac yn anfantais i'r mwyaf difreintiedig*.

Daethom i'r casgliad, o safbwynt gweithredol, y byddai cynnal unrhyw fath o gyfres arholiadau ar gyfer 2021 yn ymdrech risg uchel, a gallai ansicrwydd parhaus ynghylch cynnydd yn y pandemig achosi newid cyfeiriad a allai drechu unrhyw amserlen ar gyfer arholiadau - byddai angen Cynllun B bob amser. Gwnaethom gynghori y byddai'n llawer gwell buddsoddi amser ac ymdrech ddwys nawr i ddatblygu, ar y cyd, gynllun asesu arall yn y ganolfan ac ymrwymo iddo. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i ddysgwyr a'u rhieni, gofalwyr, ysgolion a cholegau am y ffordd ymlaen a rhoi cyfeiriad clir ynghylch blaenoriaethu'r amser sydd ar gael mewn ysgolion a cholegau i fwyafu'r dysgu a geir.

10.4 Gan dynnu ar y materion brys hyn a'r gwersi a gafwyd o'r adolygiad o ddyfarnu graddau yn 2020, rhoesom argymhellion cynnar i'r Gweinidog felly ar ddiwedd mis Hydref 2020 yn ein hadroddiad interim fel a ganlyn:

- Dylai penderfyniadau ar ddyfarnu graddau yng Nghymru yn 2021 flaenoriaethu anghenion y dysgwyr sy'n cael eu hasesu, a'u trin yn deg, drwy gydnabod yr amgylchiadau heriol y maent wedi bod yn dysgu ynddynt drwy 2020 a 2021.
- Yn 2021, dylid dyfarnu cymwysterau ar sail asesiad cadarn ac wedi'i gymedroli a wneir gan leoliad addysgol y dysgwr ac nid trwy gyfres o arholiadau.
- Mae angen datblygu dulliau asesu cadarn mewn canolfannau fel bod dysgwyr yn cael graddau teg wrth sicrhau cywirdeb y cymwysterau.
- Dylai'r dulliau asesu hyn gael eu datblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol a dylid cyfleu'r penderfyniadau allweddol yn glir i bawb sy'n gysylltiedig.
- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Cyflawni dan gadeiryddiaeth annibynnol i oruchwylio a llywio'r dull diwygiedig ar gyfer cymwysterau yn 2021.

10.5 Ar 10 Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog ei phenderfyniad a chyfarwyddyd i Cymwysterau Cymru fel a ganlyn:

- ni ddylid bod arholiadau diwedd blwyddyn ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG neu Safon Uwch ar gyfer 2021;

- yn lle arholiadau, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ysgolion a cholegau i ddatblygu asesiadau a reolir gan athrawon. Bydd y rhain yn cynnwys asesiadau a fydd wedi'u gosod a'u marcio'n allanol, a'u cyflenwi o fewn amgylchedd dosbarth o dan oruchwyliaeth athro. Bydd y rhain yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer canlyniadau yn y ganolfan, a fydd yn gysylltiedig â dull cenedlaethol y cytunir arno i roi cysondeb ledled Cymru;
- bydd Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni yn cael ei sefydlu, dan gadeiryddiaeth Geraint Rees, i ddatblygu'r dull arfaethedig ar gyfer canlyniadau yn y ganolfan, proses apeliadau, a threfniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat. Bydd y grŵp yn cynnwys arweinwyr ysgolion a cholegau ac yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a'i gynghori gan Cymwysterau Cymru a CBAC;
- bydd Cymru yn parhau i weithio gydag Ofqual i sicrhau y gellid gwneud dyfarniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

10.6 Mae gwaith y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni [22] bellach ar waith i ddatblygu cynigion sydd â'r gallu i gyflenwi'r polisi ar gymwysterau yn 2021. Aelodau'r grŵp yw arweinwyr ysgolion a cholegau, ac mae gan Cymwysterau Cymru a CBAC statws arsylwr.

10.7 Mae ein cylch gwaith yn gofyn i ni ystyried beth sydd i'w ddysgu o weithredoli'r broses safoni yn 2020 a beth ddylid ei ystyried wrth gytuno ar y meini prawf neu egwyddorion ar gyfer unrhyw broses safoni yn 2021. Rydym felly wedi crynhoi pwyntiau allweddol isod ar gyfer pob un o'r camau dylunio a chyflawni yn 2021, gan dynnu ar ein canfyddiadau a'n hargymhellion, i lywio gwaith y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a Cymwysterau Cymru wrth iddynt weithio i roi cynigion ymarferol a llwyddiannus ar waith ar gyfer haf 2021.

10.8 **Cam dylunio**

Gan dynnu ar ein tystiolaeth sy'n ymwneud â 2020, byddem yn crynhoi'r pwyntiau dysgu allweddol i'w hystyried yn y cam dylunio presennol fel a ganlyn:

- *Cydweithio ledled pob rhan o sector addysg Cymru.*
  Mae'r Gweinidog yn pwysleisio'r ffordd hon o weithio yng nghylch gorchwyl y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni. Bydd yn hanfodol i bob rhan o'r sector gymryd cyfrifoldeb i gydweithio'n adeiladol er budd y dysgwyr, p'un a ydynt yn aelodau llawn o'r grŵp, yn arsylwyr y grŵp, neu'n cymryd rhan yn y grŵp mewn ffordd arall.
- *Sicrhau bod opsiynau amgen yn cael eu hasesu'n briodol yn erbyn yr egwyddorion a bod rhagdybiaethau a wneir o fewn y dadansoddiadau hynny yn cael eu profi.*
  Mae cynnwys y proffesiwn addysgu yn y gwaith o asesu opsiynau, a'u dylunio, yn galluogi cyflawni polisi ar lawr gwlad. Roedd ein harolwg yn cynnwys y cyfle i ymgeiswyr awgrymu opsiynau gwahanol i raddau asesu canolfannau, os na fyddai arholiadau yn bosibl yn 2021 (Atodiad 4). Cyfrifoldeb y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni yw ystyried yr awgrymiadau hyn bellach, fel y gwêl yn dda.
- *Dylunio'r broses apeliadau ochr yn ochr â phrofi opsiynau ar gyfer yr asesiadau a'r prosesau dyfarnu i sicrhau y gellir cyflenwi'r ddwy broses yn deg.*
- *Mae'n rhaid clywed llais y dysgwr wrth ddatblygu a chyflenwi'r cynigion*.
  Dylid blaenoriaethu anghenion y dysgwyr, a thegwch iddynt, ym mhob penderfyniad ar y dull o ddyfarnu graddau yn 2021, gyda phenderfyniadau yn cael eu profi i sicrhau bod yr

[22] Cylch Gorchwyl y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni https://llyw.cymru/grwp-cynghori-dylunio-chyflawni/cylch-gorchwyl#section-55732, cyrchwyd 22 Tachwedd 2020.

egwyddorion sy'n cefnogi tegwch yn y ffordd fwyaf uniongyrchol yn hollbwysig. Dylai llesiant dysgwyr fod yn ganolog i'r prosesau y cytunir arnynt a dylid bod hyder i wneud yr hyn sy'n iawn ar gyfer dysgwyr Cymru.

- *Mae'n rhaid defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a hawliau plant fel offerynnau cadarnhaol i wella polisi a'i weithrediad er mwyn sicrhau tegwch ar gyfer yr holl ddysgwyr yn 2021*.
  Awgrymwn fod y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni yn cymryd unrhyw gynnig o gymorth gyda'r asesiad effaith ar gyfer 2021 gan y Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bydd ymgysylltu'n gynnar ag asesiadau o'r fath yn helpu i sicrhau bod camau yn cael eu rhoi ar waith i liniaru unrhyw risgiau o ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig ac anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr mewn lleoliadau addysgol gwahanol, yn peidio â chael eu trin yn deg.

- *Sicrhau bod y dull a argymhellir yn cael ei ddatblygu mewn modd tryloyw ac yn cael ei gyfleu i'r holl randdeiliaid yn glir*.
  Bydd tryloywder yn allweddol ar gyfer hyder ac ymddiriedaeth yn system gymwysterau Cymru ymhlith yr holl randdeiliaid. Bydd diffiniad o derminoleg er budd cyd-ddealltwriaeth.

- *Sicrhau bod pob ffurf ar ddilysu, cymedroli a safoni a ddefnyddir yn y model a fabwysiadir yn syml, yn dryloyw ac yn ddealladwy.*
  Bydd hyder yn y dull mabwysiedig yn cael ei gryfhau drwy sicrhau bod mewnbynnau ledled y canolfannau yn gymaradwy ac yn deg, ac mae'n rhaid i'r systemau a ddefnyddir i wneud hynny fod yn syml i'w deall a'u gweithredu er mwyn adeiladu'r hyder hwnnw.

10.9 **Cam cyflawni**

Mae'r hyn a ddysgwyd o 2020 wedi dangos pwysigrwydd hollbwysig cael un lle a all gynnal y trosolwg o'r cam cyflawni. Mae angen i waith y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni barhau i oruchwylio'r gwaith o roi'r dull y cytunwyd arno ar waith a rhoi sicrwydd i'r Gweinidog fod:

- pob elfen o'r newidiadau sydd eu hangen yn cael ei chydlynu a'i chyflwyno yn unol â'r amserlen;
- arbenigedd y sector addysg yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio wrth gyflenwi'r dull;
- penderfyniadau a wneir yn ystod y cyfnod cyflawni wedi ystyried buddiannau pawb yr effeithir arnynt;
- cynllun cyfathrebu cynhwysfawr ac agored ar waith er mwyn sicrhau bod pawb y mae angen iddynt ddeall y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn eu deall ac yn gallu cael sicrwydd a gwybodaeth bellach lle y bo'n briodol;
- risgiau i broses gyflawni lwyddiannus yn cael eu hadolygu'n barhaus a bod camau lliniaru yn cael eu nodi a'u cymryd gan y corff priodol;
- gwersi'n cael eu nodi wrth iddynt gael eu dysgu o 2021, a'u dwyn ymlaen i flynyddoedd y dyfodol ac i'r gwaith o ddatblygu cymwysterau yng Nghymru.

Mae cyfrifoldebau a gwaith y grŵp yng nghamau dylunio a chyflawni yn sylweddol ac rydym yn cydnabod y bydd angen adnoddau cefnogol digonol i sicrhau llwyddiant. Awgrymwn efallai y bydd gwerth adolygu ac adnewyddu'r aelodaeth ar gyfer y cam cyflawni i ledaenu'r llwyth gwaith ac i groesawu mewnbwn pellach.

10.10 **Y broses apeliadau ar gyfer TGAU, Safon UG a Safon Uwch**

Dywedasom yn ein hadroddiad interim y byddem yn cynnwys argymhellion ar y broses apeliadau yn ein hadroddiad terfynol. Mae ein dadansoddiad o'r dull ar gyfer dyfarniadau yn haf 2020 wedi ein dysgu pwysigrwydd hollbwysig dylunio'r broses apeliadau fel rhan o'r broses o ddylunio'r dull dyfarnu. Gyda hyn mewn golwg a gan fod y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni bellach yn gyfrifol am ddatblygu'r dull, byddai'n mynd yn erbyn ein cyngor i wneud argymhellion ar fanylion proses apeliadau ar gyfer 2021. Fodd bynnag, cynigiwn y cyngor canlynol ar yr amodau a fydd yn cefnogi datblygiad llwyddiannus o broses apeliadau deg.

Bydd cael cyn lleied o apeliadau ag y bo modd drwy ddyfarnu gradd deg i'r dysgwr cywir y tro cyntaf yn cael ei gefnogi drwy'r dulliau canlynol:

- hyfforddi a datblygu aseswyr;
- cymedroli mewnol ac allanol cyn cyflwyno data asesu canolfannau i'r corff dyfarnu;
- y corff dyfarnu yn cwestiynu unrhyw ddata asesu canolfannau sy'n ymddangos fel nad yw'n cyd-fynd â'r disgwyliadau cyn defnyddio'r data i gadarnhau dyfarniad terfynol;
- sicrhau bod y gwaith o ddylunio'r dull o ddyfarnu graddau, gan gynnwys y dull cenedlaethol i sicrhau cysondeb, yn dryloyw.

10.11 Yn ein gwaith, rydym wedi gweld bod prosesau ac arferion sy'n bodoli eisoes ar waith ledled yr ysgolion a cholegau a'r cyrff dyfarnu y gellid eu hystyried a'u datblygu i ddarparu proses apeliadau y bydd prosesau cyfarwydd yn sail iddi. Er enghraifft:

- mae'n ofynnol i ysgolion fod â phrosesau apeliadau mewnol ar waith ar gyfer asesiadau mewnol;
- mae gan ysgolion a cholegau sy'n cyflenwi cymwysterau galwedigaethol brosesau apeliadau sy'n cychwyn gydag apêl fewnol cyn ei huwchgyfeirio i'r corff dyfarnu.

Mae cyfle yma i rannu dysg ac arferion da ledled y cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol.

10.12 **Ymgeiswyr preifat**

Dywedasom hefyd yn ein hadroddiad interim y byddem yn cynnig cyngor pellach ar drefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat. Gyda dull ar gyfer dyfarniadau sy'n seiliedig ar asesu yn y ganolfan, bydd yn bwysig hyrwyddo'r llwybr i gael mynediad at asesiadau yn glir ac yn gynnar i ymgeiswyr preifat i'w galluogi i gofrestru gyda chanolfan ar gyfer asesu yn 2021. Fel y broses apeliadau, bydd angen i'r ystyriaeth o lwybr ar gyfer ymgeiswyr preifat ddigwydd ochr yn ochr â'r gwaith o ddylunio'r dull dyfarnu.

10.13 **Cymwysterau galwedigaethol**

Er bod ein cylch gorchwyl yn cynnwys y cymwysterau galwedigaethol cymeradwy hynny a gynlluniwyd i Gymru yn unig, mae'n bwysig o hyd nad yw Llywodraeth Cymru yn colli golwg o'r holl ddysgwyr sy'n gwneud cymwysterau galwedigaethol a thechnegol, p'un a yw'r cymwysterau hyn yn cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru neu Ofqual. Mae'n rhaid trin dysgwyr sy'n gwneud cymwysterau galwedigaethol yn gyfartal â'u cyfoedion sy'n gwneud cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch o ran derbyn eglurhad o drefniadau'r dull ar gyfer dyfarniadau yn 2021, gan gydnabod y bydd amseru'r penderfyniadau a'r cyhoeddiadau yn wahanol. Rydym yn cynghori Adran Addysg Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru i ymgysylltu â chanolfannau sy'n darparu

cymwysterau galwedigaethol a chyda dysgwyr sy'n gwneud y cymwysterau hyn fel y gellir adlewyrchu eu pryderon a'u hanghenion mewn unrhyw drafodaethau ag Ofqual yn 2021.

10.14 **Ymgysylltu â phrifysgolion a chyflogwyr**

Mae'n bwysig bod prifysgolion a chyflogwyr yn deall cymwysterau Cymru a bod ganddynt hyder ynddynt fel y gall dysgwyr Cymru symud ymlaen i astudiaeth bellach a chyflogaeth wrth gael chwarae teg â'u cyfoedion mewn mannau eraill o’r DU. Bydd cadarnhad Cymwysterau Cymru bod y dull yn gadarn ac yn bodloni safonau yn hanfodol. Mae cyfle hefyd ar gyfer cyfathrebu rhagweithiol â phrifysgolion a chyflogwyr a all bwysleisio'r buddion y bydd dysgwyr Cymru wedi'u hennill dros eu cymheiriaid yn y DU drwy gael cymaint o amser dysgu ag y bo modd yn lle amser i adolygu ar gyfer arholiadau.

10.15 Awgrymodd y prifysgolion y gwnaethom gyfarfod â hwy hefyd y gallai eu Swyddogion Cyswllt Ysgolion, sy'n canolbwyntio ar recriwtio myfyrwyr a marchnata, chwarae rhan allweddol wrth gyfleu hyder y prifysgolion i ddysgwyr, athrawon a swyddogion gyrfaoedd Cymru. I fanteisio ar y cynnig hwn, gallai'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni gynnig briffiau ar y dull cytunedig i staff y brifysgol sy'n ymwneud â recriwtio, yn enwedig y rhai sy'n recriwtio niferoedd sylweddol o fyfyrwyr Cymru.

10.16 **Data perfformiad ysgolion**

Pan gyhoeddodd y Gweinidog bod cyfres arholiadau haf 2020 yn cael ei chanslo, o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, cadarnhaodd hefyd na fyddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi mesurau perfformiad ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20. Roedd y sicrwydd hwn yn hanfodol i sicrhau y gellid dyfarnu canlyniadau teg i ddysgwyr, yn seiliedig ar raddau asesu canolfannau gwrthrychol, y penderfynwyd arnynt heb y pwysau cysylltiedig â mesurau perfformiad neu drefniadau atebolrwydd. Mae datganiad ysgrifenedig y Gweinidog ar 3 Gorffennaf yn nodi ymhellach, yn 2020/21 fel ar gyfer 2019/20, na fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ganlyniadau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol. Wrth i'r dull ar gyfer 2021 gael ei ddatblygu a'i gymeradwyo, gallai fod angen sicrwydd pellach na fydd mesurau perfformiad ysgolion yn cynnwys data dyfarniadau, er mwyn osgoi unrhyw ymddygiadau anfwriadol a phwysau ychwanegol ar ysgolion a cholegau.

10.17 **Llesiant**

Bydd angen i’r gwaith o ddylunio a chyflawni'r dull ar gyfer 2021 barhau i ystyried llesiant dysgwyr a staff ysgolion a cholegau.

**11. 2022 A GWERSI AR GYFER Y CWRICWLWM NEWYDD**

11.1 Clywsom gan ysgolion a cholegau am effaith barhaus COVID-19 ar ddysgu i ddysgwyr o bob blwyddyn. Mae effaith barhaus y pandemig COVID-19 wedi bod yn ddifrifol ac yn parhau i achosi tarfiad sylweddol i ddysgu llawer o bobl ifanc. Mae methu ysgol am gyfnod estynedig yn golygu bod grwpiau cyfan o fyfyrwyr eisoes wedi disgyn yn ôl yn academaidd mewn ffordd sy'n arwyddocaol ac yn sylweddol.[23] O ganlyniad i COVID-19, bu'r ffordd maen nhw wedi bod yn dysgu'n anghyson ac mae'n rhaid ystyried hyn wrth ddyfarnu cymwysterau o 2021 ymlaen. Mae ein tystiolaeth yn atgyfnerthu sut y mae COVID-19 wedi ehangu'r bwlch tlodi mewn cyrhaeddiad, gan felly wneud arholiadau 2021 nid yn unig yn anghynaliadwy ond hefyd yn hollol annheg. Ni wnaiff anghydraddoldebau dwfn o'r fath ddiflannu'n gyflym, sy'n codi cwestiynau felly am ddoethineb system arholi sydd â thuedd barod, fel y gwelsom yng nghanlyniadau 2020, i fod yn anfanteisiol i'r rhai sydd eisoes dan anfantais.

11.2 Rydym yn pwysleisio bod tegwch i ddysgwyr yn hollbwysig ac, felly, mae'n rhaid cael adolygiad ar frys o'r trefniadau asesu ar gyfer 2022. Byddai dull sydd wedi'i lunio ar y cyd, sy'n dilyn y dull a gymerwyd gan Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni 2021, yn un ffordd bosibl ymlaen. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau cynnar i ganiatáu cynllunio digonol i ddigwydd ac i leihau'r baich sylweddol o bryder ac ansicrwydd a osodwyd ar ddysgwyr 2022, sydd eisoes wedi cychwyn eu cyrsiau astudio.

11.3 O ran rôl a chynllun cymwysterau yn y dyfodol, yn 2021 a thu hwnt, ein casgliad yw bod canslo arholiadau am ail flwyddyn yn rhoi cyfle unigryw a phwysig i system addysg Cymru baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd drwy ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol mewn trafodaethau cadarn ynglŷn â llwybrau asesu amgen. Ochr yn ochr â'r llawer o gyfyngiadau ac anawsterau a brofwyd yn ystod COVID-19, rydym o'r farn bod cyfle unigryw yn ei gyflwyno ei hunan bellach wrth bontio i'r cwricwlwm newydd.

11.4 Noda adroddiad Estyn diweddar (Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2020)[24] effaith ansicrwydd am asesu allanol ar gynllunio'r cwricwlwm:

> *Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae amharodrwydd i gynllunio cwricwlwm ysgol-gyfan a threfniadau asesu newydd gan barhau i gyflwyno cwricwlwm sy'n bodloni anghenion arholiadau cyhoeddus cyfredol. Crybwyllodd lleiafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ddiffyg gwybodaeth am gymwysterau a threfniadau asesu'r dyfodol fel rheswm i ohirio datblygu cwricwlwm newydd. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio atebolrwydd fel rheswm i beidio â datblygu cwricwlwm cyffrous, neu wneud mân newidiadau hyd yn oed. Mae hyn yn awgrymu bod yr ysgolion hyn yn rhoi mwy o ffocws ar 'addysgu ar gyfer y prawf' yn hytrach na chyflwyno cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol.*

---

[23] Kuhfeld ac eraill (2020), Projecting the Potential Impact of COVID 19 School Closures on Academic Achievement *Education Researcher* Cyf 49 rhif 8 549-566

[24] https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-11/Preparing%20for%20the%20Curriculum%20for%20Wales%20cy.pdf

11.5 Rydym yn cwestiynu p'un a yw arholiadau presennol, yn enwedig yn 16 oed, yn addas i'r diben o hyd. Daeth adroddiad gan Ysgol Busnes Caerdydd (Addysg Addas ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru)[25] i'r casgliad canlynol:

> *[O] ran paratoi ar gyfer y dyfodol, mae arholiadau cyhoeddus yn 16 oed yn ddibwrpas i raddau helaeth, yn arwain at hapchwarae costus mewn ysgolion a rhwng ysgolion a'i gilydd, ynghyd â'r broses hynod broblematig o 'all-gofrestru' plant llai academaidd.* (t. 27)

Daeth Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020[26] i gasgliad tebyg:

> *Mae angen alinio ein system gymwysterau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r weledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru. Ni fydd y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu i basio arholiadau ar hyn o bryd yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt ddiwallu anghenion y dyfodol. Dylai asesu adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion y cwricwlwm newydd: ffocws ar adborth naratif, symud i ffwrdd o asesu ar sail oedran a'r angen i wahanu asesiad disgyblion o'r ffordd yr ydym yn dwyn athrawon ac ysgolion i gyfrif.* (t. 133)

11.6 Mae Cymwysterau Cymru[27] yn cydnabod mai ei weledigaeth ar gyfer plant 16 oed yng Nghymru yw gwneud cymwysterau sy'n cael eu parchu'n fyd-eang ac sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Bydd angen prosesau asesu priodol, cadarn a dibynadwy ar gymwysterau o'r fath sy'n adlewyrchu a chroesawu'r cwricwlwm newydd. Os yw'r dyheadau a osodir yn y cwricwlwm newydd i'w cyflawni, bydd yn golygu symud i ffwrdd o orddibyniaeth ar brofion neu arholiadau fel y brif ffurf o asesu.

11.7 Mae pedwar diben y cwricwlwm newydd yn galw am newid radical yn arferion addysgeg, sef dull newydd ar gyfer addysgu gwybodaeth bynciol a ffurfiau amgen o asesu sydd yn unol â chwricwlwm dynamig a newydd yng Nghymru. Mae cynllunio am y cwricwlwm newydd, drwy asesiadau gwahanol i arholiadau, yn gyfle i gau'r bwlch rhwng gwerth ymddangosiadol cymwysterau academaidd a galwedigaethol, gan werthfawrogi dysgu yn gyfartal ym mhob maes astudio, a dysgu o'r arferion da sydd eisoes yn bodoli yn y sector galwedigaethol.

11.8 Mae'r system addysg yng Nghymru yn ymfalchïo yn ei chenhadaeth genedlaethol i gyflenwi tegwch a rhagoriaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr. Os am wireddu hyn, ni ellir gwastraffu, osgoi neu atal y cyfle i ailfeddwl asesiadau ac arholiadau oherwydd dyhead i ddychwelyd i system arholiadau na ellir bodloni gofynion cwricwlwm newydd a diwallu anghenion yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Blwyddyn gyntaf asesiad allanol y Cwricwlwm i Gymru fydd 2027 ac argymhellwn fod y drysau'n cael eu hagor i bontio i ffurfiau amgen o asesu yn llawer cynt nag a gynlluniwyd yn flaenorol.

11.9 Rydym yn ymwybodol bod yna systemau addysg sy'n perfformio'n arbennig o dda ar ystod eang o asesiadau rhyngwladol (e.e. Ffindir) a hynny heb lawer o brofion gorfodol neu arholiadau allanol, gan ddibynnu yn hytrach ar asesu gan athrawon a dulliau asesu parhaus. Mae llawer y gellir ei ennill o ystyried dyfarnu cymwysterau mewn systemau addysg eraill, nid i fenthyca eu dulliau, ond i ddysgu o wahaniaethau.

---

[25] https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2019/10/WELSH-2019-10-16-Fit-for-the-Future-Education-in-Wales-1.pdf
[26] https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2020/07/FGC-Welsh-exec-summary.pdf
[27] https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol/

*Crynodeb o’r canfyddiadau*

11.10 Mae canslo arholiadau am ail flwyddyn yn rhoi cyfle unigryw a phwysig i system addysg Cymru baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd drwy ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol mewn trafodaethau cadarn ynglŷn â llwybrau asesu amgen.

***Argymhellion***

11.11 Mae tegwch i ddysgwyr yn hollbwysig ac, felly, mae'n rhaid cael adolygiad ar frys o’r trefniadau asesu ar gyfer 2022. Byddai dull sydd wedi'i lunio ar y cyd, sy'n dilyn y dull a gymerwyd gan Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni 2021, yn un ffordd bosibl ymlaen. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau cynnar i ganiatáu cynllunio digonol i ddigwydd ac i leihau'r baich sylweddol o bryder ac ansicrwydd a osodwyd ar ddysgwyr 2022, sydd eisoes wedi cychwyn eu cyrsiau astudio.

11.12 Mae'r system addysg yng Nghymru yn ymfalchïo yn ei chenhadaeth genedlaethol i gyflenwi tegwch a rhagoriaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr. Os am wireddu hyn, ni ellir gwastraffu, osgoi neu atal y cyfle i ailfeddwl asesiadau ac arholiadau oherwydd dyhead i ddychwelyd i system arholiadau na ellir bodloni gofynion cwricwlwm newydd a diwallu anghenion yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Blwyddyn gyntaf asesiad allanol y Cwricwlwm i Gymru fydd 2027 ac argymhellwn fod y drysau'n cael eu hagor i bontio i ffurfiau amgen o asesu yn llawer cynt nag a gynlluniwyd yn flaenorol.

## 12. CRYNODEB O’R CANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION

### 12.1 Egwyddorion a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru:

12.1.1 Roedd pob un o’r pedair egwyddor a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu dull amgen o ddyfarnu graddau yn 2020 yn ddilys ac yn bwysig. Mae pob un o'r egwyddorion hyn yn chwarae rhan yn rhoi tegwch i'r dysgwr, rhai yn fwy uniongyrchol nag eraill (paragraff 3.13).

12.1.2 Pan ddaeth graddfa yr israddio i'r amlwg, mae'n ymddangos na wnaeth y fframwaith rheoleiddio a wnaeth adolygu a chymeradwyo'r modelau safoni ddarparu her gadarn yn ôl i gyfeiriad cychwynnol y polisi. Mae'r digwyddiadau dilynol yn awgrymu bod y lefel hon o israddio yn ganlyniad anfwriadol i'r polisi (paragraff 8.18).

12.1.3 Ni chadarnhawyd yr egwyddor o degwch i bob dysgwr yn haf 2020 a gwaethygwyd anghydraddoldebau gan y dull a ddefnyddiwyd (paragraff 9.2.7).

12.1.4 Yn ystod y broses o adrodd ar ganlyniadau cymwysterau mewn cyfres gyffredin, nid yw'n briodol i Cymwysterau Cymru hysbysu Gweinidogion o'r canlyniadau cyn yr amserlen. Fodd bynnag, roedd graddfa’r amrywiad rhwng dyfarniadau a gyfrifwyd a disgwyliadau canolfannau yn eithriadol yn 2020 ac fe gododd nid o ganlyniad i berfformiad uniongyrchol ymgeiswyr ond yn sgil y broses o gymhwyso prosesau a gynlluniwyd i gyflawni egwyddorion Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod eithriadol. Yn yr amgylchiadau penodol hyn, rydym wedi dod i’r casgliad y byddai wedi bod yn briodol rhybuddio'r Gweinidog ar adeg gynharach o leiaf o raddfa'r bwlch rhwng graddau asesu canolfannau a'r graddau a gyfrifwyd (paragraff 7.14).

***Argymhellion***

12.1.5 Mae angen i'r egwyddorion a fabwysiadwyd ar gyfer 2020 gael eu diwygio a'u diweddaru ar gyfer 2021. Dylai penderfyniadau ar ddyfarnu graddau yng Nghymru yn 2021 flaenoriaethu anghenion y dysgwyr sy'n cael eu hasesu, a’u trin yn deg, drwy gydnabod yr amgylchiadau heriol y mae eu dysgu wedi digwydd ynddynt drwy 2020 a 2021 (*Argymhelliad 1 o'n adroddiad interim*) (paragraff 3.14).

12.1.6 Mae'n rhaid i degwch i bob dysgwr fod yn gydran ganolog a gweladwy a gynhaliwyd yn glir wrth gynllunio ar gyfer 2021. Mae'n rhaid i degwch i ddysgwyr gwmpasu pob dysgwr sy'n dibynnu ar y system gymwysterau i gefnogi ei gynnydd, beth bynnag fo’i gefndir a beth bynnag yw natur y cymwysterau mae’n eu gwneud i fynd ar drywydd ei uchelgeisiau (paragraff 9.2.9).

12.1.7 Dylai'r gwaith o lywodraethu a goruchwylio gweithrediadau polisïau mawr fod â mecanweithiau adborth cryf i brofi a sicrhau amcanion polisi (paragraff 8.21).

### 12.2 Y dull ar gyfer dyfarnu graddau

12.2.1 Rhoddwyd gormod o hyder yng ngallu modelau ystadegol i ddarogan y canlyniadau cywir ar gyfer dysgwyr unigol (paragraff 8.17).

12.2.2 Yn gyffredinol, nid oedd dealltwriaeth dda o fodelau safoni 2020 y tu hwnt i'r gymuned arbenigol o sefydliadau cymwysterau. Cafodd hyn ei waethygu gan ddefnydd dryslyd ac anghyson o dermau allweddol yn y drafodaeth gyhoeddus ehangach ynghylch cyfres cymwysterau 2020 (paragraff 8.19).

12.2.3 Cymerwyd y penderfyniad gan Cymwysterau Cymru a CBAC i ddibynnu'n gyfan gwbl ar y modelau safoni ystadegol i 'gymedroli' rhwng canolfannau heb brofi unrhyw ffyrdd neu ddulliau eraill yn llawn. Pe byddai profi gyda chymunedau y tu hwnt i'r cyrff dyfarnu a rheoleiddio wedi cyrraedd yr un penderfyniadau (h.y. i ddibynnu ar y modelau), yna byddai wedi bod dealltwriaeth well o'r risgiau a oedd yn gynhenid yn y system a fabwysiadwyd bryd hynny a gellid bod wedi cynllunio camau i liniaru'r risgiau hynny'n well (paragraff 4.22).

12.2.4 Er y cynhaliwyd dadansoddiadau o'r effaith ar hawliau plant a chydraddoldeb yn 2020 gan Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC, cymerwyd ystyriaeth annigonol o'r dadansoddiadau hyn mewn gwaith dilynol ac ni roddwyd camau lliniaru effeithiol ar waith gan Cymwysterau Cymru a CBAC (paragraff 9.2.8).

12.2.5 Wrth gydnabod y risg o duedd o fewn graddau asesu canolfannau a allai effeithio ar ddysgwyr du ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn enwedig, trosglwyddodd Cymwysterau Cymru a CBAC y risg i'r canolfannau ac ni wnaethon nhw sefydlu dull cenedlaethol ar y cyd i leiafu'r risg, e.e. codi ymwybyddiaeth yn systematig a chynnal hyfforddiant (a gyflenwir gan gorff arall) i athrawon i osgoi tuedd (paragraff 4.23).

12.2.6 Wrth gydnabod anallu'r prosesau safoni ystadegol i ddelio â phryderon hysbys, dylai Cymwysterau Cymru a CBAC fod wedi archwilio mesurau diogelu ychwanegol a'u rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â ffactorau hysbys (paragraff 5.23).

12.2.7 Roedd yr hyder a fynegwyd gan y rheoleiddiwr yn y prosesau safoni yn gyfeiliornus ac wedi'i orbwysleisio ac yn deillio o'r flaenoriaeth a roddwyd i gyflawni canlyniadau ledled y system a oedd yn gyson â blynyddoedd blaenorol wrth fethu rhoi sylw i oblygiadau unigol y dull hwnnw. Tra oedd y rheoleiddiwr yn ceisio sicrhau hyder yn y system gymwysterau yn ei chyfanrwydd, yn y diwedd roedd y canlyniadau niweidiol o wneud hynny ar gyfer niferoedd mor fawr o unigolion yn niweidio'r un hyder hwnnw yn sylweddol (paragraff 5.24).

12.2.8 Roedd gwrthgyferbyniad yn y dull a gymerwyd: tra gwyddai Cymwysterau Cymru na fyddai'r model safoni'n berffaith ac y byddai angen felly i'r broses apeliadau ddelio â'r achosion hynny lle nad oedd y radd a gyfrifwyd yn rhoi canlyniad teg i ddysgwr unigol, roedd yn glir na ellid gwneud apêl ar y sail na wnaeth y broses safoni genedlaethol weithredu yn ôl y disgwyl (paragraff 5.25).

12.2.9 Roedd methiant felly i roi proses apeliadau ymarferol a theg ar waith yn 2020 a fyddai'n mynd i'r afael ag analluoedd hysbys y prosesau ystadegol i roi canlyniad teg i bob dysgwr. Gweithredwyd y dull a ddewiswyd ar gyfer dyfarnu graddau heb wybod p'un a ellid datblygu proses apeliadau a fyddai'n gweithio (paragraff 5.26).

12.2.10 Heb gymedroli allanol o'r penderfyniadau a wnaed wrth roi graddau asesu canolfannau a threfnau safle, a heb hyfforddi aseswyr er mwyn sicrhau osgoi unrhyw duedd wrth gyrraedd graddau asesu canolfannau, rhoddwyd dibyniaeth lwyr ar y prosesau safoni ystadegol i sicrhau tegwch rhwng canolfannau. Creodd canlyniadau'r prosesau hynny allanolion eu hunain, gan greu anesmwythyd eang fod y prosesau wedi gorfodi canlyniadau nad oedd yn cyflenwi graddau teg ar gyfer niferoedd sylweddol o ddysgwyr unigol beth bynnag fo'r patrwm cyffredinol ar gyfer y garfan (paragraff 6.14).

12.2.11 Ni wnaeth CBAC na Cymwysterau Cymru gydnabod, derbyn na rhagweld graddfa'r materion a fyddai'n codi a'r risg o anghydraddoldeb i gymaint o ddysgwyr unigol o ganlyniad i'r diffyg gweithredu ganddynt. Mae hyn yn gyfystyr â methiant mewn arweinyddiaeth a llywodraethu mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau yn haf 2020 (paragraff 6.15).

12.2.12 Gallai trafodaethau proffesiynol tuag at ddiwedd mis Mehefin rhwng CBAC a'r canolfannau hynny a nodwyd i fod â graddau asesu canolfannau a oedd yn groes i'w perfformiad blaenorol fod wedi helpu i un ai diwygio'r graddau asesu canolfannau neu roi'r hyder i CBAC amddiffyn cynnydd cenedlaethol o raddau asesu canolfannau yn erbyn proffil graddau'r llynedd gerbron Cymwysterau Cymru (paragraff 6.16).

***Argymhellion***

12.2.13 Dylid osgoi'r defnydd o algorithmau awtomatig i ddarogan graddau unigol yn y dyfodol (paragraff 8.20).

12.2.14 Dylid defnyddio cymedroli allanol yn hytrach na phrosesau ystadegol i ddarparu cysondeb ledled Cymru mewn dull cenedlaethol cytunedig ar gyfer dyfarnu graddau yn haf 2021 (paragraff 6.17).

12.2.15 Mae angen buddsoddi amser mewn gwell canllawiau a chefnogaeth i'r canolfannau, ynghyd â chymedroli allanol, cyn cyflwyno data a asesir gan y ganolfan, er mwyn adeiladu mwy o hyder ymysg ysgolion a cholegau yn y graddau a'r trefnau safle maent yn eu cynhyrchu, ac i roi mwy o hyder i CBAC a Cymwysterau Cymru yn y data sy'n cael ei gynhyrchu yn y canolfannau (paragraff 4.24).

12.2.16 Mae'n rhaid bellach i wersi o 2020 lywio asesiadau manylach y gellir gweithredu arnynt o'r effaith ar hawliau plant a chydraddoldeb ar gyfer 2021. Cynigiodd y Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eu cymorth gydag asesiadau effaith ar gyfer 2021, ac rydym yn tynnu sylw'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a Cymwysterau Cymru i'r cynigion hynny (paragraff 9.2.10).

12.2.17 Dylid rhannu arferion da ar gyfer gwaredu tuedd o asesu canolfannau rhwng ysgolion a cholegau, gyda hyfforddiant yn cael ei roi ar waith i gefnogi athrawon/aseswyr (paragraff 4.25).

12.2.18 Mae datblygu proses apeliadau yn elfen hanfodol o gam dylunio'r dull ar gyfer cymwysterau a graddio ar gyfer 2021 i sicrhau bod hawl i apelio sy'n deg ac yn ymarferol ar gael i unigolion (paragraff 5.27).

12.2.19 Dylid gwella dealltwriaeth y cyhoedd ehangach o brosesu cymwysterau – o asesu i ddyfarnu – drwy gyfathrebu gwell a'r defnydd o dermau clir sydd wedi'u diffinio'n dda (paragraff 8.22).

## 12.3 Llais y dysgwr a gwybodaeth

12.3.1 Mae'r disgwyliad y bydd ysgolion a cholegau yn cyfleu gwybodaeth berthnasol i'r dysgwyr yn un dilys yn ystod cyfnodau arferol pan mae canolfannau eu hunain yn gyfarwydd â'r systemau. Ond mae'r disgwyliad hwnnw yn eithrio un gynulleidfa – ymgeiswyr preifat a'u rhieni a'u gofalwyr nad ydynt yn gysylltiedig â chanolfan. Mae hefyd yn chwalu pan nad yw canolfannau yn teimlo bod ganddynt un ai'r wybodaeth neu'r eglurder sydd ei angen i roi sicrwydd i ddysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr (paragraff 9.4.16).

12.3.2 Ni chafodd dysgwyr a oedd yn gwneud cymwysterau galwedigaethol eu trin yn gyfartal â'u cyfoedion a oedd yn gwneud cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch. Gwnaeth cyhoeddiadau Cymwysterau Cymru a oedd yn ceisio rhoi sicrwydd i ddysgwyr a oedd yn gwneud y cymwysterau cyffredinol adael y dysgwyr galwedigaethol i raddau helaeth heb unrhyw wybodaeth (paragraff 9.4.15).

***Argymhellion***

12.3.3 Bydd ymgysylltiad cynnar â dysgwyr yn ystod y cyfnod dylunio o'r dull ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021 yn rhoi hyder iddynt fod eu llais yn cael ei glywed a bydd wedyn yn gwella cyfathrebu unwaith y bydd cyfeiriad wedi'i osod (paragraff 9.4.17).

12.3.4 Mae'n rhaid i ddysgwyr Cymru gael eu trin yn gyfartal, waeth bynnag y math o gymhwyster maent yn ei astudio. Mae angen i'r canolfannau sy'n darparu cymwysterau galwedigaethol a'r dysgwyr sy'n gwneud y cymwysterau hyn gael eu clywed gan Lywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru fel bod eu pryderon a'u hanghenion yn cael eu hadlewyrchu mewn unrhyw drafodaethau ag Ofqual a'r cyrff dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn 2021 (paragraff 9.4.18).

12.3.5 Mae gwrando ar ddysgwyr yn wers hanfodol ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddyfarnu cymwysterau a chynnal asesiadau sy'n arwain at gymwysterau cenedlaethol. Mae rhoi buddiannau'r dysgwr wrth wraidd unrhyw broses barhaus o wneud penderfyniadau yn hollbwysig i adennill ymddiriedaeth ac i ailadeiladu hyder a sicrwydd sydd fawr eu hangen yn y broses asesu a chymhwyso (paragraff 9.1.18).

12.3.6 Wrth ddatblygu a chyflenwi'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021, bydd yn bwysig ar gyfer dilyniant dysgwyr Cymru bod darparwyr addysg uwch a chyflogwyr yn cael gwybodaeth glir ac amserol sy'n rhoi hyder iddynt recriwtio o Gymru (paragraff 7.15).

### 12.4 Ymgynghori, cyfathrebu ac ymgysylltu

12.4.1 Bu chwalfa sylweddol yn yr ymddiriedaeth rhwng y rheoleiddiwr a chorff arholi a'r proffesiwn addysgu o ganlyniad i'r dull a weithredwyd yn 2020 (paragraff 9.3.17).

12.4.2 Gosodwyd gormod o ddibyniaeth ar y broses ymgynghori ffurfiol a roddwyd ar waith gan Cymwysterau Cymru fel sail ar gyfer derbyn adborth digonol gan randdeiliaid ac ymgysylltu â hwy (paragraff 9.3.15).

12.4.3 Methwyd ar y cyfle i addasu dulliau cyfathrebu ag ysgolion a cholegau a chroesawu barn arbenigwyr ychwanegol, ynghyd â'r cyfle i lywio rhai o'r penderfyniadau hollbwysig a wnaed a lliniaru rhai o ganlyniadau'r penderfyniadau hyn (paragraff 9.3.16).

12.4.4 Nid oedd cynllun cyfathrebu cydlynol a chynhwysfawr a fyddai wedi sicrhau bod pob rhanddeiliad yn derbyn y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt mewn modd amserol ac wedi'i deilwra (paragraff 9.3.18).

***Argymhellion***

12.4.5 Mae angen ailadeiladu ymddiriedaeth gan Cymwysterau Cymru a CBAC er budd holl ddysgwyr Cymru drwy ddeialog ystyrlon ac ymgysylltiad uniongyrchol â'r gweithwyr proffesiynol ym maes addysgu wrth gynllunio system gymwysterau gadarn, ddibynadwy a theg ar gyfer y dyfodol (paragraff 9.3.20).

12.4.6 Dylai ymgynghoriad mwy cynhwysol ac ymgysylltu dwyffordd cryfach â'r holl randdeiliaid fod yn flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC wrth symud ymlaen (paragraff 9.3.19).

12.4.7 Dylid datblygu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael ag anghenion yr holl randdeiliaid – gan gynnwys dysgwyr, prifysgolion a chyflogwyr – ar y cyd gan y sefydliadau allweddol. Mae'n rhaid i gynllun o'r fath nodi cyfrifoldebau cyflawni gyda phob cynulleidfa ac ymgorffori proses o fonitro effeithiolrwydd negeseuon a dealltwriaeth ohonynt (paragraff 9.3.21).

## 12.5 Arweinyddiaeth a llywodraethu

12.5.1 Cafodd y gyfres o benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru oedd yn ymwneud â dyfarnu graddau yn haf 2020, a'r sgil effeithiau a ddaeth ynghyd â'r penderfyniadau hynny, eu llywio yn uniongyrchol gan Cymwysterau Cymru a CBAC ac roeddent yn adlewyrchu diwylliannau sylfaenol y ddau sefydliad allweddol hyn o fewn yr haen ganol â chyfrifoldeb dros arholiadau a chymwysterau (paragraff 9.1.14).

12.5.2 Roedd ymlyniad agos i gylchoedd gwaith a chyfrifoldebau sefydliadol yn caniatáu i fylchau ymddangos ac anwybyddwyd lleisiau ac opsiynau amgen. Ni wasanaethodd y diffyg trosolwg cydlynol hwn system addysg Cymru na'i dysgwyr yn dda ac, yn dilyn hyn, dangoswyd bod haenu cyfrifoldebau yn hollol annigonol ar gyfer heriau haf 2020 (paragraff 9.1.15).

12.5.3 Byddai ymateb traws-sefydliadol a oedd yn gydgysylltiedig ac wedi'i arwain yn glir, ac a oedd yn dod ag amryw o ffrydiau gwaith a chyrff amrywiol at ei gilydd, wedi rhoi canlyniadau tecach ar gyfer yr holl ddysgwyr yng Nghymru ac wedi cyfyngu ar y gofid a achoswyd i'r dysgwyr a'u teuluoedd (paragraff 9.1.16).

12.5.4 Roedd o fewn cylch gwaith Cymwysterau Cymru i fod wedi dwyn arbenigwyr eraill at ei gilydd i gynorthwyo â chydlynu, cydgysylltu a rheoli'r rhaglen (paragraff 9.1.17).

***Argymhellion***

12.5.5 Mae angen arweinyddiaeth fwy ymatebol bellach, gan Cymwysterau Cymru a CBAC, i weithredu er budd pob dysgwr yng Nghymru mewn ffyrdd sydd yn fwy cynhwysol ac yn sylweddol gydnaws â ffyrdd cydweithredol o weithio (paragraff 9.1.19).

12.5.6 Mae cwblhau'r adolygiad hwn a'n dadansoddiad wedi cryfhau ein barn bod strwythur arweinyddiaeth trosfwaol, cydgysylltiedig ac wedi'i gadeirio'n annibynnol yn hollbwysig i'r gwaith llwyddiannus o ddylunio a chyflawni'r dull cytunedig o ddyfarnu graddau ar gyfer haf 2021 (paragraff 9.1.20).

## 12.6 2022 a'r cwricwlwm newydd

12.6.1 Mae canslo arholiadau am ail flwyddyn yn rhoi cyfle unigryw a phwysig i system addysg Cymru baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd drwy ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol mewn trafodaethau cadarn am lwybrau asesu amgen (paragraff 11.10).

***Argymhellion***

12.6.2 Mae tegwch i ddysgwyr yn hollbwysig ac, felly, mae'n rhaid cael adolygiad ar frys o'r trefniadau asesu ar gyfer 2022. Byddai dull sydd wedi'i lunio ar y cyd, sy'n dilyn y dull a gymerwyd gan Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni 2021, yn un ffordd bosibl ymlaen. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau cynnar i ganiatáu cynllunio digonol i ddigwydd ac i leihau'r baich sylweddol o bryder ac ansicrwydd a osodwyd ar ddysgwyr 2022, sydd eisoes wedi cychwyn eu cyrsiau astudio (paragraff 11.11).

12.6.3 Mae'r system addysg yng Nghymru yn ymfalchïo yn ei chenhadaeth genedlaethol i gyflenwi tegwch a rhagoriaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr. Os am wireddu hyn, ni ellir gwastraffu, osgoi neu atal y cyfle i ailfeddwl asesiadau ac arholiadau oherwydd dyhead i ddychwelyd i system arholiadau na ellir

bodloni gofynion cwricwlwm newydd a diwallu anghenion yr holl ddysgwyr yng Nghymru. Blwyddyn gyntaf asesiad allanol y Cwricwlwm i Gymru fydd 2027 ac argymhellwn fod y drysau'n cael eu hagor i bontio i ffurfiau amgen o asesu yn llawer cynt nag a gynlluniwyd yn flaenorol (paragraff 11.12).

**Atodiad 1: Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth**

<u>Cylch gwaith ac amcanion:</u>

- Gan gydnabod nad oedd dewis arall ond canslo cyfres arholiadau haf 2020 (TGAU, Safon UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau, ynghyd â chymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru) yng ngoleuni'r pandemig iechyd cyhoeddus a'r pryder yr oedd yr ansicrwydd yn ei greu i'r dysgwyr, eu teuluoedd ac ymarferwyr, dylai'r adolygiad annibynnol hwn ystyried y materion allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r trefniadau a ddatblygwyd ac a weithredwyd.
- Dylai'r adolygiad ystyried yr heriau sy'n deillio o brofiad 2020 ac (yng nghyd-destun ansicrwydd COVID-19 yn y dyfodol) yr heriau i ddysgwyr yng nghyfres arholiadau haf 2021.
- Dylid dysgu gwersi allweddol penodol o'r profiad eleni er mwyn darparu argymhellion ac ystyriaethau o ddull posibl o baratoi ar gyfer 2021 sy'n blaenoriaethu anghenion dysgwyr a'u cynnydd, ac sy'n ystyried yr angen parhaus i gynnal safonau a chywirdeb y system addysg a dyfarnu cymwysterau.
- Bwriad yr adolygiad hwn yw darparu argymhellion ac ystyriaethau i'r Gweinidog Addysg, gyda chydnabyddiaeth o'r partneriaid niferus sy'n ymwneud â chefnogi dysgwyr yng Nghymru.

<u>Cwmpas yr adolygiad a'r cwestiynau i fynd i'r afael â nhw</u>

*Egwyddorion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru*

- Wrth osod y polisi ar gyfer canslo'r arholiadau a datblygu trefniadau i ddyfarnu graddau i ddysgwyr wedi hynny, blaenoriaethodd Llywodraeth Cymru'r egwyddorion canlynol:
    - Galluogi cynnydd pob dysgwr yn y dyfodol a chydnabod eu gwaith caled trwy ddyfarnu graddau
    - Sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais, yn enwedig mewn perthynas â'r rheini mewn rhannau eraill o'r DU
    - Darparu dull cadarn a theg, sy'n deg i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
    - Cynnal hygrededd y system gymwysterau a hyder ynddi.
- A gafodd y blaenoriaethau hyn eu deall yn glir a'u rhannu gan yr holl bartneriaid cyflenwi?
- A roddwyd y pwysoliad cywir iddynt?

*Heriau gweithredoli*

- Beth oedd y materion a heriau allweddol wrth weithredoli'r trefniadau yn 2020, gan gydnabod y cyfyngiadau yr oedd pob rhan o'r sector yn gweithio oddi mewn iddynt?
- A gafodd y dulliau a fabwysiadwyd, a'r dewisiadau amgen hynny na chawsant eu mabwysiadu, eu profi a'u gwerthuso'n gadarn yn erbyn y cyfarwyddiadau polisi a fwriadwyd?
- A gafodd y dulliau a fabwysiadwyd, a'r dewisiadau amgen hynny na chawsant eu mabwysiadu, eu profi a'u gwerthuso'n gadarn yn erbyn meini prawf cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau tegwch?

*Rolau, cyfrifoldebau a chydberthnasau sefydliadol*

- A oes eglurder yn y gwahanol gyfrifoldebau yn sector addysg Cymru am gefnogi cyflwyno cymwysterau?
- A gyflawnwyd y rolau perthnasol wrth ddyfarnu graddau eleni yn briodol, gyda dealltwriaeth dda ohonynt, ac a gawsant eu cyfleu'n briodol gan y partïon dan sylw?

- A oedd y pwyslais a roddwyd ar ryngddibyniaethau ledled y DU, ac effaith gwahanol ddulliau a gymerwyd mewn rhannau eraill o'r DU ar Gymru, wrth ystyried a gweithredoli trefniadau ar gyfer 2020, yn briodol?

*Tryloywder a llais y dysgwr*

- A fu digon o ymgysylltu, cyfathrebu a thryloywder â rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflwyno'r trefniadau yn 2020 ac a gynrychiolwyd llais y dysgwr yn briodol?

*Heriau ac opsiynau ar gyfer 2021*

- O ystyried yr heriau i garfan 2020/21 o ran cynnydd a chyflawniad, a chyflawni tegwch a hygrededd yng nghyd-destun system gymwysterau ehangach y DU ac ar gyfer dysgwyr unigol, pa ddulliau asesu y gellid eu hystyried ar gyfer 2021 a fyddai'n helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a nodir uchod?

Wrth ystyried yr uchod, gwahoddir yr adolygiad yn enwedig i ystyried y cwestiynau a ganlyn:

- Pa wersi a ddysgwyd o weithredoli'r broses safoni yn 2020, a beth ddylid ei ystyried wrth gytuno ar y meini prawf neu'r egwyddorion ar gyfer unrhyw broses safoni yn 2021?
- Sut y gellir cydnabod a blaenoriaethu llais dysgwyr a'u lles mewn unrhyw ddull yn y dyfodol?
- A oes rôl i gyfraniad asesu mwy gan athrawon a chanolfannau sy'n gymesur â'r angen i flaenoriaethu amser addysgu a dysgu?
- A oes model cymedroli posibl ar draws clystyrau/canolfannau, gyda chefnogaeth darpariaeth dysgu proffesiynol, ac a allai ymarferwyr, Estyn, awdurdodau lleol neu gonsortia addysg rhanbarthol chwarae mwy o ran wrth sicrhau cysondeb dull rhwng ysgolion?
- Pa rôl ddylai fod ar gyfer unrhyw broses apelio, a sut y gellid ystyried y cyfrifoldebau, o'r ysgol hyd at lefel rheoleiddwyr, mewn unrhyw broses yn y dyfodol?
- Pa ddadansoddiad pellach sydd ei angen i ddeall effaith digwyddiadau’r haf hwn ar garfannau yn y blynyddoedd dilynol?

*Meysydd pellach i'w hystyried*

- Efallai y bydd yr adolygiad hefyd yn nodi meysydd i'w hystyried a'u harchwilio ymhellach wrth i ni ddechrau'r newid i ddiwygio'r cwricwlwm. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, feysydd sy'n ymwneud ag: agwedd ymarferwyr tuag at asesu a barn broffesiynol, rôl systemau atebolrwydd a’r ymddygiad maen nhw’n ei yrru, a rôl a dyluniad cymwysterau yn y dyfodol.
- Efallai y bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried gwersi y gallwn eu defnyddio o ddulliau a gymerwyd i asesu a dyfarnu cymwysterau yn rhyngwladol.

*Gweithrediad yr adolygiad a'r amseru*

- Bydd y cadeirydd yn ystyried aelodaeth o'r tîm adolygu a bydd yn dod â phartneriaid a rhanddeiliaid i mewn i ddarparu cyfraniadau a myfyrdodau. Swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn darparu'r ysgrifenyddiaeth.
- O ystyried yr angen taer i roi mesurau ar waith i sicrhau y gellir cyflawni cyfres arholiadau 2021, ochr yn ochr â datblygu trefniadau wrth gefn rhag ofn y bydd tarfiad pellach, dylai'r adolygiad adrodd mewn dau gam:
    - bydd adroddiad interim yn cynnwys canfyddiadau a ffactorau allweddol i fynd i'r afael â hwy yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn diwedd mis Hydref 2020;

- bydd adroddiad terfynol gydag argymhellion llawn yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn canol mis Rhagfyr 2020.

Aelodau'r panel adolygu

- Louise Casella, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru (cadeirydd yr adolygiad);
- Yr Athro Alma Harris, Dirprwy Bennaeth Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe. Cynghorydd y Cyngor Rhyngwladol i'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog, yr Alban;
- Rosemary Jones OBE, cynghorydd gwella ysgolion, ymgynghorydd addysg a chyn-bennaeth;
- Andy Youell, arbenigwr data a systemau llawrydd, Cyfarwyddwr Polisi a Llywodraethu Data yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn gynt.

**Atodiad 2: Crynodeb o'r Dystiolaeth**

Cyfwelodd y panel â'r canlynol:

- Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru
- Adran Addysg Llywodraeth Cymru
- Cymwysterau Cymru
- CBAC
- Syr Alasdair Macdonald, Cynghorydd i Lywodraeth Cymru ac Eiriolwr Premiwm Disgyblion
- Dysgwyr, penaethiaid, athrawon, cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol, swyddogion arholiadau a llywodraethwyr o leoliadau ysgol:
  - Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Hedley
  - Ysgol Uwchradd Prestatyn
  - Ysgol Gymunedol Cenydd Sant
  - Ysgol Bro Teifi
- Dysgwyr o gefndiroedd BAME (pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) a gweithwyr ieuenctid gyda Chadeirydd Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST)
- Dysgwyr, pennaeth, darlithwyr a llywodraethwyr o leoliad addysg bellach:
  - Coleg Caerdydd a'r Fro
- Welsh Youth Parliament / Senedd Ieuenctid Cymru
- Penaethiaid o grŵp cynrychioliadol o ysgolion ledled Cymru:
  - Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Hedley
  - Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan
  - Ysgol y Gadeirlan, Caerdydd
  - Ysgol Gymunedol Cenydd Sant
  - Ysgol Gyfun Pontarddulais
  - Ysgol Uwchradd Prestatyn
  - Cymuned Ddysgu Canolfan yr Afon
  - Ysgol Alun
  - Ysgol Bro Teifi
  - Ysgol Brynrefail
  - Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
  - Ysgol Llanhari
  - Ysgol y Deri
- Cynrychiolwyr o arweinwyr colegau addysg bellach a Cholegau Cymru:
  - Coleg Caerdydd a'r Fro
  - Grŵp Llandrillo Menai (Coleg Menai / Coleg Meirion-Dwyfor)
  - Coleg Gŵyr
  - Prif Weithredwr, Colegau Cymru
- Pob rheolwr gyfarwyddwr yn y consortia rhanbarthol (Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW, Consortium Canolbarth y De a GwE)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) / cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaeth
- Undebau llafur a chyrff cynrychioladol (gwahoddwyd pob un ond nid oedd yn bosib i bawb fynychu oherwydd pwysau amser yr adolygiad):
  - ASCL
  - GMB
  - NAHT
  - NASUWT
  - UCAC
  - Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU)
- Estyn
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
- Cynrychiolwyr o brifysgolion Cymru sy'n rhan o waith recriwtio a Phrifysgolion Cymru:
  - Prifysgol Aberystwyth
  - Prifysgol Caerdydd
  - Prifysgol De Cymru
  - Prifysgol Abertawe
  - Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru
- Cynrychiolwyr o brifysgolion Lloegr sy'n rhan o waith recriwtio:
  - Prifysgol Loughborough
  - Prifysgol Gorllewin Lloegr

**Rhoddwyd gwahoddiadau unigol i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig** hefyd gan amrediad o randdeiliaid eraill (gan gynnwys yr holl gyrff dyfarnu cymwysterau galwedigaethol a gymeradwywyd, darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac Ofqual).
Gwahoddwyd **cyflwyniadau ysgrifenedig** gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr, gweithwyr addysg proffesiynol ac ystod eang o randdeiliaid eraill hefyd drwy arolwg ar-lein.
Derbyniwyd bron i 4,000 o ymatebion i'r arolwg ar-lein, a derbyniwyd cyflwyniadau ysgrifenedig ychwanegol gan:

- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Grwpiau cwricwlwm a chymwysterau Colegau Cymru
- Unigolion

Adolygodd y panel y trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Awst 2020 hefyd: https://cofnod.senedd.cymru/Committee/6452

Mae aelodau'r panel hefyd wedi cyfarfod â’r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Rheoleiddio yn y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau a'r Rheoleiddiwr Ystadegau i ddysgu mwy am eu hadolygiad DU o'r dull o ddatblygu modelau ystadegol a gynlluniwyd i ddyfarnu canlyniadau arholiadau 2020.

Hoffai'r panel ddiolch i bawb a ddarparodd mewnbwn i'r adolygiad.

**Atodiad 3: Dyddiadau allweddol yn ystod 2020**

| Dyddiad | Corff/Rhanddeiliad | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| 3 Mawrth | Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru | Trafodaeth gyntaf ar gynllunio wrth gefn ar gyfer dyfarnu cymwysterau |
| 10 Mawrth | Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru | Trafodaeth bellach ar gynllunio wrth gefn ar gyfer dyfarnu cymwysterau |
| 12 Mawrth ac yna bob pythefnos | Cyfarfodydd swyddogion addysg Llywodraeth Cymru â swyddogion addysg gwledydd eraill y DU | Trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau |
| 12 Mawrth | Cymwysterau Cymru a CBAC | Cynllunio wrth gefn |
| 17 Mawrth | Cymwysterau Cymru a CBAC | Cynllunio ar gyfer casglu data gan ganolfannau ac opsiynau ar gyfer dyfarnu cymwysterau |
| Cyn 18 Mawrth *(dyddiadau heb eu cadarnhau – cyfeirir ato mewn cyngor i'r Gweinidog ar 18 Mawrth)* | Gweithdai Cymwysterau Cymru gydag Ofqual | Cynllunio wrth gefn ar gyfer dyfarnu cymwysterau |
| 18 Mawrth | Llywodraeth Cymru gyda chyngor gan Cymwysterau Cymru a CBAC | Penderfyniad i ganslo arholiadau haf 2020 ac i ddefnyddio trefniadau amgen i ddyfarnu graddau |
| 18 Mawrth | Cymwysterau Cymru ac Ofqual[28] | Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllunio wrth gefn |
| 20 Mawrth | Cymwysterau Cymru | Datganiad ar roi graddau yn 2020 – awgrymiad cynnar o'r dull |
| 23 Mawrth | Cymwysterau Cymru/CBAC/Ofqual | I drafod syniadau cynnar am y graddau asesu canolfannau |
| 24 Mawrth ymlaen | Y Cydgyngor Cymwysterau (JCQ) – gan gynnwys CBAC a'r prif gyrff dyfarnu eraill ledled pedair gwlad y DU (gan gynnwys Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA)) | Cyfarfodydd diweddaru rheolaidd |
| 3 Ebrill | Cymwysterau Cymru/CBAC/Ofqual | I drafod opsiynau ar gyfer cynhyrchu graddau – diffinio'r dull a'r model |
| 16 Ebrill | Cymwysterau Cymru/CBAC/Ofqual | I drafod rheolaeth o drefnau safle ar gyfer carfannau mawr |
| 23 Ebrill – 14 Awst (yn fwy aml ym mis Mehefin/Gorffennaf) | CBAC/Ofqual | Grŵp Safonau a Gweithrediad Technegol – safonau graddio; trafodaeth o faterion sy'n ymwneud â'r |

[28] Gallai fod y cyfarfodydd ag Ofqual wedi cynnwys hefyd y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) o Ogledd Iwerddon – mae Cymwysterau Cymru yn cyfeirio at y dull tair gwlad a oedd yn ceisio sicrhau dull cyffredin ar gyfer y brandiau a rennir, sef TGAU, Safon UG a Safon Uwch.

| Dyddiad | Corff/Rhanddeiliad | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | | cynigion terfynol a gwaith gweithredu |
| 24 Ebrill ymlaen | Cymwysterau Cymru/Ofqual/CCEA | Diweddariadau rheolaidd |
| 28 Ebrill – 26 Mai bob pythefnos | CBAC/Ofqual | Is-grŵp modelu i ddatblygu syniadau a thrafod trefniadau profi ar gyfer dulliau graddio |
| 28 Ebrill | Cymwysterau Cymru | Dechrau ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer cyfrifo graddau |
| 28 Ebrill – 13 Mai | Pawb – gan gynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr, y proffesiwn addysgu o ysgolion a cholegau, a gweithwyr addysg proffesiynol eraill | Ymatebion i'r ymgynghoriad (dros 4,000 o ymatebion) |
| 5 Mai | Cymwysterau Cymru/Ofqual/CCEA/SQA | Diweddariad pedair gwlad |
| Mai | Cymwysterau Cymru | Cadarnhawyd y dull ar gyfer casglu data canolfannau a rhoddwyd canllawiau ar lefel gyffredinol |
| Mai | CBAC | Rhoddwyd canllawiau ar lefel pwnc |
| Mai/Mehefin | Canolfannau (ysgolion/colegau) | Daeth i benderfyniadau ar y graddau asesu canolfannau a threfnau safle<br>gan ddefnyddio cymedroli mewnol rhwng athrawon yn y ganolfan |
| 16 Mehefin | Bwrdd Cymwysterau Cymru | Cyfarfod i gadarnhau adroddiad penderfyniadau ar yr ymgynghoriad a'r meini prawf ar gyfer y modelau ystadegol a gymeradwywyd |
| 19 Mehefin | Cymwysterau Cymru | Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad |
| 22 Mehefin | Gweinidog/swyddogion addysg Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru | Trafodwyd haelioni’r graddau asesu canolfannau o’u cymharu â phroffil graddau’r blynyddoedd blaenorol. Ystyriaeth o sut i reoli ac yr angen am fodelau safoni |
| Mehefin/Gorffennaf | Cymwysterau Cymru/CBAC | Datblygu model safoni a’i gymeradwyo |
| 30 Gorffennaf | Cymwysterau Cymru/CBAC | Cyfarfod Cynnal Safonau – adolygwyd canlyniadau Safon Uwch |
| 3 Awst | Cymwysterau Cymru/CBAC | Cyfarfod Cynnal Safonau – adolygwyd canlyniadau Safon UG |
| 3 Awst | Swyddogion addysg Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru | Grŵp Rhannu Gwybodaeth – canlyniadau Safon Uwch |

| Dyddiad | Corff/Rhanddeiliad | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| 4 Awst | Cyhoeddi canlyniadau'r Scottish Highers | |
| 4 Awst | Cymwysterau Cymru/Ofqual/CCEA | Cyflwyniadau Safon Uwch |
| 6, 10, 11 Awst | Cymwysterau Cymru/CBAC | Cyfarfod Cynnal Safonau – canlyniadau TGAU |
| 6 Awst | CBAC | Rhoddwyd graddau Safon Uwch safonedig i UCAS |
| 10 Awst | Gweinidog / swyddogion addysg Llywodraeth Cymru / Cymwysterau Cymru | Dadansoddiad interim Cymwysterau Cymru o gydraddoldebau canlyniadau Safon Uwch |
| 10 Awst | Cymwysterau Cymru | Anfonwyd pecynnau gwybodaeth canlyniadau Safon Uwch i ganolfannau |
| 11 Awst | Datganiad gan yr Alban i ddefnyddio graddau asesu canolfannau | |
| 12 Awst | Cyfarwyddyd yr Adran dros Addysg yn Lloegr i Ofqual | Cyfarwyddyd i ddefnyddio'r 'clo triphlyg' (derbyn y radd a gyfrifwyd, apelio i dderbyn canlyniad ffug arholiad dilys, neu sefyll arholiadau yn yr hydref) |
| 12 Awst | Gweinidog / swyddogion addysg Llywodraeth Cymru / Cymwysterau Cymru | I drafod penderfyniad Lloegr |
| 12 Awst | Llywodraeth Cymru (a chyfarwyddyd i Cymwysterau Cymru) | Cyhoeddiad i ddefnyddio canlyniadau Safon UG fel sylfaen ar gyfer canlyniadau Safon Uwch |
| 13 Awst | Diwrnod canlyniadau Safon UG a Safon Uwch | |
| 17 Awst | Llywodraeth Cymru / Cymwysterau Cymru | Diweddariad o bolisi Cymru yn dilyn penderfyniad Lloegr i symud i raddau asesu canolfannau |
| 17 Awst | Llywodraeth Cymru (a chyfarwyddyd i Cymwysterau Cymru) | Cyhoeddiad i symud i raddau asesu canolfannau ar gyfer TGAU, Safon UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau – cydbwysedd tegwch bellach yn gorwedd gyda'r graddau asesu canolfannau |
| 20 Awst | Diwrnod canlyniadau TGAU | |

**Atodiad 4**

# Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad ar Gymwysterau

Mae'r papur hwn yn crynhoi dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion a gynigiodd adborth ar drefniadau asesu yng Nghymru. Bwriedir iddo gefnogi a llywio gwaith datblygu'r adroddiad terfynol sydd wrthi'n cael ei lunio gan y panel annibynnol.

## Llywio trwy'r Ddogfen hon

Mewn holiadur a gynhaliwyd ar-lein, gofynnwyd cwestiynau i ymatebwyr â'r nod o archwilio'u safbwyntiau a'u canfyddiadau ynghylch ar bedwar prif bwnc, gan gynnwys:

- Yr egwyddorion sylfaenol sy'n cefnogi dull o weithredu Llywodraeth Cymru o safbwynt trefniadau asesu.
- I ba raddau y cafodd safbwyntiau a chanfyddiadau ymatebwyr eu hadlewyrchu yn y cynlluniau ar gyfer trefniadau 2020.
- Y prosesau a pholisïau a lywiodd trefniadau 2020, a sut y gellid eu gwella ar gyfer 2021.
- Effaith trefniadau 2020 ar ddysgwyr ac ysgolion.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno arolwg manwl o'r prif dueddiadau a themâu a gododd ar draws yr ymatebion. I ddechrau, mae'n amlinellu nifer o ganfyddiadau a myfyrdodau trosfwaol (Adran 1). Mae'n symud ymlaen i gyflwyno adroddiad naratif manwl o dueddiadau a themâu, gan weithio trwy'r pynciau a chwestiynau yn ôl y drefn y maent yn ymddangos yn yr arolwg (Adran 3).

## Dehongli Ymatebion

Er mwyn gwneud synnwyr o'r safbwyntiau ansoddol a fynegwyd gan ymatebwyr, ymgymerodd yr awduron â dadansoddiad thematig. Mae'r dull hwn yn archwilio pob ymateb yn systematig, gan

amlygu'r themâu a materion a godir. Yna, gall y dadansoddiad archwilio pa mor amlwg yw pob thema neu syniad o blith yr holl ymatebion.

Wrth gyfathrebu'r farn gyffredinol o ran y data ansoddol, mae angen ystyried nifer o ffactorau fel a ganlyn: rhaid ystyried y dehongliad yng nghyd-destun y cwestiynau a ofynnwyd – nid oedd llawer o ymatebwyr wedi cynnig safbwyntiau ar gyfer pob cwestiwn, ac nid oedd pob ymatebydd wedi nodi digon o wybodaeth i'w gwneud yn bosibl i bennu ei safbwynt yn fanwl gywir. Nid yw'r ffaith nad oes ymateb yn awgrymu nad oes gan ymatebydd safbwynt neu bryder ynghylch pwnc penodol. Felly, ni ellir cymryd yn ganiataol fod amlygrwydd crai themâu yn feintiol gysylltiedig â'r ymatebwyr yn gyffredinol, nac ychwaith â'r gymuned addysgol yn ehangach.

Ystyriaeth bellach yw presenoldeb unrhyw dueddiad hunanddewis a allai ddylanwadu ar amlygrwydd rhai safbwyntiau penodol ar draul rhai eraill ymhlith y data ymateb. Mae hyn yn cyfyngu ar allu dadansoddiadau dilynol i amcangyfrif y farn gyffredinol wirioneddol y tu hwnt i'r bobl hynny a ymatebodd.

Gyda'i gilydd, felly, rydym wedi cyflwyno dehongliad gofalus yma o'r farn gyffredinol mewn data ansoddol. Rydym wedi bwriadu rhoi darlun eang o'r farn a safbwyntiau a fynegwyd mewn ymatebion. Defnyddir amrediad o dermau i fynegi amlygrwydd, gan gynnwys ‘y mwyafrif’, ‘llawer’, ‘rhai’ ac ‘ychydig’, i gyfleu'r mwyaf i'r lleiaf amlwg. Dull ansoddol a ddilynir ar y cyfan, gyda'r nod o ddeall yr amrywiaeth o faterion allweddol a godwyd gan ymatebwyr, ynghyd â'r rhesymau dros fod â barn benodol. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys meysydd lle ceir cytundeb ac anghytundeb posibl rhwng y grwpiau gwahanol o ymatebwyr.

Mae'n bwysig nodi cyfyngiadau pellach o safbwynt y dadansoddiad hwn. Nid yw'r ymatebwyr a gyfrannodd at y dadansoddiad o reidrwydd yn cynrychioli'r gymuned addysgol ehangach, na'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'n anodd amcangyfrif i ba raddau y ceir tueddiad hunanddewis a'i effaith ar y tueddiadau cyffredinol a adlewyrchir yn y data. Mae'n bosibl, o ystyried natur sensitif y pwnc, mai'r bobl hynny sydd â'r farn gryfaf a fu fwyaf tebygol o gymryd amser i ymateb i'r ymgynghoriad.

Ceir cwestiwn pellach ynghylch statws yr ymatebion gan grwpiau penodol o randdeiliaid, gan gynnwys p'un a oedd ymatebwyr yn ymateb ar sail bersonol, neu'n adlewyrchu ymatebion sefydliadol. Derbyniwyd 52 o ymatebion gan y bobl hynny a ymatebodd ar ran cyrff dyfarnu, er enghraifft. Nid yw bob amser yn glir o'r data p'un a ydynt yn ymateb o safbwynt personol, neu a yw'r safbwyntiau'n adlewyrchu rhai'r cyrff dyfarnu eu hunain.

**Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried yr ymatebion a’r dadansoddiadau dilynol a gyflwynir yma fel arwydd o safbwyntiau, teimladau a barn ymatebwyr, yn hytrach na datganiad diffiniol o safbwyntiau'r gymuned gyffredinol ynghylch trefniadau cymwysterau.**

# 1 Canfyddiadau a Myfyrdodau Allweddol

## Egwyddorion Sylfaenol

Yn gyffredinol, cafwyd cefnogaeth gref ar draws pob grŵp o randdeiliaid am yr egwyddorion sylfaenol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ac a lywiodd y broses o ddyfarnu cymwysterau yn 2020. Awgryma hyn eu bod efallai'n cyflwyno sylfaen gref o ran ystyried trefniadau cymwysterau ar gyfer 2021, un sy'n cyd-fynd â barn a safbwyntiau'r gymuned addysgol yn gyffredinol.

Amlygodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd sicrhau y ceir cydraddoldeb yn y canlyniadau drwy'r trefniadau ar gyfer 2021. Ymddengys hyn ei fod yn atgyfnerthu ac yn ymestyn yr ail egwyddor a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 'Sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais, yn enwedig o'u cymharu â'r dysgwyr hynny yn rhannau eraill y DU'. Amlygodd ymatebwyr hefyd amrediad o ddimensiynau a nodweddion sy'n llywio cwestiynau am degwch, gan gynnwys myfyrio ar yr heriau a wynebir gan gymunedau gwahanol ledled Cymru o ran addysgu, dysgu a chymorth.

Amlygodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd sicrhau a hybu lles dysgwyr mewn trefniadau. O'r safbwyntiau hyn, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i effeithiau'r amgylchiadau unigryw y mae pob dysgwr yn eu hwynebu ar lesiant, yn enwedig ynghylch y goblygiadau posibl i iechyd meddwl.

## Yr Ymgynghoriad sy'n Llywio'r Dull ar gyfer 2020

Yn gyffredinol, roedd y wybodaeth am yr ymgynghoriad a fyddai'n llywio gwaith cynllunio'r dull ar gyfer 2020 yn eithaf isel, ac roedd y canfyddiadau o ganlyniadau'r broses yn wael. Dim ond 20.8 y cant o ymatebwyr amlygodd eu bod yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad wedi digwydd, a theimlodd 84.5 y cant o ymatebwyr nad oedd eu llais wedi'i chynrychioli'n ddigonol yn ystod y gwaith o ddatblygu'r dull.

Mae dadansoddiad pellach yn awgrymu, ar gyfartaledd, ac ar draws pob grŵp o randdeiliaid, bod y bobl hynny a oedd yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad wedi digwydd yn fwy tebygol o feddwl bod trefniadau dilynol wedi ystyried eu safbwyntiau. Awgryma hyn y gall cyfathrebu, egluro ac ymgynghori fod yn bwysig wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol, yn enwedig wrth feithrin cefnogaeth am ddull penodol.

## Gweithredu'r Dull ar gyfer 2020

Yn gyffredinol, teimlodd ymatebwyr fod agweddau penodol ar weithredu'r dull ar gyfer 2020 wedi gweithio'n well na rhai eraill. Er enghraifft, roedd y farn gyffredinol ynglŷn â pha mor dda roedd y dull terfynol wedi cael ei gyfleu i ymatebwyr yn tueddu tuag at ganfyddiadau negyddol. Gan gydnabod yr heriau roedd sefydliadau wedi'u hwynebu wrth ddatblygu'r dull, a'i weithredu, roedd 63.5 y cant o'r holl ymatebwyr wedi cytuno, neu gytuno'n gryf, eu bod wedi gwneud eu gorau.

Roedd yr anghytundeb mwyaf sylweddol yn canolbwyntio ar b'un a gafodd y broses ei gweithredu mewn ffordd a aeth i'r afael â gofidiau dysgwyr mewn amgylchiadau ansicr. Yn gyffredinol, roedd 61.5 y cant o ymatebwyr wedi anghytuno, neu anghytuno'n gryf, bod y broses wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r goblygiadau i lesiant dysgwyr.

Thema gyffredin a gafwyd ar draws yr ymatebion oedd pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol. Er bod y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig gwybod, roedd cyfrannau sylweddol o ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn gwybod manylion rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau a gyfrannodd at y broses o gynllunio'r dull a'i weithredu. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y gellid gwella'r cyfathrebu, gan gynnwys ynghylch mecanwaith y broses ddyfarnu. Fodd bynnag, roedd athrawon ac arweinwyr ysgolion yn hapus eu bod wedi derbyn digon o gymorth ac arweiniad ar raddau asesu canolfannau a threfnau safle dysgwyr.

Cafwyd cydnabyddiaeth eang o'r rhan bwysig y mae graddau asesu canolfannau yn ei chwarae mewn trefniadau cymwysterau. O'r safbwyntiau hyn, mae'r bobl hynny sydd oddi mewn i ganolfannau yn gwybod am alluoedd dysgwyr ac yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ac ystyriol. Golygodd hyn fod yn ystyriol o'r graddau y tarfwyd ar ddysgu ac addysgu dysgwyr unigol. Roedd llawer o ymatebwyr hefyd wedi cydnabod y rôl bwysig y dylai cymedroli ei chwarae wrth ddyfarnu graddau. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y gellid cryfhau hyn gyda phrosesau mwy eglur a syml nad ydynt yn rhy feichus i athrawon ac ysgolion.

Yna, gofynnwyd i ymatebwyr am y prif faterion sy'n ymwneud â defnyddio modelau safoni a gwaith cymedroli mewnbynnau asesu canolfannau. Rhannodd yr ymatebwyr amrediad eang o ymatebion, gan gynnwys ailddatgan y pwysigrwydd o sicrhau bod y system yn deg. Teimlodd rhai fod modelau safoni, er yn amherffaith, yn cynnig modd o gymedroli dyfarniadau er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws cenedlaethau o ddysgwyr. I'r gwrthwyneb, teimlodd eraill nad oedd modelau safoni'n ddigon ystyriol o amgylchiadau unigol. O'r safbwyntiau hyn, gallai modelau safoni ail-greu anghydraddoldebau sy'n gynhenid yn y system addysg a chosbi rhai dysgwyr unigol, yn enwedig y bobl ifanc hynny o gymunedau dan anfantais sy'n perfformio ar lefel uchel.

## Effaith y Broses ar gyfer 2020

Cafwyd cytundeb eang mai'r canlyniad gorau ar gyfer dysgwyr oedd defnyddio'r radd uchaf o'r graddau asesu canolfannau neu'r model safoni. Yn gyffredinol, roedd 61.1 y cant o ymatebwyr wedi cytuno, neu gytuno'n gryf, mai dyma oedd yn wir. Fodd bynnag, un o'r canfyddiadau allweddol ynghylch effaith dull 2020 yw bod y mwyafrif o grwpiau'n teimlo bod eu hyder mewn cymwysterau yng Nghymru wedi'i danseilio gan brofiad 2020.


Roedd effaith profiad 2020 ar les dysgwyr yn thema allweddol a gafodd ei hamlygu gan lawer o ymatebwyr. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ansicrwydd ynghylch datblygu a gweithredu trefniadau amgen wedi arwain at waethygu'r pryder a phwysau roedd rhai dysgwyr yn eu hwynebu.

## Myfyrdodau Petrusgar

Mae ymatebion yn awgrymu y bu cydnabyddiaeth ar y cyfan, ar draws y rhan fwyaf o grwpiau, o'r heriau o ddatblygu dull cadarn a theg o ddyfarnu graddau o dan yr amgylchiadau. Roedd llawer wedi cytuno â'r dull terfynol, gan gefnogi defnyddio modelau safoni neu raddau asesu canolfannau i ddyfarnu graddau. Roedd pryderon yn tueddu i ganolbwyntio ar yr eglurder wrth gyfathrebu ac effeithiolrwydd yr ymgynghori o ran adlewyrchu dymuniadau a phryderon pobl wahanol, yn enwedig o blith dysgwyr a'u rhieni neu ofalwyr. Mae maes pryder allweddol arall yn cynnwys effaith y broses ar lesiant dysgwyr, yr oedd llawer o ymatebwyr yn teimlo nad oedd wedi'i hadlewyrchu'n ddigonol mewn trefniadau.

# 2 Ymatebion

Gyda'i gilydd, roedd 3,951 o ymatebwyr wedi bod cystal â chwblhau'r ffurflen ymateb. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion gan amrediad eang o bobl o bob rhan o'r gymuned addysg. Cyfrannodd dysgwyr at 42.2 y cant o'r ymatebion, ac roedd rhieni a gofalwyr yn gyfrifol am 32.6 y cant. Roedd nifer sylweddol (20 y cant) o athrawon ac arweinwyr ysgol hefyd wedi rhannu eu safbwyntiau. Roedd y 5.2 y cant o ymatebwyr a oedd yn weddill wedi adrodd eu bod yn cynnig eu barn o amrediad o safbwyntiau, gan gynnwys fel llywodraethwyr ysgol, sefydliadau addysg uwch, neu gonsortia rhanbarthol:




C1, N = 3,951

Roedd cyfanswm o 476 o ymatebwyr wedi adrodd eu bod yn cynnig safbwyntiau o ddau grŵp neu fwy. Roedd rhai o'r bobl a oedd yn ymateb fel rhieni neu ofalwyr, er enghraifft, wedi adrodd eu bod nhw hefyd yn ymateb fel athrawon, llywodraethwyr neu ddysgwyr (N = 302). At ddibenion y dadansoddiad hwn, cafodd y bobl hynny a gynigiodd safbwyntiau lluosog eu rhoi mewn un grŵp. Lle nododd rhieni eu bod hefyd yn athrawon, er enghraifft, gwnaethom eu cynnwys mewn dadansoddiadau o safbwyntiau rhieni. O safbwynt dadansoddol, gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau na chawsai safbwyntiau rhieni eu gwanychu â safbwyntiau'r gweithlu addysg.

O blith yr ymatebion, mae safbwyntiau rhai grwpiau wedi'u cynrychioli'n well na rhai eraill. Oherwydd nifer isel yr ymatebion, nid yw'n bosibl, er enghraifft, bod yn fanwl gywir ynghylch safbwyntiau grwpiau o randdeiliaid fel cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch. Fodd bynnag, mae tri grŵp cyfansoddol wedi'u cynrychioli'n dda, gan gynnwys dysgwyr, eu rhieni neu ofalwyr, a'r gweithlu addysg.

# 3 Canfyddiadau Manwl


## 3.1 Egwyddorion Sylfaenol

Nododd Llywodraeth Cymru bedair egwyddor drosfwaol a lywiodd gwaith cynllunio a gweithredu trefniadau cymwysterau 2020, gan gynnwys y canlynol:

i. Galluogi cynnydd pob dysgwr yn y dyfodol a chydnabod eu gwaith caled trwy ddyfarnu graddau.
ii. Sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais, yn enwedig o'u cymharu â'r dysgwyr hynny yn rhannau eraill y DU.
iii. Gweithredu dull cadarn a theg, sy'n deg i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.
iv. Cynnal hygrededd y system gymwysterau a hyder ynddi.


Gofynnwyd i ddysgwyr, yn gyntaf, am eu safbwyntiau ar bob un o'r pedair egwyddor, ac, yn benodol, pa mor bwysig yr oeddent iddynt.

Yn gyffredinol, bu cefnogaeth gref ar draws pob un o'r grwpiau o randdeiliaid am yr egwyddorion sylfaenol a lywiodd proses ddyfarnu 2020. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr o'r farn fod pob un o'r pedair egwyddor yn bwysig neu'n bwysig iawn. Roedd pob grŵp o randdeiliaid, er enghraifft, yn gwerthfawrogi'n fawr yr egwyddor o sicrhau cynnydd pob dysgwr i'r dyfodol a chydnabod eu gwaith caled, gydag 84.9 y cant o ymatebwyr yn nodi ei bod yn bwysig iawn:



C2(i), N = 3,951

Dim ond ychydig bach o amrywiad mewn safbwyntiau a gafwyd ar draws y grwpiau gwahanol o randdeiliaid. Roedd athrawon, er enghraifft, yn teimlo bod y pedair egwyddor, gyda'i gilydd, fymryn yn bwysicach na'r asesiadau a gynigwyd gan ddysgwyr. Fodd bynnag, dim ond mymryn o wahaniaeth a geir, ac nid yw'n ystyrlon o reidrwydd: [29]





Allwedd: 1 = Ddim yn bwysig o gwbl, 2 = Ddim yn bwysig iawn, 3 = Niwtral, 4 = Eithaf pwysig, 5 = Pwysig iawn

Sgorau cymedr C2 (i, ii, iii, iv) wedi'u cyfuno, N = 3,951

[29] Newidyn cyfansawdd yn cwmpasu'r pedair egwyddor a amlygwyd yn yr arolwg, ac yn cyfuno atebion i gwestiynau 2, 3, 4 a 5. Adroddodd athrawon sgôr gymedr o 4.816, a dysgwyr 4.628 (gyda 4 yn dynodi eithaf pwysig a 5 yn dynodi pwysig iawn).

Dim ond amrywiad bach mewn safbwyntiau a gafwyd mewn ymatebion ynghylch y pedair egwyddor. Ar gyfer pob un o'r grwpiau o ymatebwyr, roedd cynnal hygrededd y system gymwysterau a hyder ynddi fymryn yn llai pwysig na'r egwyddorion eraill a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. I'r gwrthwyneb, yr egwyddor fwyaf pwysig a amlygodd ymatebwyr oedd sicrhau nad yw'r trefniadau'n rhoi dysgwyr dan anfantais, o'i chymharu â'r egwyddorion eraill:





Allwedd: 1 = Ddim yn bwysig o gwbl, 2 = Ddim yn bwysig iawn, 3 = Niwtral, 4 = Eithaf pwysig, 5 = Pwysig iawn

Sgorau cymedr C2 (i, ii, iii, iv) wedi'u cyfuno, N = 3,951

Gyda'i gilydd, awgryma hyn fod cefnogaeth eang a chref am y pedair egwyddor a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Efallai eu bod yn cyflwyno sylfaen gref o ran ystyried trefniadau cymwysterau ar gyfer 2021, un sy'n cyd-fynd â barn a safbwyntiau'r gymuned addysgol yn gyffredinol.

Yna, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn teimlo y dylid ystyried egwyddorion ychwanegol wrth gynllunio a gweithredu'r trefniadau ar gyfer 2021. Ar y cyfan, awgrymodd 49.6 y cant o ymatebwyr y dylid ystyried egwyddorion pellach. Roedd arweinwyr ysgolion, a rhieni a gofalwyr, yn fwy tebygol o gynnig awgrymiadau na'r grwpiau eraill, gyda 58.1 a 55.5 y cant yn ôl eu trefn yn ymateb yr oeddent o'r farn y dylid ystyried egwyddorion ychwanegol:




C3, N = 3,951

Cafodd y bobl hynny a oedd yn teimlo y dylid ystyried egwyddorion ychwanegol wrth gynllunio trefniadau ar gyfer 2021 gyfle i ehangu ar eu syniadau a safbwyntiau. Ar draws yr ymatebion, cynigiodd ymatebwyr amrediad eang o egwyddorion a themâu. Ceisiodd rhai ymhelaethu ac atgyfnerthu pwysigrwydd egwyddorion penodol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Manteisiodd eraill ar y cyfle i gynnig myfyrdodau ehangach, gan gynnwys materion, pryderon neu brosesau ymarferol yr oeddent yn teimlo'i bod yn bwysig eu hamlygu.

## Tegwch i bob Dysgwr

Egwyddor allweddol a amlygodd llawer o ymatebwyr oedd y pwysigrwydd o sicrhau cydraddoldeb yn y canlyniadau. O'r safbwyntiau hyn, ni ddylai trefniadau asesu anfanteisio dysgwyr mewn unrhyw ffordd. Ymddengys hyn ei fod yn atgyfnerthu ac yn ymestyn yr ail egwyddor a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 'Sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais, yn enwedig o'u cymharu â'r dysgwyr hynny yn rhannau eraill y DU'.

Amlygodd ymatebwyr bwysigrwydd cydnabod a hybu cydraddoldeb a thegwch ar draws amrediad o ddimensiynau a nodweddion gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys cydraddoldeb o safbwynt amser a lleoliad. Teimlodd rhai, er enghraifft, na ddylai trefniadau roi cenedlaethau gwahanol o bobl ifanc dan anfantais. O'r safbwyntiau hyn, teimlodd ymatebwyr y gallai'r dysgwyr hynny sy'n gweithio tuag at eu cymwysterau TGAU neu Safon Uwch ar hyn o bryd fod dan anfantais sylweddol o'u cymharu â chenedlaethau blaenorol o bobl ifanc. Dylid ystyried yr amgylchiadau arbennig a'r tarfiad ar ddysgu ac addysgu yn y broses o asesu a dyfarnu graddau:

> *Er mwyn sicrhau na chaiff dysgwyr ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 eu hanfanteisio yn ystod y pandemig byd-eang hwn. Mae rhai dysgwyr eisoes wedi'u hynysu am yr eildro. Maent eisoes dan anfantais sylweddol.*

Rhiant neu ofalwr

> *Sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais (o'u cymharu â rhannau eraill o'r wlad neu flynyddoedd blaenorol/dyfodol) o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi dysgu llai a threulio llai o amser yn yr ysgol eleni.*

Rhiant neu ofalwr

I'r gwrthwyneb, nododd rhai o'r ymatebwyr na ddylai'r trefniadau roi cenedlaethau eraill o bobl ifanc o dan anfantais. O'r safbwyntiau hyn, gallai materion fel chwyddiant graddau weithio i danseilio cyflawniadau carfannau blaenorol o bobl ifanc neu rai'r dyfodol. Awgrymodd ymatebwyr eraill fod y sefyllfa mor eithriadol nad oedd yn briodol ystyried materion ynghylch cydraddoldeb cenedliadol, ac y dylid canolbwyntio ar gefnogi dysgwyr cyfredol drwy'r heriau y maent yn eu hwynebu:

> *Nid yw hyn yn ymwneud â myfyrwyr y gorffennol na'r dyfodol. Mae hon yn sefyllfa ddigyffelyb ac ni ddylid ei chymharu â'r gorffennol na'r dyfodol. Mae'n rhaid sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y presennol.*

Rhiant neu ofalwr

> *Cymharu disgyblion haf 2021 â disgyblion y gorffennol – nid yw hynny'n deg o ystyried popeth sydd wedi digwydd yn ystod 2020.*

Arweinydd ysgol neu goleg

Dimensiwn arall a gododd ymatebwyr oedd y pwysigrwydd o sicrhau cydraddoldeb ar draws carfannau gwahanol o ddysgwyr. Roedd yr ymatebwyr a nododd y thema hon yn aml yn amlygu'r pwysigrwydd o sicrhau cydraddoldeb ar draws lleoliadau a sefydliadau addysgol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys dysgwyr o gymunedau mwy difreintiedig, ynghyd â'r rhai sy'n mynychu ysgolion gwladol a phreifat, a lleoliadau addysgol eraill:

> *Ni ddylech gael graddau ar sail ble rydych yn byw ac ar sail y graddau mae pobl wedi'u cael yn eich ysgol yn flaenorol.*

Dysgwr

*[Dylai trefniadau'r dyfodol fod yn] gyfiawn ac ni ddylent wahaniaethu yn erbyn grwpiau/ysgolion penodol. (Ni ddylai fy mab galluog iawn sy'n mynychu ysgol newydd, a gyflawnodd yn isel yn flaenorol, fod dan anfantais o ganlyniad i hyn.)*

Rhiant neu ofalwr

*Nid oes unrhyw ddarpariaeth wydn yn ei lle ar gyfer pobl sy'n addysgu gartref. Gwahaniaethwyd yn eu herbyn drwy gydol y broses hon, ac mae'n debygol o barhau o ystyried y driniaeth gan ganolfannau arholi lleol.*

Rhiant neu ofalwr

At hynny, roedd ychydig o ymatebwyr wedi atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau cydraddoldeb rhwng dysgwyr yng Nghymru a'u cyfoedion yn rhannau eraill y DU. Roedd y safbwyntiau hyn yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal hyder mewn dyfarniadau, a'u cludadwyedd yn y pen draw, gan gynnwys ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n ymgeisio am leoedd mewn prifysgolion y tu allan i Gymru:

*[Mae'n bwysig sicrhau] hygrededd graddau y mae prifysgolion yn eu cydnabod.*

Dysgwr

Amlygodd ymatebwyr eraill bwysigrwydd sicrhau nad yw dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY, a adnabyddir yn aml fel anghenion addysgol arbennig (AAA)) dan anfantais. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cynnwys dysgwyr sydd ag anableddau neu nam sy'n cael effaith ar ddysgu ac addysgu. O'r safbwyntiau hyn, roedd cau ysgolion a tharfu ar gymorth wedi cael effaith ar y dysgwyr hyn yn benodol, ac, yn y pen draw, wedi cael effaith andwyol ar ddysgu a pharatoi:

*Ystyriaeth o'r dysgwyr hynny sydd ag AAA sydd angen mwy o amser i addasu, a chymorth ychwanegol wyneb yn wyneb ag athrawon, a fyddai wedi bod ar waith yn arferol.*

Rhiant neu ofalwr

*Rhoi ystyriaeth i allu myfyrwyr ag AAA i gwblhau gwaith cwrs neu arholiadau gartref yn lle yn y dosbarth – ni all pawb wneud hyn.*

Dysgwr

Cafwyd pryderon hefyd ynghylch dysgu cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn aelwydydd lle na siaredir Cymraeg yn aml. Amlygodd rhai o'r ymatebwyr y gallai peidio â bod yn agored i'r Gymraeg, a'r tarfiad ar eu dysgu, roi'r dysgwyr hyn dan anfantais, i'r bobl hynny sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r rhai sy'n paratoi ar gyfer asesiadau yn y Gymraeg:

> *Efallai nad oes gan blant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg yr amrywiaeth o eirfa i allu ateb cwestiynau arholiad ag yr oedd gan grwpiau blwyddyn blaenorol.*

Rhiant neu ofalwr

Ar draws yr ymatebion, un o'r ffactorau allweddol sy'n ysgogi'r safbwyntiau hyn oedd pryderon y gallai trefniadau waethygu anfanteision sydd eisoes yn bodoli yn y system addysg. Mewn modd oblygedig neu eglur, roedd y safbwyntiau hyn wedi'u hysgogi, yn rhannol, gan bryderon nad oedd effeithiau tarfiad ar ddysgu, addysgu a chymorth wedi'u dosbarthu'n gyfartal ymhlith dysgwyr. Teimlodd yr ymatebwyr hyn y dylai'r trefniadau ar gyfer 2021 gydnabod yr heriau y mae rhai dysgwyr yn eu hwynebu, a gweithio tuag at gydnabod, neu fynd i'r afael â'r anfanteision neu rwystrau amlwg y mae dysgwyr wedi'u hwynebu wrth weithio tuag at eu cymwysterau:

> *Mae'r pandemig wedi cael effaith wahaniaethol ar ein disgyblion, felly dylai'r trefniadau sicrhau na chaiff dysgwyr sydd dan anfantais, ac sy'n agored i niwed, eu rhoi dan anfantais bellach o'u cymharu â dysgwyr eraill yng Nghymru.*

Ymatebydd y llywodraeth

Ar draws pob un o'r grwpiau o randdeiliaid, roedd teimladau cryf ynghylch tegwch a mynd i'r afael ag anfantais, a dyma oedd y thema fwyaf amlwg ymhlith yr ymatebion. Roedd y materion hyn fwyaf amlwg yn yr ymatebion gan rieni, arweinwyr ysgolion neu  golegau, ac athrawon.

## Tir a Gollwyd o Safbwynt Paratoi

Egwyddor neu ystyriaeth allweddol a amlygodd llawer o ymatebwyr ei bod yn bwysig oedd rhoi sylw dyledus i'r effaith o golli tir o safbwynt dysgu ac addysgu dros y ddwy flynedd academaidd ddiwethaf. Deilliodd hyn o bryderon fod cau ysgolion, cyfyngiadau symud a hunanynysu wedi arwain at darfiad sylweddol ar ddatblygiad a pharatoi dysgwyr:

*Dylem ystyried sut mae'r tir a gollwyd dros chwe mis o safbwynt dysgu wedi cael effaith ar ddysgwyr TGAU a Safon Uwch.*

Dysgwr

*Mae presenoldeb yn bryder. Mae hyn yn golygu ei bod yn heriol cwblhau cyrsiau ac mae'n cael effaith benodol ar ddysgu asesiadau nad ydynt yn seiliedig ar arholiadau.*

Arweinydd ysgol neu goleg

Cafwyd pryderon hefyd efallai nad yw dysgu gartref wedi gwneud yn iawn, i lefel ddigonol, am yr amser addysgu a gollwyd. At hynny, teimlodd rhai fod y tarfiad a brofodd dysgwyr yn amrywio ar draws grwpiau gwahanol o bobl ifanc. Gyda chysylltiad agos â'r egwyddor o sicrhau tegwch a mynd i'r afael ag anfantais, roedd gan rai ymatebwyr bryderon ynghylch galluoedd ac adnoddau rhai dysgwyr, a'u rhieni neu ofalwyr, i ymateb i'r tarfiad a achoswyd gan gau ysgolion. Gwelwyd bod materion fel y gagendor digidol – sef mynediad anghyfartal i'r rhyngrwyd ac offerynnau ar-lein eraill – yn rhoi rhai dysgwyr dan anfantais sylweddol. Roedd wedi cyfyngu ar ymgysylltiad rhai dysgwyr â deunyddiau gartref, ac arweiniodd at danseilio dysgu a pharatoi:

*Mae llawer o ysgolion a grwpiau blwyddyn wedi gorfod ynysu, a rhai ohonynt mwy nag unwaith – mae hyn yn annheg oherwydd, er bod rhai ysgolion yn cynnal dysgu digidol / gwersi ar-lein, mae'r tarfiad yn achosi llawer o straen.*

Athro

*Mae'r ffaith fod pob ysgol a disgybl i ffwrdd o'r ysgol am gyfnodau gwahanol o amser, ac ar adegau gwahanol, yn golygu y byddai'r arholiad terfynol yn annheg tu hwnt ac yn anghyson.*

Dysgwr

*Angen cydnabod yr holl amser addysgu wyneb yn wyneb a gollwyd gan gohort 2021 ers Mawrth 2020. A'r anghyfartaledd yn y modd mae Covid yn effeithio ar draws Cymru.*

Arweinydd ysgol neu goleg

Roedd y tir a gollwyd o safbwynt paratoi yn bryder allweddol ar draws pob un o'r grwpiau o ymatebwyr, ond o blith athrawon, arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr ysgolion yn arbennig.

## Lles Dysgwyr

Thema neu egwyddor sylweddol bellach a oedd yn gyffredin yn yr ymatebion oedd pwysigrwydd ystyried llesiant dysgwyr yng nghynlluniau'r trefniadau ar gyfer 2021. Teimlwyd hyn ymhlith pob un o'r grwpiau o ymatebwyr, ond dysgwyr a rhieni neu ofalwyr a fynegodd hyn gryfaf. O'r safbwyntiau hyn, dylid rhoi ystyriaeth i'r effaith y mae'r amgylchiadau unigryw y mae pob dysgwr yn eu hwynebu yn ei chael ar eu llesiant, yn enwedig mewn perthynas â'r goblygiadau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys goblygiadau llesiant ehangach y pandemig, ac effaith y prosesau arholiad eu hunain ar les yn benodol:

> *Dylid ystyried llesiant meddyliol myfyrwyr. Mae hon yn adeg sy'n peri straen i bawb a gallai gael effaith fawr ar berfformiad disgyblion mewn arholiadau.*

Dysgwr

> *Dylai llesiant ac iechyd meddwl myfyrwyr ac athrawon hefyd fod yn ystyriaeth allweddol yn y broses o wneud penderfyniadau.*

Corff dyfarnu

> *Ni ddylid rhoi disgyblion o dan fwy o straen. Mae'r lefelau o orbryder yn yr ysgol ble rwy'n addysgu yn andros o uchel.*

Athro

O'r safbwyntiau hyn, gosododd y sefyllfa ofynion unigryw ar ddysgwyr sydd angen eu hadlewyrchu yn nhrefniadau'r dyfodol. Roedd y thema hon hefyd yn cynnwys y sylw y dylid gweithredu arholiadau a threfniadau eraill mewn ffordd sy'n ddiogel ac sy'n sicrhau iechyd corfforol pawb sydd ynghlwm wrthynt, gan gynnwys athrawon, dysgwyr a'u teuluoedd:

*Gall cadw pellter cymdeithasol ond wneud hyn a hyn o safbwynt ystyried iechyd dysgwyr, a byddai gwisgo masg wrth gwblhau profion yn annheg ac yn anodd ymdopi ag ef.*

Dysgwr

## Ystyriaethau Ehangach

Manteisiodd ymatebwyr ar y cyfle hefyd i dynnu sylw at bryderon neu fyfyrdodau ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys y prosesau y dylid eu dilyn i asesu dysgwyr, y goblygiadau i athrawon, a rôl arholiadau wrth ddyfarnu graddau.

Roedd y themâu mwyaf amlwg yn cynnwys amlygu'r rhan bwysig y mae athrawon yn ei chwarae yn y broses o ddyfarnu graddau. O'r safbwyntiau hyn, dylai'r broses raddio gael ei harwain gan asesiadau athrawon. Dylid ategu graddau â thystiolaeth a gasglwyd drwy gydol y flwyddyn academaidd. Gallai hyn gynnwys asesiadau ffurfiannol a chrynodol, gan gynnwys profion dosbarth, sy'n cyfrannu at y graddau terfynol:

*Oherwydd y tarfiad parhaus ar ddysgu o ganlyniad i COVID-19 a lefelau cynyddol o orbryder/straen ar gyfer y dysgwyr sydd ym Mlwyddyn 11 yn bresennol, dylai gwaith asesu gynnwys asesiadau athrawon a'r gwaith cwrs sydd wedi'i gwblhau yn yr ysgol.*

Rhiant neu ofalwr

*Crebwyll proffesiynol athrawon sydd flaenaf. Nid yw algorithm yn cydnabod perfformiad disgyblion cystal â chrebwyll proffesiynol. Dylid ymddiried mewn ysgolion i wneud yr hyn y maent yn cael eu talu i'w wneud.*

Arweinydd ysgol neu goleg

O'r safbwyntiau hyn, dylid rhoi ystyriaeth i gefnogi a pharatoi athrawon i arfer hyn yn effeithiol. Roedd ymatebwyr eraill wedi nodi'n eglur mai graddau asesu canolfannau ddylai fod y mecanwaith allweddol ar gyfer dynodi graddau. Yn aml, teimlwyd bod mwy o angen eglurder ac arweiniad o ran sut y caiff y rhain eu pennu, ynghyd â gweithdrefn gymedroli gadarn i sicrhau tegwch.

I'r gwrthwyneb, teimlodd rhai o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig cynnal hyder yn nhrefniadau cymwysterau. O'r safbwyntiau hyn, roedd gan arholiadau ran i'w chwarae wrth sicrhau cysondeb a

hyder mewn dyfarniadau. Roedd sylwadau'n cynnwys defnyddio arholiadau ar-lein, neu, drwy ddilyn dull hyblyg o osod arholiadau, gellid eu cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Roedd yr ymatebwyr a gynigiodd y safbwyntiau hyn weithiau'n amlygu'r ffaith fod asesiadau athrawon, ac asesiadau nad ydynt yn seiliedig ar arholiadau, yn gyfyngedig o ran eu bod yn agored, o bosibl, i raddio goddrychol ac felly'n methu sicrhau tegwch i bawb. Roedd ymatebwyr eraill wedi amlygu'r ffaith nad oedd perfformiad blaenorol o reidrwydd yn adlewyrchiad teg o'r cynnydd roedd rhai dysgwyr wedi'i wneud.

> *Mae cynnal hyder mewn graddau arholiadau yn hanfodol, a gallai blwyddyn arall, lle ceir asesiad gan athrawon yn unig, beri colli'r hyder hwn. Byddai cyfuniad o raddau asesu canolfannau ac arholiadau yn llawer gwell.*

Arweinydd ysgol neu goleg

Fodd bynnag, roedd y rhain yn rhai o'r safbwyntiau mwy ymylol a gynigiodd ymatebwyr, a nodwyd gan arweinwyr ysgolion neu golegau yn bennaf. Ar y cyfan, roedd pwysau barn ar draws yr ymatebion yn tueddu'n sylweddol tuag at ddefnyddio ffurfiau eraill o asesu, gan gynnwys graddau asesu canolfannau. Dysgwyr, rhieni a gofalwyr a fynegodd y teimladau cryfaf o safbwynt defnyddio ffurfiau eraill o asesu:

> *Rhowch y gorau i arholiadau, gormod o bwysau, wedi colli allan ar lawer o addysg bwysig.*

Dysgwr

> *Mae'r dyfodol yn anhysbys ac ni fydd fy mab, sydd ym Mlwyddyn 11, a'i gyd-ddisgyblion, wedi'u paratoi ar gyfer arholiadau yn yr un modd â disgyblion blaenorol. Dim arholiadau eleni, a graddio ar sail y gwaith a wnaed.*

Rhiant neu ofalwr

Thema sylweddol arall a godwyd gan ymatebwyr oedd pwysigrwydd eglurder a chysondeb mewn perthynas ag unrhyw ddull penodol, ac ymrywmiad iddo. O'r safbwyntiau hyn, roedd eglurder yn bwysig er mwyn galluogi dysgwyr, athrawon ac ysgolion i gynllunio, a pharatoi ar gyfer, unrhyw drefniadau a bennir. Teimlodd ymatebwyr eraill hefyd ei bod yn bwysig meithrin hyder, ac ymrwymiad i'r broses, gan amrediad o randdeiliaid, gan gynnwys athrawon ac ysgolion:

> *Dull sydd wedi'i gynllunio'n dda, sy'n dryloyw ac yn eglur, a rennir â dysgwyr a'u rhieni, ac nad yw'n newid.*

Arweinydd ysgol neu goleg

*Dweud wrth y myfyrwyr yn gynnar, fel eu bod yn deall mai gwaith cwrs ac asesiadau fydd yn allweddol i'w llwyddiant. Dweud wrthynt mewn modd clir fel eu bod yn deall.*

Rhiant neu ofalwr

Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch cysondeb unrhyw ddull, gyda rhai o'r ymatebwyr yn nodi ei bod yn bwysig y dylai pob bwrdd arholi ddilyn yr un rheolau. Nododd ymatebwyr eraill bwysigrwydd yr elfen weledol, yn enwedig ynghylch y prosesau cymedroli cadarn – awgrymodd rhai y gallai CBAC a sefydliadau eraill chwarae rhan wrth arwain hyn:

*Dim arholiadau allanol, ond yn hytrach dynodi unigolyn annibynnol o Estyn/CBAC/consortia i fod yn swyddog sicrhau ansawdd ymhob ysgol.*

Arweinydd ysgol neu goleg

*Hygyrchedd i arfer arholiadau, yn enwedig i'r dysgwyr hynny nad ydynt eisoes wedi cael profiad o sefyll arholiadau. Cymedroli gwaith cwrs yn allanol ar gyfer unrhyw raddau asesu, h.y. nid gan athrawon yn unig. CBAC i gymedroli gwaith cwrs.*


Rhiant neu ofalwr

# 3.2 Yr Ymgynghoriad sy'n Llywio'r Dull ar gyfer 2020

Yna, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr mewn perthynas â'u gwybodaeth am y broses ymgynghori, a'u canfyddiadau ohoni, a lywiodd waith datblygu'r trefniadau ar gyfer 2020.

## Ymwybyddiaeth o'r Ymgynghoriad

Ar y cyfan, canfuwyd bod y wybodaeth am yr ymgynghoriad yn isel, yn gyffredinol. Ar draws pob un o'r grwpiau o ymatebwyr, dim ond 20.8 y cant o ymatebwyr a amlygodd eu bod yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad wedi digwydd (N = 822). Fodd bynnag, roedd amrywiad sylweddol o blith y grwpiau gwahanol o ymatebwyr. Ymhlith llywodraethwyr ysgol, er enghraifft, ymatebodd 92.3 y cant ohonynt nad oeddent yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad wedi digwydd, lle roedd 36.5 y cant o arweinwyr ysgolion neu golegau mewn sefyllfa debyg:





C4, N = 3,951

## Ymateb i'r Ymgynghoriad

O'r 20.8 y cant o ymatebwyr a oedd yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad wedi digwydd, aeth 82.9 y cant ymlaen i gyfrannu eu safbwyntiau (N = 682). Ffurfiodd athrawon, arweinwyr ysgolion neu

golegau, a gweithwyr proffesiynol addysgol eraill gyfran sylweddol o'r bobl hynny a ymatebodd i'r ymgynghoriad (61.2 y cant).

Cynigiodd yr ymgynghoriad dri dull gwahanol o gyfrannu eu safbwyntiau, gan gynnwys yn ystod cyfarfodydd, yn ysgrifenedig, a thrwy ymgynghoriad ar-lein. Y dull mwyaf cyffredin a ddewisiwyd gan ymatebwyr oedd yr ymgynghoriad ar-lein ei hun (50.9 y cant, N = 358):





C6, N = 682

## Safbwyntiau ynghylch Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Yna, gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu safbwyntiau ynghylch canlyniadau'r ymgynghoriad, ac, yn benodol, p'un a oedd y dull terfynol wedi cynnwys barn a safbwyntiau grwpiau gwahanol o randdeiliaid, gan gynnwys y canlynol:

- Dysgwyr a'u rhieni, gofalwyr neu gynorthwywyr
- Addysgwyr, gan gynnwys ysgolion a cholegau
- Sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch
- Cyflogwyr
- Cynghorwyr arbenigol


Yn gyffredinol, teimlodd y rhan fwyaf o ymatebwyr nad oedd y broses ymgynghori wedi rhoi digon o ystyriaeth i leisiau a safbwyntiau'r grwpiau hyn. O'r ymatebwyr hynny a deimlodd eu bod mewn sefyllfa i ddweud hynny, nododd 71.2 y cant ddim yn dda, neu ddim yn dda o gwbl, ynglŷn â ph'un a oedd y dull a fabwysiadwyd ar ôl yr ymgynghoriad wedi ystyried safbwyntiau dysgwyr a rhieni:




C7, N = 3,011

Yn gyffredinol, ni chafwyd amrywiadau sylweddol yn y safbwyntiau ar draws y grwpiau gwahanol o ymatebwyr. Er enghraifft, roedd rhieni neu ofalwyr dim ond mymryn yn fwy amheus, ar gyfartaledd, nag oedd grwpiau eraill, bod y trefniadau wedi ystyried barn a safbwyntiau'r pum grŵp o randdeiliaid yn effeithiol: [30]


[30] Sgorau cymedr cyfansawdd yn cyfuno atebion i'r pum grŵp o randdeiliaid a amlygwyd yn yr arolwg.




Allwedd: 1 = Ddim yn dda o gwbl, 2 = Ddim yn dda, 3 = Yn dda, 4 = Yn dda iawn


Sgorau cymedr C7 (i, ii, iii, iv a v) wedi'u cyfuno, N = 3,951

Gan archwilio'r mater hwn ymhellach, gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oeddent yn teimlo bod eu llais wedi'i gynrychioli yng ngwaith datblygu'r dull cymwysterau ar gyfer 2020. Gan adlewyrchu canfyddiadau cyffredinol, teimlodd 84.5 y cant o ymatebwyr nad oedd eu llais wedi'i gynrychioli yn ddigonol. Unwaith eto, rhieni a gofalwyr fynegodd hyn gryfaf, gydag 88.8 y cant o rieni'n adrodd mai dyma'r ffordd yr oeddent yn teimlo. Roedd athrawon (20.7 y cant) ac arweinwyr ysgolion neu golegau (30.4 y cant) mymryn yn fwy cadarnhaol, gan awgrymu y gallai ymdrechion i ymgysylltu â'r grwpiau hyn fod wedi bod ychydig yn fwy effeithiol nag y buont ar gyfer rhanddeiliaid eraill:




C8, N = 3,951

Mae dadansoddiad pellach yn awgrymu, ar gyfartaledd, ac ar draws pob un o'r grwpiau o randdeiliaid, bod y bobl hynny a oedd yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad wedi digwydd yn fwy tebygol o feddwl bod trefniadau dilynol wedi ystyried eu safbwyntiau. O'r bobl hynny a oedd yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad wedi digwydd, teimlodd 36.3 y cant fod y trefniadau dilynol wedi ystyried eu safbwyntiau. O'r bobl hynny nad oeddent yn ymwybodol, dim ond 7.2 y cant a deimlodd ei fod wedi gwneud hynny:




Tabiau croes, C4 a C8, N = 3,928

Awgryma'r canfyddiad hwn y gallai fod cydberthynas cadarnhaol rhwng gwybodaeth ac ymgysylltiad, a'r ymagweddau a chanfyddiadau dilynol o ganlyniadau'r ymgynghoriad. [31] Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn ymwybodol o'r ymgynghoriad yn fwy tebygol o deimlo bod y broses wedi cyflawni dull a oedd wedi ystyried eu safbwyntiau yn ddigonol. Awgryma hyn y gall cyfathrebu, egluro ac ymgynghori fod yn bwysig wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol, yn enwedig wrth feithrin cefnogaeth am ddull penodol.


Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd y wybodaeth am yr ymgynghoriad ar draws y grwpiau o ymatebwyr yn gyffredinol isel, ac roedd canfyddiadau o ganlyniadau'r broses yn wael.

[31] Canfuwyd bod y cydberthynas hwn yn ystadegol bwysig, $\chi^2$ (1, N = 3,856) = 469.97, p < .001.

## 3.3 Gweithredu'r Dull ar gyfer 2020

Yna gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr â'r nod o archwilio'u safbwyntiau ynghylch gweithrediad ymarferol y broses dyfarnu graddau ar gyfer 2020. Roedd hon yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud â chyfathrebu'r dull, a'r graddau yr oedd wedi ystyried ei effaith ar orbryder dysgwyr.


Yn gyffredinol, teimlodd ymatebwyr fod agweddau penodol o'r dull gweithredu wedi gweithio'n well na rhai eraill. Roedd y farn gyffredinol ynglŷn â pha mor dda y cafodd y dull terfynol ei gyfleu i ymatebwyr, er enghraifft, yn tueddu tuag at ganfyddiadau negyddol. Ar draws pob un o'r grwpiau o ymatebwyr, roedd 50.5 y cant o ymatebwyr wedi anghytuno, neu anghytuno'n gryf, bod y broses wedi cael ei chyfathrebu'n dda:




C9 (i), N = 3,951


Cafwyd ychydig o amrywiadau yn yr ymatebion ar draws y grwpiau gwahanol o ymatebwyr. Roedd arweinwyr ysgolion neu golegau, er enghraifft, yn fwy tebygol o anghytuno, neu anghytuno'n gryf, bod y broses wedi'i chyfleu'n dda iddynt ac i'w hysgolion (56.8 y cant). Roedd athrawon, ar y cyfan, yn fwy cadarnhaol, gyda 47 y cant ohonynt yn anghytuno, neu anghytuno'n gryf, bod y broses wedi'i chyfathrebu'n dda.

Yna, gofynnwyd i ymatebwyr nodi p'un a oeddent yn teimlo bod y sefydliadau a ddatblygodd drefniadau ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020 yn ceisio gwneud eu gorau mewn amgylchiadau anodd. Gan gydnabod yr heriau a wynebodd y sefydliadau hyn, roedd 63.5 y cant o'r holl ymatebwyr wedi cytuno, neu gytuno'n gryf, eu bod wedi gwneud eu gorau:





C9 (ii), N = 3,951

Roedd yr anghytundeb mwyaf sylweddol yn canolbwyntio ar b'un a gafodd y broses ei gweithredu mewn ffordd a aeth i'r afael â gofidiau dysgwyr mewn amgylchiadau ansicr. Yn gyffredinol, roedd 61.5 y cant o ymatebwyr wedi anghytuno, neu anghytuno'n gryf, bod y broses wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r goblygiadau i lesiant dysgwyr:




C9 (iii), N = 3,951

Arweinwyr ysgolion, rhieni, athrawon a dysgwyr eu hunain deimlodd gryfaf nad oedd trefniadau wedi ystyried gorbryder dysgwyr. Fodd bynnag, teimlodd yr ymatebwyr hynny o gyrff dyfarnu fod y broses wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r goblygiadau i lesiant dysgwyr: [32]





Allwedd: 1 = Anghytuno'n gryf, 2 = Anghytuno, 3 = Cytuno, 4 = Cytuno'n gryf

Sgorau cymedr C9 (iii), N = 3,951

O safbwynt i ba raddau roedd ymatebwyr yn ymwybodol bod graddau asesu canolfannau'n rhan o ddull ehangach o ddyfarnu graddau terfynol, roedd y mwyafrif o ymatebwyr wedi cytuno, neu gytuno'n gryf (59.8 y cant), eu bod nhw. Fodd bynnag, cafwyd amrywiadau sylweddol yn yr ymatebion ar draws grwpiau gwahanol. Er enghraifft, roedd athrawon ac arweinwyr ysgolion neu golegau yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o rôl graddau asesu canolfannau (69.7 y cant ac 80.4 y cant yn ôl eu trefn), nag ydoedd rhieni a dysgwyr (51.5 y cant a 59.9 y cant yn ôl eu trefn).


[32] Sgorau cymedr ar gyfer C9: iii: Cafodd y gwaith o gynllunio sut y cawsai graddau eu dyfarnu yn 2020 ei wneud mewn ffordd a aeth i'r afael â gorbryderon dysgwyr mewn amgylchiadau ansicr.

I'r gwrthwyneb, roedd ymwybyddiaeth o'r broses apeliadau yn isel. Yn gyffredinol, roedd 51.6 y cant o ymatebwyr wedi anghytuno, neu anghytuno'n gryf, bod y broses apeliadau wedi'i chyfathrebu'n dda:





C9 (v), N = 3,951

Wrth archwilio rôl a phwysigrwydd cyfathrebu ymhellach, roedd 85.3 o ymatebwyr wedi cytuno ei bod yn bwysig gwybod cylch gwaith y sefydliadau amrywiol sydd â rôl mewn datblygu a chyflenwi cymwysterau yng Nghymru. Ymatebwyr o blith arweinwyr ysgol ac athrawon fynegodd hyn gryfaf, gyda 94.6 y cant a 90.7 y cant o ymatebwyr yn cytuno ei bod yn bwysig gwybod.



C10, N = 3,951

Er bod y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig gwybod, roedd cyfrannau sylweddol o ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn gwybod manylion rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau a gyfrannodd at y broses o gynllunio'r dull a'i weithredu. Yn gyffredinol, nododd 45.1 y cant o ymatebwyr nad oeddent yn deall rolau'r cyrff gwahanol yn dda, neu nad oeddent yn deall yn dda o gwbl. Cafwyd amrywiad sylweddol yn yr ymatebion ar draws y grwpiau gwahanol. Nid oedd cyfrannau sylweddol o ddysgwyr a rheini a gofalwyr yn deall cyfrifoldebau'r sefydliadau gwahanol, er bod arweinwyr ysgolion, ar y cyfan, yn teimlo'u bod yn eu gwybod yn dda, neu'n dda iawn:




C11, N = 3,951

O ran y bobl hynny a ymatebodd nad oeddent yn gwybod rolau'r cyrff gwahanol yn dda, neu nad oeddent yn eu gwybod yn dda o gwbl, gofynnwyd iddynt pa fath o eglurder pellach yr hoffent ei gael.

Roedd y thema fwyaf amlwg ar draws yr ymatebion yn cynnwys pwysigrwydd deall manylion rolau a chyfrifoldebau'r holl gyrff sydd ynghlwm wrth ddatblygu'r trefniadau. Awgrymodd rhai y gallai hyn gynnwys gwybodaeth am y strwythurau llywodraethu a'r prosesau o wneud penderfyniadau. O'r safbwyntiau hyn, dylid sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael ar raddfa ehangach, a'i bod yn cael ei chyfathrebu mewn modd eglur a hygyrch:

*Gwybodaeth fanwl am bwy sy'n penderfynu ar beth mewn termau y gall pawb eu deall.*

Rhiant neu ofalwr

*Pwy sy'n gyfrifol am bob penderfyniad, ac i ble rydym yn cyfeirio cwestiynau ac ati.*

Athro

Manteisiodd ymatebwyr ar y cyfle hefyd i amlygu pwysigrwydd egluro'r dull cyffredinol o ddyfarnu graddau. Teimlodd ymatebwyr hefyd y byddai'n werth cael mwy o wybodaeth am y dull o ddyfarnu graddau ei hun, ac eglurhad ohono. Gallai hyn arwain at greu mwy o dryloywder yn y dull, a meithrin hyder ynddo. Gallai hefyd godi ymwybyddiaeth o fecanweithiau, fel y prosesau apeliadau. Dylid sicrhau eto bod manylion yn hygyrch i bob grŵp o randdeiliaid drwy amrywiaeth o sianeli:

*Gwybodaeth eglur yn cael ei hanfon i'r ysgolion a cholegau am yr union wybodaeth sy'n ymwneud â'r broses raddio.*

Dysgwr


*Pa effaith y bydd graddau athrawon yn ei chael ar y canlyniad terfynol. Pwy sy'n dyfarnu'r radd derfynol. Gyda beth mae hwn yn gysylltiedig, a sut y pennir canlyniad. P'un a ystyrir gwaith cwrs yn yr ysgol ynghyd â phob tystiolaeth arall, yn hytrach nag astudiaethau cymharol â myfyrwyr eraill, ar deilyngdod unigol.*

Rhiant neu ofalwr

Cododd ymatebwyr themâu mwy ymylol hefyd o natur ymarferol ac â mwy o ffocws. Manteisiodd ychydig o ymatebwyr, er enghraifft, ar y cyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd proses apeliadau, a phennu cyfrifoldebau clir ar gyfer y sawl a oedd yn gyfrifol am gyflafareddiad o fewn y system. Teimlodd rhai o'r ymatebwyr y dylai proses fod yn ei lle sy'n ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr wneud apêl yn uniongyrchol i fyrddau arholi yn hytrach na gwneud hynny drwy ysgolion. Teimlodd ymatebwyr eraill ei bod yn bwysig gweld mwy o ymgynghori, a chyfleoedd i leisio pryderon a chyfrannu i’r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r broses apeliadau.

## Cyfathrebu ag Athrawon ac Ysgolion

I'r bobl hynny sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau, gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oeddent wedi derbyn digon o gymorth ac arweiniad ar raddau asesu canolfannau a threfnau safle dysgwyr. Ar y cyfan, roedd arweinwyr ysgol ac athrawon yn gadarnhaol eu bod wedi derbyn cymorth digonol, gyda 74.8 y cant a 72.3 y cant o ymatebwyr yn nodi hynny'n gadarnhaol, yn ôl eu trefn:




C14, N = 738

I'r bobl hynny a deimlodd y dylent fod wedi derbyn rhagor o gymorth ac arweiniad, gofynnwyd i ymatebwyr nodi'u safbwyntiau ar ba ffurf yr hoffent eu cael.

## Meini Prawf ar gyfer Trefnau Safle a Graddau Asesu Canolfannau

Teimlwyd bod angen darparu mwy o eglurder, arweiniad a gwybodaeth i athrawon er mwyn eu helpu i bennu trefnau safle a graddau asesu canolfannau. Roedd hyn yn cynnwys yr hyn a fyddai ei angen o ran tystiolaeth ategol. Dylai unrhyw arweiniad a roddir ar gyfer y flwyddyn academaidd hon (2020/21) fod yn fwy cynhwysfawr a rhoi eglurder o safbwynt y gwaith samplu ac enghreifftiol angenrheidiol, gan sicrhau cysondeb ar draws canolfannau.

> *Arweiniad clir o safbwynt p'un a ddylai'r graddau asesu canolfannau adlewyrchu: gallu'r myfyriwr ym mis Mawrth, ei botensial ar gyfer mis Mai, rhagolwg proffesiynol o'r cyrhaeddiad ar y cyfan, neu adlewyrchiad manwl gywir o'i waith hyd yn hyn! Rwyf wedi fy argyhoeddi y bu ystod o anghysondeb ar draws pynciau a rhwng canolfannau, ond o'u*

*cymharu â'r algorithm gwahaniaethol, gwnaethon nhw roi fy myfyrwyr presennol dan lawer llai o anfantais.*

Athro

## Negeseuon a Chyfathrebu

Teimlodd rhai y dylai fod sianeli cyfathrebu gwell rhwng cyrff dyfarnu, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a chanolfannau. Teimlwyd bod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio mewn modd tebyg, a'u bod yn cael eu hysbysu'n aml am unrhyw ddisgwyliadau a newidiadau i brosesau. Roedd argymhellion hefyd yn cynnwys amrywio cyfathrebu, gan gynnwys hyfforddiant.

*Nid oedd yn ddigon clir ar y dechrau mai trefn safle oedd y ffactor pwysicaf. Roedd y graddau gwirioneddol yn ymddangos yn amherthnasol. Gwnaethom dreulio llawer o amser yn sicrhau bod data'n cyd-fynd â chanlyniadau blaenorol, a'i fod yn gadarn. Rwy'n gwybod am ysgolion lle nad oedd y broses hon yr un mor drylwyr. Roedd angen mwy o ddeialog ac atebolrwydd cyn, ac ar ôl, cyflwyno graddau asesu canolfannau.*

Athro

## Mwy o Amser

Cynigiodd ymatebwyr eraill awgrymiadau mwy ymarferol, gan gynnwys sicrhau cyngor ac arweiniad mwy amserol i hwyluso gwaith paratoi digonol, a gwaith datblygu prosesau effeithiol a thrylwyr. Dylid ymgorffori mwy o amser yn y broses ar gyfer cwblhau graddau asesu canolfannau. Byddai hyn yn hwyluso proses gymedroli fwy trylwyr a gwaith ymchwil i unrhyw anomaleddau. O'r safbwynt hwn, gellid cefnogi hyn gan benderfyniadau mwy amserol o ran sut y bydd asesiadau'n digwydd.

*Roedd yr arweiniad manwl gan CBAC yn rhy hwyr; arweiniodd hyn at ganolfannau'n dilyn eu dulliau eu hunain. Gallai'r data hanesyddol hefyd fod wedi'i ddarparu yn gynnar.*

Arweinydd ysgol neu goleg

## Graddau Asesu Canolfannau a Chymedroli

Gofynnwyd cwestiwn dilynol i nifer o ymatebwyr i archwilio sut y gellid datblygu prosesau ar gyfer casglu a chymedroli mewnbynnau asesu canolfannau ymhellach.

Cafwyd cydnabyddiaeth eang gan ymatebwyr o'r rhan bwysig y gallai graddau asesu canolfannau ei chwarae mewn trefniadau asesu. O'r safbwyntiau hyn, mae'r bobl hynny sydd oddi mewn i ganolfannau yn gwybod am alluoedd dysgwyr ac yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a sensitif. Golygodd hyn fod yn ystyriol o'r graddau y tarfwyd ar ddysgu ac addysgu dysgwyr unigol:

> *Rwy'n credu y dylid dyfarnu graddau asesu athrawon i'r disgyblion yng ngharfan 2021. Maent wedi colli gwerth pum mis o ddysgu pwysig. Nid wy'n meddwl y bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn gallu dal i fyny ar yr amser a gollwyd. Mae disgyblion hefyd yn bryderus iawn ynghylch COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n ei gwneud yn anos canolbwyntio a dysgu. Mae ysgolion wedi gwneud eu gorau i gefnogi dysgwyr, ond mae gorbryder yn uchel ymhlith disgyblion. Nid yw disgyblion yn gwybod p'un a fyddant yn yr ysgol o un wythnos i'r nesaf.*

Athro

## Tystiolaeth

Cynigiodd ymatebwyr amrediad o awgrymiadau o safbwynt y dystiolaeth y gellid ei defnyddio i lywio graddau asesu canolfannau. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio dull asesu parhaus, gan gynnwys gwaith dosbarth, gwaith cartref ac asesiadau nad ydynt yn seiliedig ar arholiadau, dros y flwyddyn academaidd hon. Cawsai'r rhain eu hasesu drwy gydol y flwyddyn er mwyn adeiladu portffolio o waith fel tystiolaeth o radd derfynol:

> *Defnyddio dull asesu parhaus drwy gydol y flwyddyn. Cymryd sampl o bob ysgol i'w chymedroli. Gallai'r bwrdd arholi ddarparu asesiadau byrrach o un awr y gellid eu sefyll yn y dosbarth a'u defnyddio fel rhan o'r broses asesu.*

Athro

> *Os yw ysgol mwy na 10% uwchben ei chyfartaledd ar gyfer y tair blynedd diwethaf, yna dylid gofyn iddi ddarparu tystiolaeth sampl o'r graddau a ddyfarnwyd. Bydd angen i CBAC wella'r ffordd y cafodd y graddau eu mewnbynnu fel na fydd angen i ni fewnbynnu pob gradd a threfn safle ar wahân ar gyfer pob plentyn. Nid oedd diben i drefnau safle yn y diwedd. Ni ddylid defnyddio algorithmau.*

Arweinydd ysgol neu goleg

## Cymedroli

Roedd llawer o ymatebwyr hefyd wedi cydnabod y rôl bwysig y dylai cymedroli ei chwarae wrth ddyfarnu graddau. Teimlodd llawer o ymatebwyr y gellid cryfhau hyn gyda phrosesau mwy eglur a syml nad oeddent yn rhy feichus ar athrawon ac ysgolion. O'r safbwyntiau hyn, byddai'n ofynnol cael proses gymedroli gadarn er mwyn sicrhau cysondeb ar draws pob pwnc a phob ysgol yng Nghymru. Er mwyn i hyn ddigwydd, byddai gofyn am gael mwy o arweiniad a chymorth, ynghyd â mwy o amser i gwblhau'r broses:

> *Os bydd gofyn i ni gael graddau asesu canolfannau a threfnau safle eto, dylai cyrff dyfarnu gryfhau eu prosesau cymedroli allanol a'u cyfathrebu â darparwyr fel ein bod yn deall y graddau ymhell cyn y diwrnod canlyniadau, ac fel bod trafodaeth gadarn wedi digwydd fel na fyddwn yn wynebu'r un llanast o ailfeddwl â'r flwyddyn ddiwethaf.*

Arweinydd ysgol neu goleg

## Cyfyngiadau ar Amser ac Adnoddau

Unwaith eto, awgrymodd ymatebwyr y byddai mwy o amser yn werthfawr. O'r safbwyntiau hyn, mae angen amser addas i sicrhau y gellir rhoi cynlluniau ystyriol ac effeithiol ar waith. Mae angen amser ar athrawon i gasglu tystiolaeth ac addasu cynlluniau. Ni ddylid rhuthro'r broses er mwyn osgoi camgymeriadau neu raddau nad ydynt yn adlewyrchu cynnydd dysgwyr yn fanwl gywir. O'r safbwyntiau hyn hefyd, dylid dod i benderfyniadau ar y broses gyffredinol yn fuan:

> *Os bwriedir defnyddio graddau asesu canolfannau, bydd angen i ni wybod hynny cyn gynted â phosibl. Mae angen i ddisgyblion wybod cyn gynted â phosibl hefyd fel y gallant ymroi'n llawn.*

Arall

> *Mae angen eglurder cyn gynted â phosib ar ysgolion o ran trefniadau haf 2021. Mae angen sicrhau tegwch i ysgolion sy'n asesu'n gywir a gonest.*

Consortiwm addysg rhanbarthol

## Tegwch

Roedd llawer o safbwyntiau wedi'u hysgogi, yn rhannol, gan bwysigrwydd sicrhau tegwch ar draws y broses o ddyfarnu graddau. Mae'n bwysig ystyried amgylchiadau unigol dysgwyr, gan gynnwys y dysgu a gollwyd o ganlyniad i gyfyngiadau symud lleol neu gyfnodau o hunanynysu, oherwydd gall y rhain gael effaith ar unrhyw raddau a ddyfernir neu raddau darogan. Dylai unrhyw brosesau a bennir fod yn gadarn o safbwynt y dystiolaeth a fydd yn ofynnol ei chyflwyno, a'i chyfiawnhau mewn modd eglur. Dylid rhoi ystyriaeth briodol i ddefnydd ffug arholiadau a graddau blaenorol, gan efallai na fyddant bellach yn adlewyrchu ymdrech. Yn ogystal, dylid rhannu penderfyniadau â dysgwyr ac ysgolion yn gyflym ac mewn modd eglur er mwyn osgoi ansicrwydd pellach.

## Modelau Safoni

Yna gofynnwyd i ymatebwyr ynghylch y prif faterion sy'n ymwneud â defnyddio modelau safoni a gwaith cymedroli mewnbynnau asesu canolfannau. Rhannodd yr ymatebwyr amrediad eang o ymatebion, gan gynnwys ailddatgan pwysigrwydd sicrhau bod y system yn deg. Teimlodd rhai fod modelau safoni, er yn amherffaith, yn cynnig modd o gymedroli dyfarniadau er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws cenedlaethau o ddysgwyr. Athrawon, arweinwyr ysgolion a gweithwyr proffesiynol addysg eraill fynegodd y safbwyntiau hyn fwyaf aml:

> *Bydd gormod o ganolfannau'n methu dyfarnu graddau'n deg, a bydd y rhai sy'n gwneud hynny dan hyd yn oed fwy o anfantais nag ydynt o dan y system arholiadau bresennol.*

Athrawon

> *Ceir rhagfarn athrawon, a dryswch gwirioneddol ynghylch yr hyn a olygir gan fyfyriwr 'delfrydol' ar radd benodol, ac mae angen cefnogi athrawon wrth iddynt ddefnyddio crebwyll – mae angen mwy o fanylion/eglurder o ran y disgwyliad canolig gan y rheoleiddiwr / bwrdd arholi.*

Arweinydd ysgol neu goleg

I'r gwrthwyneb, teimlodd eraill nad oedd modelau safoni'n ddigon ystyriol o amgylchiadau unigol. O'r safbwyntiau hyn, gallai modelau safoni ail-greu anghydraddoldebau sy'n gynhenid yn y system addysg a chosbi nifer o ddysgwyr unigol, yn enwedig y bobl ifanc hynny sy'n perfformio ar lefel uchel mewn cymunedau difreintiedig. Roedd y safbwyntiau hyn yn fwy tebygol o gael eu mynegi gan rieni a dysgwyr:

*Gostwng graddau myfyrwyr sy'n bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a pheidio ag ystyried amgylchiadau arbennig iawn neu'r graddau y caiff gwaith cartref ei gwblhau, presenoldeb da, ac ati.*

Dysgwr

*Y dyfernir y graddau i pob disgybl y maent yn ei haeddu ni waeth beth yw lefel perfformiad y coleg yn gyffredinol.*

Rhiant neu ofalwr

*Ystyried amgylchiadau personol. Fel rhiant sengl sy'n gorfod gweithio gartref am saith awr a hanner y diwrnod heb unrhyw gymorth neu lwfans ar gael ar gyfer rhieni sydd angen cynnal dysgwyr ar yr un pryd. Rwy'n rhiant sengl sy'n gweithio i'r awdurdod lleol, mae fy mhlant yn mynychu'r ysgol, a derbyniais i fawr dim cymorth i fy nghynorthwyo ag addysgu gartref ar yr un pryd â gweithio.*

Rhiant neu ofalwr


## Llesiant Dysgwyr

Manteisiodd ymatebwyr ar y cyfle hefyd i ailddatgan pwysigrwydd llesiant, a goblygiadau posibl modelau safoni. O'r safbwyntiau hyn, mae'n rhaid i ddysgwyr fod yn flaenoriaeth mewn unrhyw benderfyniadau, a dylid sicrhau eglurder a chysondeb er mwyn datrys unrhyw bryderon y gallai fod gan ddysgwyr.

## Trefniadau Amgen


Gofynnwyd i ymatebwyr am ddulliau amgen i fewnbynnau asesu canolfannau a modelau safoni pe na ellid cynnal arholiadau yn 2021. [33] Yn gyffredinol, teimlodd 50.9 y cant o ymatebwyr fod opsiynau amgen ar gael a fyddai'n bodloni'r egwyddorion a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd 46.7 y cant o ymatebwyr eraill yn gallu meddwl am unrhyw opsiynau amgen, gan awgrymu cytundeb goblygedig â'r dull ar gyfer 2020 o ddefnyddio graddau asesu canolfannau a gafodd eu safoni'n ddiweddarach.

[33] C18. Pe na fydd yn bosibl cynnal arholiadau traddodiadol yn 2021, a ydych yn meddwl bod opsiynau amgen i fewnbynnau asesu canolfannau a modelau safoni a all fodloni'r egwyddorion a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru?


60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
% o'r holl ymatebwyr
50.9%
46.7%
2.4%
Ydw
Nac ydw
Dim ymateb

C18, N = 3,951

Fodd bynnag, cafwyd barn wahanol iawn ar draws grwpiau gwahanol o ymatebwyr. Roedd rhieni a gofalwyr, er enghraifft, yn fwy tebygol o awgrymu opsiynau amgen, gyda 56.9 y cant o ymatebwyr yn cytuno bod opsiynau amgen ar gael ac yn briodol. Ar y llaw arall, teimlodd cyfran debyg o athrawon mai'r mewnbynnau asesu canolfannau a gwaith safoni oedd y dull mwyaf priodol, ac nid oedd 56.4 y cant o ymatebwyr wedi gallu cynnig opsiynau amgen:




C18, N = 3,951

Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd fod trefniadau amgen ar gael i amlinellu eu hawgrym. [34] Ar draws y rhan fwyaf o'r grwpiau, roedd yr opsiynau amgen dichonadwy a ffafriol i arholiadau yn cynnwys asesu dysgwyr yn barhaus drwy eu gwaith yn y dosbarth, gwaith cartref, profion yn y dosbarth, a gwaith cwrs. Nodwyd yr opsiwn hwn yn eang gan ddysgwyr, rhieni ac athrawon, sy'n awgrymu cefnogaeth gyffredinol am y math hwn o asesu.

> *Defnyddio gwaith cwrs, gwaith cartref a asesir, canlyniadau ffug arholiadau, asesiadau eraill, a* graddau asesu canolfannau*. Mae athrawon yn gwybod galluoedd a photensial eu myfyrwyr. O ganlyniad, maent yn gallu rhoi gradd fwy gwybodus a realistig, sy'n rhywbeth na all ddata TGAU a chodau post mo'i ddarogan.*

Dysgwr

[34] C19. Os ydych, amlinellwch eich awgrym. (Uchafswm o 200 o eiriau)

*Creu proses syml sy'n cynnwys y system raddio deg y gwnaethom ei defnyddio'n fewnol, fel ysgol, ar gyfer cyflwyno graddau yn ystod yr haf. Darparu amrediad o asesiadau mewnol i ysgolion y gall disgyblion eu cwblhau dros y flwyddyn, e.e. papurau ffug arholiad, a gweithgareddau dosbarth a all gyfrannu at gynhyrchu gradd deg ar gyfer TGAU/UG/A2. Proses debyg ar gyfer pynciau galwedigaethol (yn dal i aros am ddiweddariadau galwedigaethol terfynol ar gyfer CBAC). Cadwch bethau'n syml fel bod pawb sydd ynghlwm wrth y trefniadau'n glir ynghylch yr hyn sy'n ddisgwyliedig.*

Arweinydd ysgol

O'r safbwyntiau hyn, teimlodd ymatebwyr yn aml fod gwaith cwrs ac asesiadau dosbarth parhaus drwy gydol y flwyddyn yn briodol. Maent yn galluogi athrawon i ystyried amser paratoi a'r deunydd sylweddol mae dysgwyr wedi'i dderbyn. Byddai hyn yn galluogi athrawon i deilwra asesiadau yn erbyn y rhannau o'r cwricwlwm a oedd wedi'u haddysgu. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gellid cyfuno gwaith dosbarth â ffynonellau eraill o wybodaeth er mwyn helpu i ddarparu tystiolaeth i ategu barn, gan gynnwys drwy ddarnau o waith cwrs a asesir, ac asesiadau diwedd uned, a fyddai i gyd yn dod ynghyd i gyfiawnhau'r radd a ddyfarnwyd.

Wedi'i gysylltu'n agos ag asesiadau dosbarth oedd y rhan y mae athrawon yn ei chwarae, a'u potensial, o ran barnu a dyfarnu graddau. Roedd y sylwadau hyn fel arfer yn seiliedig ar yr honiad mai'r “athro sy'n gwybod y disgyblion orau”. O'r safbwyntiau hyn, athrawon sydd yn y sefyllfa orau i allu barnu ar eu cyrhaeddiad:


*Rwy'n meddwl mai athrawon yw'r bobl fwyaf dibynadwy i asesu'r dysgwr gan eu bod eisoes yn gwneud hyn â graddau darogan bob blwyddyn. Nhw yw'r rhai sy'n gwybod galluoedd y dysgwyr drwy brofion, gwaith cartref ac asesiadau.*

Rhiant

Roedd y safbwynt hwn, er y cafodd ei nodi'n gyffredinol, yn fwy tebygol o gael ei fynegi gan rieni, gofalwyr a dysgwyr na grwpiau eraill o ymatebwyr. Nid oedd athrawon nac arweinwyr ysgolion o'r farn hon, yn gyffredinol, er enghraifft. Safbwynt cyffredinol arall oedd pwysigrwydd prosesau cymedroli wrth gefnogi unrhyw drefniadau yn y dyfodol. Cyfeiriwyd at hyn yn aml wrth amlygu'r amrediad o fewnbynnau posibl i unrhyw farn. Er enghraifft, nodwyd yn aml fod asesiadau athrawon ac asesu parhaus yn bwysig mewn perthynas â gweithdrefn gymedroli.


## 3.4 Effaith y Broses ar gyfer 2020

Yn olaf, aeth y ffurflen ymateb ymlaen i archwilio safbwyntiau ymatebwyr ynghylch effaith y broses ddyfarnu ar gyfer 2020. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi, er enghraifft, p'un a oeddent yn teimlo mai defnyddio'r uchaf o naill ai'r graddau asesu canolfannau, ynteu'r radd a gynhyrchwyd gan yr algorithmau safoni, oedd y canlyniad gorau ar gyfer dysgwyr yn yr amgylchiadau. Cafwyd cytundeb eang mai'r canlyniad gorau ar gyfer dysgwyr oedd defnyddio'r radd uchaf o'r graddau asesu canolfannau neu'r model safoni. Yn gyffredinol, roedd 61.1 y cant o ymatebwyr wedi cytuno, neu gytuno'n gryf, mai dyma oedd yn wir:




C20 (i), N = 3,951

Cafwyd cytundeb cyffredinol o'r rhan fwyaf o'r grwpiau o ymatebwyr. Fodd bynnag, anghytunodd y cyrff dyfarnu â'r pwynt hwn, gan ymateb, ar gyfartaledd, eu bod yn anghytuno mai'r radd uchaf o'r graddau asesu canolfannau neu'r graddau safonedig oedd y canlyniad gorau:





Allwedd: 1 = Anghytuno'n gryf, 2 = Anghytuno, 3 = Cytuno, 4 = Cytuno'n gryf

C20 (i), N = 3,951

O'u gofyn ai'r peth cywir oedd sicrhau mai'r un dull a ddilynir, ar y cyfan, o ddyfarnu graddau ymhob rhan o'r DU, roedd 75.8 y cant o ymatebwyr wedi cytuno â hynny, yn gyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys dysgwyr, rhieni a gofalwyr, ac athrawon. Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol hefyd nad oedd yr un datrysiad perffaith yn bosibl o dan yr amgylchiadau. Roedd 73.3 y cant o ymatebwyr wedi cytuno, neu gytuno'n gryf, y bu heriau sylweddol wrth ymateb i'r tarfiad a achoswyd gan y pandemig.

Fodd bynnag, un o'r canfyddiadau allweddol ynghylch effaith dull 2020 yw bod y mwyafrif o grwpiau'n teimlo bod eu hyder mewn cymwysterau yng Nghymru wedi'i danseilio gan brofiad 2020. Yn gyffredinol, roedd 52.3 y cant o ymatebwyr wedi cytuno, neu gytuno'n gryf, bod y broses wedi tanseilio'u hyder yn y system. Roedd dysgwyr, ac arweinwyr ysgolion neu golegau yn enwedig, yn teimlo bod eu hyder wedi'i danseilio. Roedd cyfrannau sylweddol eraill o ymatebwyr naill ai wedi anghytuno, neu anghytuno'n gryf, nad oedd wedi tanseilio'u hyder (27.3 y cant), neu roeddent yn ansicr (18.8 y cant):




C20 (iv), N = 3,951

Gan droi at archwilio goblygiadau pellach y trefniadau asesu, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd unrhyw effeithiau hirdymor wedi deillio o ddyfarniad terfynol y graddau yn 2020. Cynigiodd yr ymatebwyr amrediad hynod o amrywiol o effeithiau neu bryderon posibl. Roedd y rhain yn amrywio o effaith y trefniadau ar gyfer 2020 ar ddysgwyr, athrawon ac ysgolion, i fyfyrdodau ehangach, gan gynnwys pwysigrwydd cydnabod y tarfiad ar ddysgu ac addysgu yr oedd llawer o ymatebwyr wedi'i wynebu.

## Effeithiau ar Lesiant

Roedd effaith profiad 2020 ar les dysgwyr yn thema allweddol a gafodd ei hamlygu gan lawer o ymatebwyr. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ansicrwydd ynghylch datblygu a gweithredu trefniadau amgen wedi arwain at waethygu'r pryder a phwysau roedd rhai dysgwyr yn eu hwynebu. Mynegwyd hyn weithiau yn gwbl eglur:

*Mae fy ngorbryder wedi cynyddu, ac rwyf bellach yn cael pyliau o banig bron bob dydd oherwydd ansicrwydd.*

Dysgwr

*Mae fy merch eisoes yn eithriadol o bryderus ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd mewn perthynas â chanlyniadau arholiadau, ac mae'r ansicrwydd yn cael effaith ar ei hiechyd meddwl.*

Rhiant neu ofalwr

Roedd rhai o'r ymatebwyr wedi amlygu'r tarfiad ar ddysgu ac addysgu fel ffynhonnell allweddol o straen a gorbryder. O'r safbwyntiau hyn, roedd gwaith paratoi a datblygu dysgwyr wedi dioddef o ganlyniad i gau ysgolion a chyfnodau o hunanynysu:

*Diffyg hyder ymhlith dysgwyr – mae disgyblion Blwyddyn 12 bellach yn paratoi ar gyfer arholiadau gyda diffyg profiad o adolygu, techneg arholiadau ac ati, ond nid yw'r pwysau arnynt wedi cael eu lleddfu.*

Athro

Cafwyd pryderon hefyd ynghylch y straenachoswyr ychwanegol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn yr hinsawdd bresennol. O'r safbwyntiau hyn, roedd y pandemig wedi cael effaith ar bobl ifanc mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys tarfu ar rwydweithiau cymorth ynghyd â dysgu ac addysgu. Roedd rhai o'r ymatebwyr wedi cyfeirio at y gofidiau ehangach y gallai pobl ifanc eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig ei hun. Roedd y rhain wedi arwain at waethygu'r pwysau roedd rhai dysgwyr yn eu hwynebu:

*Mae COVID-19 wedi cael effaith ar iechyd meddwl ein pobl ifanc.*

Rhiant neu ofalwr

*Ydy – mae iechyd meddwl yn llanast llwyr, a hoffwn wybod beth mae'r llywodraeth yn ei wneud ynghylch graddau. Os bydd yr arholiadau'n mynd yn eu blaenau, carwn pe byddai'r cynnwys yn cael ei leihau gan ein bod ni i gyd o dan gymaint o bwysau oherwydd COVID-19 ar ben sefyll arholiadau a fydd yn penderfynu ein dyfodol!*

Dysgwr

Yn ogystal, roedd rhai o'r ymatebwyr wedi cyfeirio at y pwysau yr oedd eraill yn eu profi o ganlyniad i'r sefyllfa, gan gynnwys rhieni ac athrawon. O'r safbwyntiau hyn, roedd y trefniadau wedi achosi ansicrwydd a phryder ymhlith rhanddeiliaid ehangach:

> *Cafodd y penderfyniad cywir ei wneud yn y diwedd, ond roedd y siom i athrawon, rhieni a dysgwyr yn ystod wythnos Safon Uwch, a'r gwaith ychwanegol a wnaed, yn ddiangen. Pan oedd yr Alban wedi cydnabod y broblem, dylem fod wedi'i dilyn. Mae'r effeithiau sy'n deillio o hyn yn anferth o safbwynt llesiant, hyder a morâl. Mae hyn oll yn cael effaith ar iechyd staff a* myfyrwyr*.*

Rhiant neu ofalwr

> *Mae wedi cael effaith ddrwg iawn ar iechyd meddwl myfyrwyr a staff. Mae meddwl yn ymatebol gan arweinwyr yn arwain at orbryder ymhlith gweithwyr.*

Athro

> *Dryswch ac ansicrwydd llwyr ar gyfer ymgeiswyr sydd yn y cylch byw cyfredol. Mae'r llwyth gwaith ar gyfer staff derbyniadau wedi achosi salwch.*

Sefydliad addysg uwch

Lle roedd ymatebwyr wedi cynnig awgrymiadau ar sut i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â llesiant, roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar bwysigrwydd eglurder ac o ddilyn dull mewn modd sicr. Roedd yn ymddangos bod ansicrwydd yn ffynhonnell allweddol o orbryder gan yr ymatebwyr hynny a gynigiodd y safbwyntiau hyn:

> *Mae fy mhlant mewn addysg uwchradd. Mae eu hiechyd meddwl yn hollbwysig. Yr unig ffordd deg o ddyfarnu graddau dros y pedair blynedd nesaf fydd diddymu arholiadau ac ymddiried mewn graddau asesu athrawon. Byddwch yn garedig! Mae'r plant hyn wedi mynd trwy ddigon yn barod!*

Rhiant neu ofalwr

Roedd y ffocws amlwg ar effeithiau dull 2020 ar lesiant hefyd yn adlewyrchu a phwysleisio'r pwysigrwydd roedd llawer o ymatebwyr wedi'i roi ar ymgorffori llesiant fel egwyddor ychwanegol i lywio gwaith cynllunio'r trefniadau ar gyfer 2021.

## Effaith ar Ragolygon i'r Dyfodol

Thema allweddol bellach a godwyd gan ymatebwyr oedd effeithiau dilynol posibl y trefniadau ar gyfer 2020 ar ragolygon dysgwyr i'r dyfodol. Roedd hyn yn cwmpasu amrediad eang o fyfyrdodau, gan gynnwys y niwed ymddangosiadol i enw da mewn perthynas â pha mor ddilys a manwl gywir oedd y graddau. Gallai hyn, o'r safbwyntiau hyn, danseilio hyder sefydliadau addysg bellach a chyflogwyr yn y dyfarniadau.

> *1. Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n dewis pynciau Safon Uwch 2. Eisoes yn gweld myfyrwyr yn gadael eu dewis bynciau o ganlyniad i'w cael yn 'rhy anodd' 3. Chwyddiant gradd na ellir mo'i gynnal.*

Arweinydd ysgol neu goleg

Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo efallai bod y trefniadau ar gyfer 2020, â'u ffocws ar raddau asesu canolfannau a graddau safonedig, wedi rhoi rhai dysgwyr dan anfantais, gan gynnwys y disgyblion hynny sy'n tanberfformio. O'r safbwyntiau hyn, gallai'r effeithiau hirdymor gael effaith ganlynol ar hyder a rhagolygon:

> *Rwy'n gofidio na fydd fy mhlentyn yn cyflawni'r graddau y mae eu hangen arni ar gyfer y coleg / chweched dosbarth gan ei bod yn ymddangos bod ei graddau darogan wedi gostwng.*

Rhiant neu ofalwr

> *Collodd fy mab ei hyder yn ei allu yn llwyr pan ddyfarnwyd graddau iddo a oedd dwy radd yn is mewn dau bwnc, ac un radd yn is yn y trydydd pwnc – un o'r wythnosau gwaethaf rwyf wedi'i phrofi. Bellach yn bryderus iawn ynghylch ei arholiadau/graddau Safon Uwch a ph'un a gaiff ei dderbyn i'r brifysgol. Heb helpu drwy orfod gweithio gartref o ganlyniad i'r ffaith fod ysgolion yn hunanynysu ac ati.*

Rhiant neu ofalwr

O ganlyniad i'r trefniadau, amlygodd ychydig o'r ymatebwyr ei bod yn ofynnol iddynt addasu eu cynlluniau. Mae'n bosibl bod diwygio graddau at i fyny wedi cael effaith gadarnhaol ar rai dysgwyr, ond roedd y bobl a ymatebodd yn tueddu i sôn am eu siom:

*Collais fy lle fel dechreuwr 2020 ym Mhrifysgol Rhydychen oherwydd gostyngodd yr algorithm cymedroli fy ngraddau. Cefais fy ngorfodi i gymryd blwyddyn i ffwrdd nad oeddwn wedi'i chynllunio oherwydd bod pob un o'r lleoedd yn fy ngholeg wedi'u llenwi gan y garfan gychwynnol ar ddiwrnod y canlyniadau, a bydd yn rhaid i mi aros nes 2021 i ddechrau yn y brifysgol.*

Dysgwr

*I ddechrau, collais fy nau gynnig ar gyfer y brifysgol. Ar ôl derbyn graddau asesu'r ganolfan, roeddwn wedi cyflawni gofynion fy nau gynnig, ond, er hynny, roeddent yn is nag yr oeddwn wedi'u hennill. Daeth i'r amlwg bod fy athrawon drama yn pryderu y byddai gradd A*, gan adran nad oedd wedi cael un ers blynyddoedd, yn cael effeithiau negyddol ar bob disgybl pe gofynnid cwestiynau, felly penderfynon nhw ddyfarnu gradd A i mi.*

Dysgwr

## Addasrwydd Graddau

Thema allweddol a godwyd gan ymatebwyr oedd y pryder ynghylch addasrwydd y graddau a ddyfarnwyd i ddysgwyr. Roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar bryderon ynghylch canfyddiadau o'r lefel roedd chwyddiant graddau'n gynhenid yn y trefniadau ar gyfer 2020, ac unrhyw ganlyniadau dilynol ac anfwriadol. Cafwyd pryderon hefyd ynghylch canfyddiad o ddiffyg safoni a chymedroli graddau. Gallai'r diffyg gweithdrefn gadarn hwn fod wedi arwain at ddyfarnu graddau yn annheg. O'r safbwyntiau hyn, roedd pryder y gallai dysgwyr, â chanlyniadau nad oeddent yn adlewyrchu eu galluoedd yn gywir, ei chael yn anodd wrth symud ymlaen i ddysgu pellach:

*Roedd rhai myfyrwyr wedi derbyn graddau a oedd efallai'n uwch nag y dylent fod, ac o ganlyniad roeddent wedi dechrau Blwyddyn 1 eu cwrs gradd yn lle'r flwyddyn sylfaen. Bydd angen i sefydliadau addysg uwch fonitro cynnydd y garfan hon yn ofalus i benderfynu a yw hyn wedi cael effaith andwyol ar ddysgu a datblygiad myfyrwyr.*

Sefydliad addysg uwch

*Roedd proses y graddau asesu canolfannau yn drylwyr yn fy nghyfadran, ac er bod fy nghanolfan wedi annog dull trylwyr o'r fath, nid wyf wedi fy argyhoeddi bod pob disgybl wedi derbyn graddau teg (rwyf o'r farn fod disgyblion eraill wedi gwneud yn well nag y byddent fel arall). Felly rwyf o'r farn bod disgyblion yn meddu ar raddau sy'n awgrymu lefel o gymhwysedd nad oes ganddynt o reidrwydd.*

Athro

*Canfyddiad y cyhoedd yw bod CBAC wedi'i "gael yn anghywir" pan oeddent yn syml yn gwneud yr hyn a oedd wedi'i gytuno â gweinidogion a'r rheoleiddwyr. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth allanol fod y graddau asesu canolfannau yn fanwl gywir, y system a arweinir gan ddata a roddwyd ar waith oedd yr un decaf bosibl. Roedd dyfarnu'r graddau asesu canolfannau, yn y pen draw, heb unrhyw dystiolaeth galed neu ystadegol i'w hategu, yn annheg i ddysgwyr y gorffennol a'r dyfodol, ond roedd yn anochel unwaith roedd rhannau eraill o'r DU wedi gwneud hynny. Roedd hefyd yn annheg i ofyn i athrawon ddyfarnu gradd asesu'r ganolfan heb unrhyw hyfforddiant ffurfiol.*

Corff dyfarnu

*Mae'n ymddangos bod llais lleiafrifol cryf iawn sy'n gwrthwynebu arholiadau ac sydd am gael asesiadau athrawon. Rwy'n pryderu'n fawr bod y llais lleiafrifol hwn yn cael ei ystyried pan fo'r mwyafrif o bobl am i arholiadau ddigwydd, ar ryw ffurf, yn ystod haf 2021. Mae'n rhaid atal gorchwyddo graddau hefyd er mwyn bod yn deg i'r holl ddisgyblion a sefodd arholiadau yn y blynyddoedd a fu.*

Corff dyfarnu

Gellir amau i ba raddau y mae'r ymgynghoriad yn cynrychioli barn neu safbwyntiau ehangach y gymuned addysg. Fodd bynnag, yn seiliedig ar yr ymatebion, doedd y bobl hynny, gan gynnwys dysgwyr, rhieni ac athrawon, a fynegodd ddymuniad i weld bod graddau asesu canolfannau ac asesiadau athrawon yn nodwedd amlwg yn nhrefniadau'r dyfodol ddim yn perthyn i safbwynt lleiafrifol.

## Tir a Gollwyd o Safbwynt Dysgu

Manteisiodd ymatebwyr ar y cyfle hefyd i dynnu sylw at yr effaith y cafodd cyfyngiadau symud a chyfnodau o hunanynysu ar ddysgu ac addysgu. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, o'r safbwyntiau hyn, roedd dysgwyr wedi colli allan ar faint sylweddol o ddeunydd a pharatoi. Gallai hyn gael effaith

negyddol ar ddysgwyr wrth iddynt symud drwy'r blynyddoedd, a byddai'r dysgwyr hynny sy'n dechrau eu blwyddyn derfynol fod dan yr anfantais fwyaf:

> *Bydd y myfyrwyr sydd ym Mlwyddyn 13 ar hyn o bryd yn gweld bod arholiadau'r haf hwn [2021] yn heriol, ac ni fydd graddau Blwyddyn 12 yn cyfrif tuag at raddau terfynol. Os byddant yn tangyflawni mewn un o'r ddau asesiad sy'n weddill, yna bydd eu gradd derfynol yn is na'r disgwyl. Yn ogystal, mae'n annheg disgwyl iddynt sefyll pob un o'r pedwar arholiad er mwyn osgoi hyn, wedi iddynt golli gwerth 4/5 mis o addysgu.*

Athro

> *Amser dysgu a gollwyd ar gyfer Blwyddyn 11. Rwy'n athro Sbaeneg ac mae'n eithriadol o anodd i addysgu Sbaeneg o bell ac felly rydym yn gweithio'n ddiwyd i adfer y niwed a achoswyd gan y cyfyngiadau symud. Nid yw'r addasiadau a wnaed gan CBAC yn mynd ddigon pell, ac mae disgyblion wedi'u hanfanteisio o ganlyniad i faint y deunydd ac arholiadau anodd.*

Athro

## Ymddiriedaeth mewn Athrawon

Roedd thema bellach yn cynnwys effaith y profiad ar ymddiriedaeth ac ar y proffesiwn addysgu. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod y rôl ganolig a bennwyd i fodelau safoni yn y trefniadau wedi arwain at gwestiynu crebwyll proffesiynol athrawon eu hunain:

> *Wrth ddefnyddio'r algorithm, cafodd hyder mewn athrawon ergyd. Dangos diffyg ymddiriedaeth gwbl amlwg yn uniondeb athrawon i ddarparu graddau teg i ddisgyblion y mae rhai ohonynt wedi'u haddysgu ers blynyddoedd lawer, a chefnu ar hyn am algorithm.*

Athro

> *Straen i ddysgwyr ac i staff uwchradd. Canfuwyd na fyddai ardaeloedd difreintiedig / â lefelau prydau ysgol am ddim uchel yn gallu cyflawni'r graddau uwch. Mae ysgolion yn yr ardaloedd hyn yn gweithio'n galetach na'r rheiny mewn ardaloedd llai difreintiedig i sicrhau bod eu disgyblion yn cyflawni ar safon uchel, oherwydd yn yr ardaloedd hyn yn aml ni cheir y cyfranogiad gan rieni i wthio dysgwyr ac, yn aml, yr ysgol sy'n ysgwyddo'r holl waith o wneud hynny. Yn yr achos hwn, dylid ymddiried mewn athrawon o safbwynt y beirniadaethau a wneir ac ni ddylai Llywodraeth Cymru eu tanseilio.*

Arweinydd ysgol neu goleg

Roedd ymatebwyr eraill wedi ystyried nad oedd y naratifau ynghylch y profiad, gan gynnwys portreadau'r cyfryngau o bresenoldeb chwyddiant graddau, yn helpu, a'u bod yn wrthgynhyrchiol. Teimlodd rhai o'r ymatebwyr fod hyn yn cyflwyno darlun camarweiniol, ac yn cyfrannu at naratifau ehangach ynghylch argyfyngau a dirywiad tragwyddol sy'n arwain at falurio'r proffesiwn addysgu. Roedd hefyd yn arwain at danseilio hyder yn y system gyffredinol, ac nid oedd yn cydnabod yr heriau dwfn roedd dysgwyr, athrawon ac ysgolion yn eu hwynebu:

*Cael fy hysbysu am y sefyllfa gyfredol drwy'r cyfryngau yn hytrach na gan y bwrdd addysg / llywodraeth ynghyd â'r ffaith fod y cyfryngau yn datgan sylw cyffredinol fod 'athrawon yn rhy hael' pan nad hynny oedd y sefyllfa o ysgol i ysgol …*

Athro

*Nid oedd ein canlyniadau ni'n wahanol i flynyddoedd gynt … Gan ein bod yn gweithio gyda myfyrwyr BTEC, rydym yn gwybod ar ba lefel y mae myfyrwyr yn gweithio ac felly roeddem yn gallu dyfarnu graddau manwl gywir. Ond nid yw cwestiynu proffesiynoldeb athrawon yn y cyfryngau yn adeiladol. Mae'n wir y bu cynnydd o 10% yn y canlyniadau a oedd yn seiliedig ar arholiadau, ond os oes gennych fyfyriwr ar ffin gradd, o dan yr amgylchiadau mae'n rhaid rhoi mantais yr amheuaeth i'r myfyriwr y bydd yn llwyddo. Yn y pen draw, bydd y myfyrwyr hyn yn aml yn mynd ymlaen i lwyddo yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol gyda'r hyder y maent wedi'i ennill er gwaethaf effaith anferth COVID-19.*

Athro

**Atodiad 5: Gwahaniaethau Dull Cymru o'i Gymharu â Dulliau'r Alban a Lloegr (darperir y testun gan CBAC):**

Mae'r pwyntiau a ddarperir isod yn tynnu sylw at y gwahaniaethau yn y dulliau o ddyfarnu cymwysterau haf 2020. Mae'r gwahaniaethau mewn perthynas â'r prosesau a ddefnyddir, ac nid ydynt yn cyfeirio at wahaniaethau mewn strwythurau cymwysterau, fel mwy o bwyslais ar unedau sy'n cael eu hasesu'n fewnol yn yr Alban, a'r datgysylltu o Safon UG a Safon Uwch ym model Lloegr.

*Yr Alban o'i chymharu â Lloegr a Chymru:*

Gellir crynhoi'r gwahaniaethau allweddol rhwng y dulliau fel a ganlyn:

1. Cesglir amcangyfrifon athrawon bob blwyddyn gan yr SQA
2. Casglwyd amcangyfrifon athrawon eleni ar lefel fwy gronynnog
3. Rhoddwyd ystyriaeth i'r amcangyfrifon o'u cymharu â'r berthynas arferol rhwng amcangyfrifon a chanlyniadau mewn cyfres safonol
4. Nid oedd y data a ystyriwyd wrth ddyfarnu yn cynnwys cyrhaeddiad cynt y garfan (e.e. y defnydd o gyrhaeddiad yng Nghymwysterau Cenedlaethol yr Alban wrth wneud penderfyniadau ar ganlyniadau'r Scottish Highers)
5. I addasu canlyniadau er mwyn cael dosbarthiad cenedlaethol derbyniol o raddau, defnyddiwyd techneg optimeiddio fathemategol yn yr Alban i addasu'r amcangyfrifon graddau gronynnog ar lefel y ganolfan. Ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer canolfannau bach ym model yr Alban.

*Cymru o'i chymharu â Lloegr:*

Gellir crynhoi'r gwahaniaethau allweddol rhwng y dulliau fel a ganlyn:

1. Cymryd gwir gyflawniad ymgeiswyr mewn unedau cyflawn yn y cymhwyster o gyfres flaenorol, ar lefel y ganolfan, i benderfynu graddau'r cymhwyster terfynol i'w dyrannu i'r ganolfan (e.e. defnyddio gwir ganlyniadau UG ymgeiswyr mewn cymhwyster penodol i benderfynu'r graddau cymwysterau Safon Uwch i'w dyrannu i'r ganolfan)
2. Defnyddio data o 'ganolfannau cyffredin' (canolfannau â phatrymau mynediad ar draws y gyfres) yn y broses o ddyfarnu
3. Defnyddio data ymgeiswyr o'r profion cenedlaethol yn y broses o ddyfarnu
4. Nid oedd yr addasiad 'canolfan fach', a roddodd fwy o bwyslais ar raddau asesu canolfannau ym model Perfformiad Uniongyrchol y Ganolfan (DCP) yng Nghymru, a'r dull a ddefnyddiwyd yn Lloegr ar gyfer yr holl gymwysterau cyffredinol, yn angenrheidiol yng Nghymru ar gyfer Safon Uwch oherwydd y defnydd o ganlyniadau UG ymgeiswyr
5. Yn Lloegr, roedd canlyniadau yn cael eu newid yn y broses safoni fel eu bod mor agos â phosibl i ragfynegiad ystadegol. Yng Nghymru, addaswyd canlyniadau modelau fel nad oedd canlyniadau yn disgyn yn is na'r rhai a ragfynegwyd yn 2020 ar sail data cyrhaeddiad blaenorol (canolfannau cyffredinol ar gyfer TGAU) neu ganlyniadau 2019. Adolygwyd canlyniadau wedyn gan bwyllgor dyfarnu (grŵp gwneud penderfyniadau) a allai argymell newidiadau pellach os oedd teimlad nad oedd canlyniadau'n deg. Yn y cyfarfodydd hyn, adolygwyd data ar grwpiau o ymgeiswyr (rhywedd, oedran, rhanbarth, ac yn y blaen) i sicrhau bod y model yn cynhyrchu canlyniadau a oedd mor deg â phosibl.